Cartref

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Bioamrywiaeth Cymru

Biodiversity Wales

## Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Cefnffyrdd 2004 - 2014



Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y ddogfen hon, ei chynnwys neu ei chysylltau i wefannau eraill, anfonwch nhw drwy'r post at: Cynghorydd ar Wyddor yr Amgylchedd, y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;
neu e-bostiwch len.wyatt@wales.gsi.gov.uk

Gallwch ddefnyddio'r un pwynt cyswllt os ydych am roi gwybod eich bod wedi gweld bywyd gwyllt ar y rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd.

Lluniwyd gan

Cresswell Associates

ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru

ISBN 0 7504 3243 8

IONAWR 2004

©Hawlfraint y Goron 2004

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog dros Ddatblygiad Economaidd a Chludiant 4
Crynodeb gweithredol 5
Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon 8

Cyflwyniad 9

Cefndir bioamrywiaeth yn y DU 10

Cefndir bioamrywiaeth yng Nghymru 12

Yr ystâd cefnffyrdd 13

Canllawiau a chyngor presennol 16

Datblygiad TREBAP 19

Gweithrediad 23

Cysylltiadau gyda sefydliadau eraill 26

Y cynlluniau 27

Rhestr termau 129
Llyfryddiaeth a chyfeiriadau defnyddiol 134
Cyfeiriadau eraill 138
Diolchiadau 139

# Rhagair

**RHAGAIR GAN Y GWEINIDOG DROS DDATBLYGIAD ECONOMAIDD A CHLUDIANT**

Mae cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu hwn yn gydnabyddiaeth o'r modd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn symud bioamrywiaeth ymlaen yn ogystal â bod yn gyfle i'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth barhau i gyfrannu tuag at gyfoeth y bioamrywiaeth sy'n digwydd yng Nghymru.

Mae llwyddo i gael y cydbwysedd yn iawn rhwng anghenion ein cymdeithas am gludiant ar y ffordd ac effeithiau rhwydwaith ffyrdd y Cynulliad ar ein bywyd gwyllt yn fater cymhleth a dadleuol yn aml.

Mae'r cynllun wedi ei ddylunio i herio ac i ysbrydoli'r rhai sy'n gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth ar rwydwaith ffyrdd y Cynulliad Cenedlaethol – ac yr un mor bwysig, i herio'r rheiny ohonom sy'n defnyddio'r rhwydwaith i feddwl mwy am y bywyd gwyllt sydd yno. Tra bydd nifer o'r gweithredoedd yn cymryd amser i'w cyflwyno, ac yn hirach fyth o bosibl i ddangos manteision i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau perthnasol, rwy'n gobeithio y bydd y Gyfarwyddiaeth yn gallu gosod safon ar gyfer gwaith ar faterion tebyg yng Nghymru a'r tu hwnt.

Wrth gloi, rwy'n croesawu'r cynllun hwn a'r weledigaeth y tu cefn iddo, ac edrychaf ymlaen at glywed sut y bydd y Gyfarwyddiaeth yn ei weithredu ac at ganlyniadau eu gwaith.





**Andrew Davies** AC

# Crynodeb Gweithredol

## Beth yw bioamrywiaeth?

Mae bioamrywiaeth yn cwmpasu pob un math o fywyd ar wyneb y ddaear, ac mae'n ymwneud yn benodol â phwysigrwydd cadw system gymhleth o gynefinoedd a rhywogaethau er mwyn cynnal iechyd ecolegol y blaned.

Yn y Deyrnas Unedig, mae rhai mathau o gynefinoedd a rhywogaethau wedi eu nodi fel rhai sy'n neilltuol bwysig i fioamrywiaeth, ac mae nifer o sefydliadau yn gweithredu mesurau drwy Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth i'w cynnal, ac i'w gwella lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

## Pam mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth â rhan yn hyn?

Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth sy'n gyfrifol am y Rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith hwn yn ymestyn ar draws Cymru gyfan, yn croesi drwy amrywiaeth helaeth o fathau o greigiau, tirweddau a chynefinoedd. Gall y rhain fod yn ucheldir, yn iseldir ac yn achlysurol yn arfordir. Mae'r ardal o fewn ffiniau'r cefnffyrdd, a elwir yn "ystâd meddal" ar hyn o bryd yn cynnwys tua 1700 hectar.

Gall y tir hwn gynnwys ardaloedd o ddiddordeb bioamrywiol ond yn groes i hyn, gall adeiladu a defnyddio ffyrdd gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth.

Dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd i barchu cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwysigrwydd mwyaf i Gymru. Mae'r TREBAP yn cynnwys nifer o'r cynefinoedd a rhywogaethau hyn.

Gan gadw'r wybodaeth hon mewn cof, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi Cynhyrchu'r cynllun hwn.

*Amcanion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Cefnffyrdd (TREBAP)*

Dyma amcanion y TREBAP, o fewn cyfyngiadau adnoddau a diogelwch y ffordd:

- sefydlu gweithredoedd a thargedau ymarferol a realistig ar gyfer y cyfnod 2004 – 2014;
- cysylltu gyda thargedau cynefinoedd a rhywogaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth perthnasol eraill;
- cynyddu ymwybyddiaeth staff a chontractau'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, ei phartneriaid amgylcheddol, a'r cyhoedd o elfen fioamrywiaeth y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd;
- annog defnyddio a thaenu arfer gorau bioamrywiaeth wrth reoli a datblygu'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd; ac
- adlewyrchu gofynion Cynllun Datblygiad Cynaliadwy'r Cynulliad a'r Cynllun Gweithredu lle bo hynny'n berthnasol.

# Crynodeb Gweithredol

## Sut cafodd y Cynllun ei ddatblygu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad i benderfynu ar ymagwedd y cynllun yn ystod yr hydref 2001.

Yn ystod haf 2002 cafodd Polisïau'r Llywodraeth, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a rhai Lleol, a gwybodaeth oedd ar gael ar fioamrywiaeth y rhwydwaith eu harchwilio er mwyn casglu gwybodaeth i gefnogi paratoi'r Cynllun. Cafodd y gwaith o baratoi'r cynllun ei gyfarwyddo gan Bartneriaeth o gynrychiolwyr sefydliadau bywyd gwyllt, trafnidiaeth a chyhoeddus. Bu drafft y Cynllun yn agored i Ymgynghoriad Technegol rhwng Chwefror a Mai 2003.

## Beth sydd yn y cynllun?

Mae'r cynllun wedi ei rannu yn ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn disgrifio cefndir bioamrywiaeth, cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Gyfarwyddiaeth, a manylion y broses o ddatblygu'r Cynllun. Mae'r ail ran yn cynnwys y Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y Cynefinoedd a'r Rhywogaethau.

**Mae 11 Cynllun Gweithredu Cynefin wedi eu cynnwys yn y TREBAP, sef:** Nodweddion ffiniau, Glaswelltir calchaidd, Cynefinoedd arfordirol a morydol, Rhostiroedd, Glaswelltir asid sych tir isel, Dolydd tir isel, Glaswellt y waun porffor a thir pori brwyn, Afonydd a nentydd, Wynebau craig a sgri, Ardaloedd dyfrol, Coetiroedd a choed a phrysgwydd brodorol planedig.

**Mae 17 Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, rhai ar gyfer rhywogaethau unigol, eraill ar gyfer grwpiau o rywogaethau, hefyd wedi eu cynnwys, sef:** Amffibiaid, Rhywogaethau dyfrol, Y dylluan wen, Ystlumod, Pathew, Iâr fach yr haf Brith y Gors, Dyfrgi, Ymlusgiaid, Llygoden y dŵr, Gwyfyn cliradain Gymreig, Clychau'r gog, Penigan y porfeydd, Briwlys y calchfaen, Aethnen ddu frodorol, Tegeirianau, Pysen y coed, Clychlys Ymledol.

Ar ben hyn, mae dau Gynllun Gweithredu Generig wedi eu cynnwys (*Arolwg Ecolegol* ac *Addysg ac Ymwybyddiaeth*) gan y bydd canlyniadau'r gweithredoedd yng nghyswllt hyn yn hysbysu ac yn galluogi gweithgareddau eraill i ddigwydd.

Ar y cyfan, mae 251 o weithgareddau wedi eu rhestru i'r Gyfarwyddiaeth eu gwneud. Yn eu plith mae: adolygu a chyhoeddi cyngor newydd; canfod rhagor am y cynefinoedd a'r rhywogaethau ar y rhwydwaith; diwygio'r ffordd y mae rheoli ffyrdd newydd ac ymyl y ffordd yn digwydd; lle bo hynny'n ymarferol, adfer neu greu cynefinoedd newydd; a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y rhwydwaith i fioamrywiaeth.

## Cyflwyno, monitro ac adrodd

Oherwydd goblygiadau iechyd a diogelwch gweithio ar ffyrdd, bydd angen i'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu gael eu gwneud gan y Gyfarwyddiaeth drwy gynlluniau newydd a gwaith cynnal a chadw parhaus. Serch hynny, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod y byddai cymhwyso TREBAP yn llai effeithiol heb gymorth gan y bobl sydd â gwybodaeth arbenigol o faterion bywyd gwyllt a heb gefnogaeth y cyhoedd. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn croesawu cyfranogiad parhaus sefydliadau ac unigolion eraill yn y gwaith hwn.

Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cofnodi'r camau a wnaethpwyd yn flynyddol, gan adrodd i'r Bartneriaeth bob dwy flynedd; a bydd yn darparu gwybodaeth i'r System Adrodd Gweithgareddau Bioamrywiaeth yn y DU unwaith y mae ei ofynion a'i gydweddoldeb ag anghenion y Gyfarwyddiaeth wedi eu sefydlu.


## Adolygu

Caiff y cynllun ei adolygu yn 2009 gyda'r Bartneriaeth. Adolygir Cynlluniau Gweithredu Presennol, a rhoddir ystyriaeth i gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd newydd ynddo.

## Adborth

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y TREBAP, cysylltwch â Chynghorydd Gwyddoniaeth Amgylcheddol y Gyfarwyddiaeth; mae ei fanylion cyswllt ar dudalen 6 y ddogfen hon.

## Y Rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd




**Os ydych yn cael trafferth edrych ar y dudalen yma, a fyddech gystal â'i chwyddo trwy ddefnyddio'r 'teclyn closio'.**

# Sut i Ddefnyddio'r Ddogfen hon

**Mae'r TREBAP wedi cael ei gynhyrchu mewn tri fformat:**

- dogfen bapur annibynnol;
- ffeil gyfrifiadur Adobe Acrobat i'w lawrlwytho o'r rhyngrwyd o: http://www.cymru.gov.uk/subitransport/content/trebap/index-w.htm
- a dogfen gyfrifiadurol ar Wefan Trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad, sef: http://www.cymru.gov.uk/subitransport/content/trebap/index-w.htm

Os ydych chi'n darllen hwn o'r ddogfen bapur, mae'r testun wedi ei newid fel bod y ffynonellau gwybodaeth perthnasol, sy'n cael eu dangos fel hypergysylltiad i'r we ar fersiynau cyfrifiadurol, wedi eu rhestru o dan yr Eirfa a Chyfeiriadau.

Mae'r fersiwn Adobe Acrobat yn caniatáu symud o fewn y ddogfen ac yn addas ar gyfer ei hargraffu.

Mae'r ddogfen Adobe Acrobat ar y wefan yn caniatáu cysylltu gyda gwefannau allanol drwy ddefnyddio'r hypergysylltiadau sydd wedi eu tanlinellu/eu hamlygu yn y ddogfen, ond nid yw mor addas ar gyfer ei hargraffu.

# 1 Cyflwyniad

**Mae'r term bioamrywiaeth yn cwmpasu pob un math o fywyd ar wyneb y ddaear, ac mae'n ymwneud yn benodol â phwysigrwydd cadw system gymhleth o gynefinoedd a rhywogaethau, a'r rhyngweithio sy'n digwydd rhyngddynt, er mwyn cynnal iechyd ecolegol y blaned.**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel Awdurdod Priffyrdd Cymru, gyfrifoldeb uniongyrchol dros gynnal, gwella a datblygu rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd i dalu sylw i gadwraeth bioamrywiaeth yn ei waith. Mae cadwraeth yn cynnwys amddiffyn a gwella cynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwysigrwydd pennaf yng Nghymru.

Mae Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ymgorffori bioamrywiaeth yn ei gwaith, a bydd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Cefnffyrdd, neu 'TREBAP' yn cyfrannu tuag at y broses hon.

## Amcanion y TREBAP

Dyma amcanion y TREBAP, o fewn cyfyngiadau adnoddau a diogelwch y ffordd:

- sefydlu gweithredoedd a thargedau ymarferol a realistig ar gyfer y cyfnod 2004 – 2014;
- cysylltu gyda thargedau cynefinoedd a rhywogaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth perthnasol eraill;
- cynyddu ymwybyddiaeth staff a chontractau'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, ei phartneriaid amgylcheddol, a'r cyhoedd o elfen fioamrywiaeth y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd;
- annog defnyddio a thaenu arfer gorau bioamrywiaeth wrth reoli a datblygu'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd;
- adlewyrchu gofynion Cynllun Datblygiad Cynaliadwy'r Cynulliad (*Dysgu byw'n wahanol*) a'r Cynllun Gweithredu lle bo hynny'n berthnasol.



*Llygaid-llo mawr ar hyd yr A55*

# 2 Cefndir bioamrywiaeth yn y DU

**Ym Mehefin 1992, llofnododd dros 150 o benaethiaid gwladwriaethau neu lywodraethau (yn cynnwys Prif Weinidog y DU) y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygiad yn Rio de Janeiro, oedd yn eu hymrwymo i weithredu er mwyn cadw a gwella bioamrywiaeth o fewn eu ffiniau cenedlaethol. I ganfod mwy am gyfraniad y DU tuag at fioamrywiaeth, cliciwch fan hyn i gael mynediad at wefan Bioamrywiaeth y DU.**

Nododd llywodraeth y DU, mewn ymgynghoriad gyda dros dri chant o sefydliadau ledled y DU, nifer o faterion cadwraethol allweddol, gydag amrywiaeth eang o weithgareddau i'w cyflawni dros yr ugain mlynedd nesaf. Sefydlwyd egwyddorion sylfaenol, yn cynnwys:

- Dull partneriaethol o gwrdd ag amcanion;
- Sefydlu targedau, h.y. deilliannau y gellir eu mesur sy'n mynd i'r afael ag anghenion mathau o rywogaethau a chynefinoedd;
- Yr angen am integreiddio polisïau;
- Yr angen am wybodaeth gynhwysfawr wedi ei threfnu'n dda o amryw o ffynonellau; a
- Gwerth, a'r angen am, ymwybyddiaeth a chefnogaeth y cyhoedd.

Cafodd yr egwyddorion hyn eu hymgorffori yng *Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU*, wedi eu disgrifio yn y blwch isod oedd yn nodi'r gweithredoedd angenrheidiol i gwrdd â'r amcanion cadwraeth manwl ar gyfer nifer o gynefinoedd a rhywogaethau.

- 1994: Cyhoeddi '*Biodiversity: the UK Action Plan*'.
- 1995: Cyhoeddi '*Biodiversity: the UK Biodiversity Steering Group report*'.
- 1996 a 1999: Cyhoeddi '*UK Biodiversity Group Tranche 2 Action Plans, Volumes I - VI*'.



*Rhoi wyneb newydd ar ffordd yr A40*



*Coedwig o glychau'r gog*

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn nodi'r cynlluniau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yn gynlluniau gweithredu Blaenoriaeth ac yn ddatganiadau cyffredinol.

- Mae Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd Blaenoriaeth yn rhoi disgrifiadau manylach ar gyfer 45 math penodol o gynefinoedd. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi gweithgareddau manwl y gellir eu gwneud er mwyn diogelu a gwella'r cynefinoedd hyn.
- Mae Datganiadau Cyffredinol ar Gynefinoedd yn rhoi disgrifiadau cryno o bob cynefin a geir yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys mathau naturiol o gynefinoedd megis 'coetiroedd llydanddail' ac 'afonydd a nentydd'. Mae'r Datganiad yn rhoi disgrifiad cyffredinol o bob math o gynefin, yn nodi materion cyfredol sy'n effeithio ar y cynefin hwnnw, ac yn amlinellu polisïau eang y mae modd eu gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

I edrych ar Gynllun Gweithredu Cynefin UKBAP neu ddatganiad ewch i fan hyn

- Cafodd Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau Blaenoriaeth eu cynhyrchu ar gyfer 391 rhywogaeth yn y DU hyd yma. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth fanwl ar y bygythiadau sy'n wynebu'r rhywogaethau hyn yn ogystal â chyfleon i gynnal a gwella eu poblogaethau. Mae camau manwl wedi eu nodi ar gyfer nifer o sefydliadau er mwyn cwrdd â'r targedau ar gyfer y rhywogaethau hyn.
- Cynhyrchwyd Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau fesul 'Grŵp' hefyd lle mae angen amrediad o bolisïau a chamau cyffredin ar gyfer nifer o rywogaethau tebyg i'w gilydd, er enghraifft, crwbanod y môr neu bysgod masnachol.
- Paratowyd 'Datganiadau Rhywogaethau' hefyd, sy'n rhoi trosolwg o statws rhywogaeth penodol ac yn nodi'r polisïau eang y mae modd eu datblygu er mwyn eu cadw.

Er mwyn gweld Cynllun neu ddatganiad Gweithredu Rhywogaeth UKBAP, ewch i fan hyn

Mae cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd Blaenoriaeth ar hyn o bryd yn cael ei drosi i weithredu lleol drwy gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPau), wedi eu cynhyrchu'n bennaf gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth gyda phartïon eraill sydd â diddordeb, yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt lleol, ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Mae grwpiau diddordeb arbennig megis Cadwraeth gloÿnnod byw wedi cynhyrchu eu Cynlluniau Gweithredu eu hunain ar gyfer grwpiau tacsonomegol penodol. Mae sectorau amrywiol hefyd wedi creu eu Cynlluniau Gweithredu eu hunain, yn eu plith, er enghraifft Aggregate Industries UK, a'r Asiantaeth Priffyrdd yn Lloegr. Mae ffermydd a busnesau hefyd wedi cael eu hannog i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Cwmnïau neu ffermydd.

# 3 Cefndir bioamrywiaeth yng Nghymru

**Mae nifer o fentrau sydd eisoes ar y gweill wedi hysbysu ymagwedd y TREBAP, naill ai yn ystod y cyfnod Archwilio a wnaethpwyd fel rhan o waith paratoi'r cynllun, neu wedi hynny wrth i'r cynllun ddatblygu.**

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

Fel rhan o gyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 74 (2) y Ddeddf CRoW, mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau yr ystyrir eu bod yn bwysig iawn yng Nghymru wedi eu nodi. Gelwir y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn gyda'i gilydd yn 'Rhestr Adran 74'. Mae'r Rhestr yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, ond mae nifer o ychwanegiadau yn adlewyrchu bioamrywiaeth yng Nghymru. Lle mae cynefinoedd a rhywogaethau o fewn y TREBAP yn ymddangos ar Restr Adran 74, mae hyn wedi ei nodi yn y Cynllun Gweithredu perthnasol.

### 'Gweithredu dros Fywyd Gwyllt' a 'Chynefinoedd Blaenoriaeth i Gymru'

Mae'r ddogfen Gweithredu dros Fywyd Gwyllt (CCGC, 1997) a gynhyrchwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru fel 'cyfraniad tuag at waith grŵp Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru', yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ar y rhywogaethau (54) a'r cynefinoedd (12) UKBAP sy'n digwydd yng Nghymru, oedd wedi eu nodi yn Adroddiad Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU. Mae CCGC hefyd wedi cynhyrchu "Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru: canllaw technegol" yn ddiweddar, sy'n rhoi manylion nodweddion a dosbarthiad cynefinoedd Blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yng Nghymru.

### Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPau)

Mae dau ddeg pedwar o LBAPau wedi cael eu cynhyrchu (neu wrthi'n cael eu cynhyrchu) gan Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Cafodd y cynlluniau oedd ar gael yn 2002 eu hadolygu pan gynhaliwyd yr Archwiliad Rhwydwaith er mwyn hysbysu'r TREBAP.

### Coetiroedd i Gymru

Un o amcanion strategol y ddogfen strategaeth Coetiroedd i Gymru 2001, a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yw cael amgylchedd amrywiol ac iach. Y blaenoriaethau gweithredu dan yr amcan strategol hwn yw: cadw a gwella bioamrywiaeth ein coetiroedd; cadw a gwella tirweddau Cymru; ac intregreiddio coetiroedd yn well gyda rheolaeth cefn gwlad arall.

### Datblygiad Cynaliadwy

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd i hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy wrth weithredu ei swyddogaethau. Mae'r TREBAP yn darparu fframwaith ar gyfer gwaith y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth gyda bywyd gwyllt, fyddai'n cyfrannu tuag at y gweithgaredd a ddisgrifir yn Adran 5C Cynllun Datblygiad Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol i gynnal bioamrywiaeth.

# 4 Yr Ystâd Cefnffyrdd

**Mae Fframwaith Trafnidiaeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001, yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella system gludiant Cymru, gan alluogi awdurdodau a gweithredwyr sy'n gyfrifol am gludiant cyhoeddus a phreifat i weithio tuag at gwrdd ag amcanion y ddogfen bolisi hon.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am tua 1700 cilomedr o draffordd a chefnffordd sy'n ymestyn ar hyd a lled Cymru. Mae'r rhain yn cael eu dangos ar y map ar dudalen 7. Cefnffyrdd a thraffyrdd yw'r ffyrdd hynny sy'n cael eu nodi fel rhai o bwysigrwydd strategol i Gymru, ac maent yn cyfrif am ryw 5% o gyfanswm hyd ffyrdd Cymru, ond maent yn cludo dros 50% o'r holl drafnidiaeth, felly mae cynnal a gwella'r gwasanaeth hwn yn hanfodol. Mae safon y rhwydwaith hwn yn amrywio o draffyrdd tair lôn i ffyrdd deuol a ffyrdd sengl. Mae llif trafnidiaeth ar y rhwydwaith yn amrywio o ryw 3,000 i 120,000 cerbyd y dydd, yn dibynnu ar y lleoliad.

Mae twf hir dymor trafnidiaeth wed parhau ers 1989, yn enwedig ar y cefnffyrdd a'r traffyrdd sy'n cysylltu prif ardaloedd poblogaeth Cymru. Gyda chynnydd yn y galw am gludiant, rhagwelir y bydd trafnidiaeth ar prif deithiau rhyng-drefol (h.y. cefnffyrdd a thraffyrdd yn bennaf yn ne a gogledd Cymru) yn parhau i dyfu.

Nododd y ddogfen ***Gyrru Cymru Ymlaen*** (1998) rwydwaith craidd newydd o ffyrdd strategol o fewn rhwydwaith ffyrdd y Swyddfa Gymreig (bryd hynny). Amlygodd *Rhaglen Symud Cefnffyrdd Ymlaen* (2002) goridorau allweddol: y coridor De-Gogledd a'r coridorau Dwyrain-Gorllewin yn ne, canolbarth a gogledd Cymru.

Dywed y *Rhaglen Symud Cefnffyrdd Ymlaen* (2002) mai'r amcan trosfwaol sy'n gysylltiedig â datblygu coridorau cefnffyrdd yw cynnal a gwella'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru mewn modd cynaliadwy, gan gymryd i ystyriaeth anghenion a goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y genedl. Yn ogystal â hyn, dyma'r amcanion amgylcheddol:

- gwella ansawdd bywyd ar gyfer pobl mewn cymunedau sy'n agos at y rhwydwaith cefnffyrdd;
- hyrwyddo beicio a cherdded a darparu cyfleon ar gyfer ffyrdd iachach o fyw;
- lleihau unhryw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd yn gyffredinol; cadw a gwella, lle bo'n briodol, tirweddau, trefluniau ac adnoddau hanesyddol a diwylliannol; a
- chadw a gwella, lle bo'n briodol, bioamrywiaeth ar y rhwydwaith drwy'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

Cyhoeddwyd adolygiad o'r rhwydwaith cefnffyrdd sy'n ystyried maint y cefnffyrdd a'r traffyrdd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol amdanynt. Disgwylir canlyniadau'r adolygiad hwn cyn bo hir a byddant yn hysbysu cymhwysiad TREBAP.



*Traffig mewn pentref yng Nghanolbarth Cymru*

### Yr ystâd feddal

Mae ystâd feddal Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymestyn ar draws Cymru gyfan, yn croesi (ac felly'n dylanwadu ar ac yn cael ei dylanwadu gan) amrywiaeth eang o fathau o greigiau, tirweddau a chynefinoedd, o laswellt y waun porffor a thir pori brwyn i welyau cors, cors pori gorlifdir arfordirol, a chynefinoedd creigiau a sgri. Mae'r ystâd feddal gysylltiedig ar hyn o bryd yn rhyw 1700 hectar. Tra bod llawer ohoni yn stribedi cul o laswelltir, prysg neu goetir yn agos at y ffordd gerbydau, ceir hefyd ardaloedd o dir helaethach o fewn cyfnewidfeydd mawr, neu dir sydd wedi ei gaffael o ganlyniad i ddatgysylltiad.

Defnyddir tir priffyrdd ar gyfer nifer o bethau, yn cynnwys gofynion peirianneg, diogelwch y ffordd, arwyddion a rheoli traffig, draeniad a lliniaru effeithiau gweledol ac eraill y ffordd a'r drafnidiaeth, yn ogystal â mesurau sy'n ymwneud yn benodol â bioamrywiaeth a chadwraeth natur. Gall yr un ymylon ffordd gael effeithiau ar ddiddordebau gweledol a threftadaeth ddiwylliannol.

Yn gynyddol mae'r ystâd feddal yn cael ei chydnabod fel ardal gadw werthfawr ar gyfer bioamrywiaeth; gall hyn fod oherwydd:

- bod olion o'r cynefinoedd gwreiddiol yn bresennol;
- gwerth ecolegol isel tir cyfagos yn aml;
- ei gwerth fel coridor bywyd gwyllt, naill ai fel cyswllt rhwng cynefinoedd neu fel carreg gamu rhyngddynt; ac
- mewn rhai achosion, o ganlyniad i'r rheoli sy'n digwydd (e.e. torri gwair yn briodol a llai o ddefnydd ar blaladdwyr).

Gall ymylon ffyrdd fod yn werthfawr dros ben os ydynt yn cynnwys cynefin sy'n werthfawr ynddo'i hun ac sydd hefyd yn ffinio ag ardaloedd mwy (weithiau wedi eu hamddiffyn neu eu dynodi) o'r un math o gynefin (megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu safleoedd bywyd gwyllt lleol).

Ar y llaw arall, ystyrir fod gan ffyrdd effeithiau negyddol arwyddocaol ar fioamrywiaeth er efallai nad ydynt mor gyffredin â gweithgareddau dynol eraill. Ystyrir ffyrdd yn ffactor gyfredol arwyddocaol sy'n effeithio ar leihâd neu golli rhai cynefinoedd a rhywogaethau dan rai amgylchiadau. Ymysg yr effeithiau negyddol potensial ar fioamrywiaeth mae:

- adeiladu ffyrdd (yn arwain at golli a darnio cynefinoedd);
- rhwystrau i symudiadau rhywogaethau;
- lladd ar y ffyrdd (er enghraifft moch daear, dyfrgwn a thylluanod gwynion);
- llygredd (aer, dŵr ac adnoddau tir);
- galluogi rhywogaethau estron neu ymledol i ledaenu;
- aflonyddwch sŵn; a
- goleuadau artiffisial.

Mae llawer o gynlluniau gweithredu bioamrywiaeth sy'n bodoli eisoes hefyd yn cyfeirio at 'ddatblygiadau adeiledig' fel bygythiad cyffredinol, a gellir cymryd yn ganiataol fod adeiladu ffyrdd a chynlluniau lledu ffyrdd wedi eu cynnwys yn hyn.

## Gweithredu'r rhwydwaith

- I bwrpas gweithredu, mae rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru wedi ei rannu'n wyth asiantaeth cefnffyrdd ar hyn o bryd.
- Partneriaethau nifer o adrannau priffyrdd a pheirianneg awdurdodau lleol yw'r asiantaethau yn bennaf, er bod un neu ddau awdurdod sengl ar gael.
- Mae gan bob asiantaeth reolwr cefnffyrdd, sy'n cael ei gefnogi gan uwch beirianyddion neu beirianyddion taith ac arolygwyr priffyrdd ardal.
- Mae'r Fenter Coedwigaeth yn gweithredu fel asiant dros yr ardaloedd tirwedd neu blanedig ar y priffyrdd dan arweiniad rheolwr busnes Gwasanaethau Tirwedd a Rheoli, gyda chefnogaeth pedwar rheolwr ardal arall.

Ym mis Gorffennaf 2003 cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth ymgynghoriad ar drefniadau diwygiedig ar gyfer trefnu a chaffael rheolaeth y rhwydwaith. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn hysbysu cymhwysiad y Cynllun Gweithredu hwn.

I gloi, mae gan y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth y potensial i wneud cyfraniad sylweddol tuag at dargedau bioamrywiaeth cenedlaethol a lleol, yn enwedig y rhai ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny sydd i'w canfod yn gyffredin ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru. Dangosodd canlyniadau'r dadansoddiad o'r archwiliad a wnaethpwyd ar y rhwydwaith y cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny sydd mewn mwyaf o berygl yn sgîl gweithrediad y rhwydwaith priffyrdd, a'r rhai allai elwa yn sgîl rheoli'r ystâd feddal yn briodol.

Dan rai amgylchiadau, gall rheoli cadwraeth fod yn ddrud, a bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel corff cyhoeddus, gydbwyso manteision bioamrywiaeth gyda'r gost ariannol, gofynion amgylcheddol eraill (megis y dirwedd a'r dreftadaeth ddiwydiannol) a diogelwch y ffyrdd. Serch hynny, er y gellir ystyried arferion blaengar megis ailgreu cynefinoedd ac ail-gyflwyno rhywogaethau ar nifer fechan o safleoedd, gallai newidiadau cymharol syml a chost-effeithiol i gynnal a chadw arferol, megis newid y trefniadau torri, arwain at fanteision sylweddol i fioamrywiaeth.



*Nos ar yr M4*

# 5 Canllawiau a chyngor presennol

**Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb cyffredinol dros gyfyngu ar effaith y rhwydwaith ffyrdd ar fioamrywiaeth a dylai sicrhau bod unrhyw gynigion yn cymryd sylw llawn o bresenoldeb posibl cynefinoedd a rhywogaethau cyfagos sydd o ddiddordeb i fioamrywiaeth ac unrhyw effaith posibl arnynt. Gwneir hyn fel arfer drwy gynnal asesiad ecolegol priodol o gynefinoedd neu rywogaethau yr effeithir arnynt gan gynigion gyda mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu yn sgîl yr asesiad.**

Ar hyn o bryd mae'r Gyfarwyddiaeth yn dibynnu ar ddwy brif ffynhonnell cyngor – Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB) a'r Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru (WTRMM). Mae cyngor pellach ar rywogaethau unigol a rheoli tirwedd yn cael ei baratoi.

- Ceir canllawiau ar ddefnyddio technegau Asesu Amgylcheddol yng Nghyfrol 11 y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (1992 ymlaen). Mae'r gyfrol hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.
- Amlinellir materion allweddol parthed Cadwraeth Natur yng Nghyfrol 10 y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (1992 ymlaen), a'i Nodiadau Cynghori ar Gadwraeth Natur cysylltiol. Mae'r prif faterion, sy'n berthnasol i'r holl weithrediadau ar y rhwydwaith, wedi eu hatgynhyrchu yn y blwch.
- Mae Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru (WTRMM)1999 yn cynnwys canllawiau ar reoli ymylon cefnffyrdd. Mae prif bwyntiau'r cyngor parthed bioamrywiaeth i'w gweld yn y blwch dros y dudalen.



*Llethr o Friallu Mair*

**Materion allweddol o Gyfrol 10 DMRB, Nodyn Cynghori Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth.**

- Mae prosesau naturiol sy'n effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau yn ddynamig ac yn cydberthyn â'i gilydd. Dylai pob cynnig cadwraeth natur adlewyrchu hyn.
- Dylai prosiectau rhwydwaith mewnol ffyrdd, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, gynnal ac amddiffyn cynefinoedd o'u cwmpas, yn cynnwys y systemau y maent yn dibynnu arnynt, e.e. hydroleg, pridd, daeareg.
- Mae'n hanfodol defnyddio gweithwyr proffesiynol gyda'r cymwysterau priodol lle mae angen gwneud gwaith cadwraeth natur; a rhaid cael cyngor gan arbenigwyr sydd â phrofiad addas, ymgynghorwyr statudol a chyrff cadwraethol eraill.
- Rhaid i brosiectau gymryd i ystyriaeth safleoedd bywyd gwyllt lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol a rhywogaethau a chynefinoedd wedi eu hamddiffyn/prin. Rhaid ystyried cynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd sy'n dod o dan ddeddfwriaeth y DU ac Ewrop yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth berthnasol a chanllawiau polisi er mwyn osgoi goblygiadau peidio â chydsynio.
- Rhaid ymgorffori materion cadwraeth natur o gamau cyntaf datblygu prosiectau fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.
- Dylid osgoi effeithiau negyddol (e.e. colli cynefinoedd, darnio tiriogaeth, llygredd) lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid lliniaru'r effeithiau. Dylid ystyried technegau fel trawsleoli/adleoli pan fetho popeth arall yn unig.
- Rhaid i brosiectau rhwydwaith mewnol ffyrdd ystyried yr ardal yr effeithir arni a'r amgylchedd i raddfa briodol parthed y rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd yno.
- Lle mae'n rhaid defnyddio mesurau cadwraeth natur penodol, dylid cytuno ar nodau ac amcanion priodol cyn dechrau dylunio, os oes angen, gyda'r sefydliad sy'n goruchwylio a'r ymgynghorwyr statudol.
- Wrth ddatblygu amserlen prosiect, mae'n hanfodol nodi'r cyfnod mwyaf priodol yn y flwyddyn i gynnal arolygon ac i wneud y gwaith.
- Dylai cynlluniau mesurau cadwraeth natur sicrhau eu bod yn gallu cynnal eu pwrpas drwy reolaeth barhaus briodol.
- Dylid achub ar bob cyfle i greu a gwella cynefinoedd.
- Rhaid i brosiectau gynnwys ystyriaeth ar gyfer rheolaeth ôl-adeiladu gyda'r broses ddylunio.
- Dylid cadw cofnodion o ddyluniad, cymhwysiad a rheolaeth mesurau penodol cadwraeth natur er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.
- Dylid penodi Cydlynydd Amgylcheddol i'r Safle/Clerc y Gwaith er mwyn goruchwylio dyluniad a gweithrediad gwaith cadwraeth natur lle bo hynny'n briodol.

**Materion yn ymwneud â bioamrywiaeth yn Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru (WTRMM).**

Mae'r WTRMM yn disgrifio cynnal ac archwilio arferol ar gyfer ardaloedd o wair, cloddiau a choed, sydd eu hangen er mwyn cadw'r briffordd yn ddiogel (megis torri tyfiant er mwyn sicrhau bod arwyddion yn weladwy, gwneud pob coeden allai syrthio ar y ffordd gerbydau yn ddiogel, a.y.y.b.). Mae hefyd yn cynnwys cyngor ar ddefnyddio plaladdwyr, a sut i ddelio gyda rhywogaethau o chwyn a phlâu niweidiol.

Dyma enghreifftiau o'r cyngor yn ymwneud â bioamrywiaeth y mae angen ei ystyried ochr yn ochr â chyngor arall yn y Llawlyfr:

**Ardaloedd gwair:**

- Prif bryder y Gyfarwyddiaeth yw diogelwch defnyddiwr y ffordd, ond fel perchennog a/neu ddeilydd tir y briffordd mae ganddi hefyd ymrwymiadau cyfreithiol a moesol i ddefnyddwyr y tir cyfagos ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Bydd rhai safleoedd sy'n ffinio neu sydd o fewn ffin y briffordd yn cael eu cynnal yn unol â chyngor rheoli gan CCGC. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardaloedd Cadwraeth, Ardaloedd wedi eu dynodi yn ardaloedd Creu Cynefinoedd neu Flodau Gwyllt; ardaloedd lle mae blodau gwyllt yn tyfu'n naturiol.
- Dylid cyfyngu torri, cyn belled â bod hynny'n bosibl, i unwaith bob tymor tyfu, bydd toriadau eraill yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Gyfarwyddiaeth, a rhoddir ystyriaeth iddynt dan yr amgylchiadau isod yn unig:
  - i) Gall ardaloedd trefol penodol gael eu dethol i'w torri hyd at bedair gwaith y flwyddyn. Dan amgylchiadau eithriadol, lle gellir dangos manteision gweladwy a gweithredol, gall rhai ardaloedd allweddol warantu eu torri yn amlach.
  - ii) Mewn ardaloedd o wair lle mae hau neu blannu blodau gwyllt wedi digwydd bydd angen torri gan symud popeth a dorrwyd oddi yno.
  - iii) Ardaloedd ymyl y ffordd eraill lle mae'r dywarchen sydd yno wedi datblygu diddordeb botanegol a/neu gadwraeth natur: gellir ystyried torri'r gwair yma os oes modd dangos fod hyn yn cynrychioli gwerth am arian mewn perthynas â manteision gweladwy a chadwraeth.

**Cloddiau a Choed** (ar wahân i'r rhai a blannwyd fel nodweddion tirwedd)

- Rhaid i unrhyw waith torri neu glirio er mwyn diogelu gwelededd ar gyffyrdd, troeon a mynedfeydd, a gwelededd arwyddion, gael ei wneud dim ond pan fo angen ei wneud ac ar adeg sy'n golygu cael yr effaith gorau posibl, ond dylid bod yn ofalus i osgoi gwneud niwed parhaol i'r clawdd neu i'r goeden.
- Caiff cloddiau a choed sy'n tyfu dros ffyrdd cerbydau eu torri gan ddarparu o leiaf 5.2m o ofod pen.
- Gyda chytundeb Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a chyrff achredig eraill, dylai cloddiau a choed o fewn SoDdGAau neu ardaloedd o ddiddordeb cadwraethol gael eu cynnal yn y dull y cytunwyd arno.
- Ni ddylid torri coed i lawr na thorri cloddiau yn ystor tymor nythu'r adar.

# 6 Datblygiad TREBAP

## Datblygiad y cynllun

Cafodd y Cynllun ei ddatblygu drwy'r gweithgareddau canlynol:

- Ymgynghoriad ar ei ymagwedd
- Archwilio gwybodaeth sy'n bodoli eisoes
- Partneriaeth
- Ymgynghoriad technegol

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr ymagwedd i'w defnyddio tuag at TREBAP rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2001.

Gwnaethpwyd archwiliad o'r holl Gynlluniau Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes ar fioamrywiaeth ar y rhwydwaith, rhwng Awst a Hydref 2002. Mae adroddiad ar grynodeb o'r canlyniadau yn yr adran ar Archwilio.

Mae partneriaeth TREBAP yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau cenedlaethol bywyd gwyllt, trafnidiaeth a chyhoeddus, fel a welir yn y blwch.

Cynhaliodd Partneriaeth TREBAP ei chyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2002 a'i hail gyfarfod ym mis Tachwedd 2002. Ym mis Mehefin 2003, cyfarfu i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad technegol.

Amcanion y Bartneriaeth oedd:

- sicrhau bod y TREBAP hwn yn cyfrannu mewn dull cost effeithiol tuag at amcan y Cynulliad o gadw a gwella, lle bo hynny'n bosibl, fioamrywiaeth, tra'n adlewyrchu Cynllun Datblygu a Chynllun Gweithredu Cynaliadwyedd y Cynulliad lle bo hynny'n berthnasol;
- sicrhau bod y TREBAP hwn yn adlewyrchu arfer gorau wrth gysylltu gyda thargedau perthnasol mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a rhai Lleol; a
- sicrhau bod y TREBAP hwn yn gosod targedau ymarferol a realistig er mwyn galluogi gwneud y mwyaf o gyfraniad y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth tuag at fioamrywiaeth ar ei rhwydwaith ffyrdd, o fewn cyfyngiadau gofynion gweithredol y rhwydwaith hwnnw.

**PARTNERIAETH TREBAP**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
**Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth**
Cadeirydd: John Rees, Prif Beiriannydd Priffyrdd
Cynrychiolydd Prosiectau Mawr: Simon Shouler
Cynrychiolydd Rheolaeth y Rhwydwaith: Peter Jones
Ymgynghorydd Amgylcheddol: Len Wyatt

Llywodraeth Cynulliad Cymru
**Adran Amaethyddol:** Alan Starkey
**Datblygiad Cynaliadwy:** Lisa Dobbins
**Adran Cefn Gwlad:** Steve Lucas (wedi ei secondio o CCGC)

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Matthew Ellis

**Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**
Chris Formaggia (tan fis Tachwedd 2002)
Nick Bialynicki-Birula (o fis Mawrth 2003)

**Partneriaeth Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt**
Dyfrig Jones

**Sefydliad RAC**
Bill Billington

**Cyfeillion y Ddaear**
Neil Crumpton

**RSPB**
Tony Prater*

**Cymdeithas y Tirfeddianwyr**
Julian Salmon*

**Grŵp Strategeth Trafnidiaeth Cymru**
Stuart Watkins

**Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru**
Kris Roberts (CBS Torfaen)

**Cresswell Associates**
Stephanie Wray (Cefnogaeth Ymgynghorol)
Paola Reason (Cefnogaeth Ymgynghorol)

*drwy gyfrwng gohebiaeth yn unig



*Yr A470 yn Nyffryn Gwy*

## Yr Ymgynghoriad Technegol

Cynhaliwyd ymgynghoriad technegol drwy gysylltu â nifer o bartïon, rhai allanol a rhai o fewn Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad. Cysylltwyd â'r ymgyngoreion drwy lythyr oedd yn nodi nifer o ffyrdd i gael mynediad at ddrafft y TREBAP. Yn bennaf, roedd cyfeiriad gwefan yno lle gellid cael mynediad yn uniongyrchol i'r ddogfen fel ffeil Adobe Acrobat neu HTML. Cynigiwyd copïau electronig drwy e-bost neu ar ddisg hefyd, ac roedd copïau caled ar gael drwy'r post.

Yn ogystal, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg, a gosodwyd erthyglau yn y *Biodiversity News* sydd â chylchrediad drwy'r DU ac yng nghylchlythyr Grŵp Ymgynghorol Materion Lleol Cymru.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2003, a rhoddwyd deuddeg wythnos i'r ymgyngoreion ymateb. Cafwyd ymateb gan ddau ddeg chwech ohonynt.

Roedd yr ymatebion i gyd yn gefnogol i'r TREBAP ar y cyfan, gyda nifer yn croesawu'r fenter ac yn gobeithio y byddai'n dangos esiampl a chyfarwyddyd arfer gorau i weithredwyr priffyrdd eraill.

Mae llawer o'r sylwadau wedi eu cynnwys yn y cynllun terfynol, ond cafwyd nifer o awgrymiadau oedd yn gwrthdaro â'i gilydd, yn enwedig parthed y defnydd o Gynlluniau Gweithredu Generig, cynnwys mwy o gynlluniau gweithredu ar rywogaethau adar, a maint y ddogfen ei hun.

Roedd un o'r pryderon a fynegwyd yn ymwneud â'r angen i gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer rhywogaethau ymledol ac estron, gan fod y pryder am effeithiau negyddol y rhywogaethau hyn ar fywyd gwyllt yn cynyddu. Penderfynwyd peidio â chynnwys cynllun ar wahân, ond i gryfhau'r mater mewn cynlluniau presennol, ac i gynnwys cyfeiriad at ganllaw Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru (WTRMM) yn y rhan gyntaf.

## Canlyniadau'r Archwiliad

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun hwn, cynhaliwyd adolygiad o'r wybodaeth ganlynol rhwng Awst a Hydref 2002.

### Safleoedd wedi eu dynodi

Nodwyd bod nifer fawr o safleoedd wedi eu gwarchod o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o fewn 100m o'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Mae hyd rhyngwyneb y safleoedd hyn gyda'r rhwydwaith o gwmpas 4% o hyd y rhwydwaith cyfan. Mae'r safleoedd yn amrywio o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac Ardaloedd Amddiffyn Arbennig (AAAau) sy'n bwysig yn rhyngwladol i Warchodfeydd Natur Lleol.

### Adolygiad o LBAPau

Adolygwyd dau ddeg tri LBAP, yn trafod y rhan helaethaf o Gymru. Ni chanfuwyd unrhyw gyfeiriadau penodol at Lywodraeth Cynulliad Cymru na'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn y LBAPau gafodd eu hadolygu, ond roedd nifer o gyfeiriadau at ffyrdd ac at effaith ffyrdd. Daw sôn am ffyrdd amlaf yn y LBAPau yn adran y Cynlluniau Gweithredu dan y teitl 'Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar ddirywiad neu golled'. Roedd y ffactorau a nodwyd yma mewn cysylltiad â ffyrdd yn cynnwys colli a darnio cynefinoedd, rheoli nodweddion ffiniau yn amhriodol, llygredd a lladd ar y ffyrdd. Amlygwyd yr angen am gynnal asesiadau amgylcheddol priodol ac i ddarparu mesurau lliniaru digonol, yn ogystal â materion yn ymwneud â rheoli cynefinoedd.



*Bwrned Mawr ar yr A470*

Roedd nifer o'r LBAPau yn cynnwys Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd yn benodol ar gyfer cynefinoedd ymylon ffordd (Ynys Môn; Caerffili; Caerfyrddin; Ceredigion; Conwy; Sir Benfro; Powys; Rhondda Cynon Taf; ac Eryri).

## Archwiliad o'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd

Mae gwybodaeth am y rhwydwaith yn gyfyng ar hyn o bryd, er bod arolygon ymylon ffordd yn cael eu cynnal. Serch hynny, er bod yr wybodaeth am y rhwydwaith yn amlwg yn anghyflawn, mae'n bwysig tanlinellu nad yw diffyg gwybodaeth o anghenraid yn adlewyrchu diffyg diddordeb bioamrywiol, a gall fod nifer o rywogaethau a chynefinoedd BAP sy'n digwydd yn yr ystâd feddal ond sydd heb eu cofnodi mewn arolygon hyd yn hyn. Dylid pwysleisio felly nad yw'r camau a gynigir yn y Cynlluniau Gweithredu wedi cael eu lliwio gan yr wybodaeth ar y rhwydwaith a gasglwyd hyd yma gan y cydnabyddir bod yr wybodaeth yn anghyflawn.

## Canlyniadau ymgynghoriadau

Cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau anffurfiol gyda phartïon oedd â diddordeb er mwyn nodi materion penodol, ac i gasglu gwybodaeth nad oedd wedi ei chyhoeddi cyn hyn parthed bioamrywiaeth ar y rhwydwaith.

## Dethol rhywogaethau a chynefinoedd

Cafodd y gwaith o ddethol cynefinoedd a rhywogaethau i'w cynnwys o fewn y TREBAP ei ddylanwadu gan ganlyniadau'r archwiliad o'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd, a statws unrhyw gynefin neu rywogaeth a ganfuwyd yno; gan adolygiad yr UKBAP a phob LBAP oedd ar gael yng Nghymru; a gan statws ddeddfwriaethol y rhywogaethau a'r cynefinoedd dan sylw.

Barnwyd mai'r meini prawf terfynol ar gyfer cynnwys rhywbeth yn y TREBAP oedd un neu ragor o'r canlynol:

- Rhywogaethau neu gynefinoedd sydd eisoes yn bresennol ar yr ystâd gefnffyrdd – neu y gwyddys fod ganddynt y potensial i gael eu hailgyflwyno – ac y gallai camau a wneir drwy'r TREBAP wneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt.
- Cynefinoedd/ rhywogaethau Blaenoriaeth yn yr UKBAP a/neu rhywogaethau sydd wedi eu cynnwys ar y Rhestr 'Adran 74'.
- Cynefinoedd/ rhywogaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr UKBAP, BAPau Lleol neu Arbenigol gyda chais am weithredu gan y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth neu'r awdurdodau priffyrdd (lle nad oedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi ei enwi fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol).
- Rhywogaethau neu gynefinoedd wedi eu hamddiffyn gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a/neu ddeddfwriaeth y DU.
- Rhywogaethau neu gynefinoedd o werth cadwraeth natur sy'n ddeniadol i'r cyhoedd oherwydd eu natur synhwyraidd (e.e. yn ddeniadol yn weledol i ddefnyddwyr ffyrdd).

Mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau gafodd eu dethol i'w cynnwys yng ngham cyntaf y TREBAP i'w gweld yn y blwch ar y dudalen nesaf.

Nid yw rhywogaethau yr effeithir arnynt gan y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd, ond nad ydynt yn rhywogaethau o bryder bioamrywiol ynddynt eu hunain, ac sy'n cael eu trafod yn helaeth mewn cyngor sy'n bodoli eisoes, wedi cael eu dethol i'w cynnwys yn y TREBAP ar hyn o bryd. Mae hyn yn neilltuol wir am foch daear, sydd wedi eu trafod mewn Nodyn Cynghori yng Nghyfrol 10 y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd ac i rywogaethau ymledol ac estron sy'n cael eu trafod yn Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru (WTRMM).

Bydd materion sy'n ymwneud â cheirw yn cael eu hystyried yng ngoleuni canlyniadau ymchwil y DU ar arwyddocâd damweiniau ffordd ar geirw.

**CYNLLUNIAU GWEITHREDU SYDD WEDI CAEL EU PARATOI**

**Cynlluniau Gweithredu Generig**

Arolwg Ecolego
Addysg ac Ymwybyddiaeth

**Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd**

- Nodweddion ffiniau
- Glaswelltir calchaidd
- Cynefinoedd arfordirol a morydol
- Rhostiroedd
- Glaswelltir asid sych yr iseldir
- Dolydd yr iseldir
- Glaswellt y waun porffor a thir pori brwyn
- Afonydd a nentydd
- Wynebau craig a sgri
- Ardaloedd dyfrol
- Coetiroedd a choed a phrysgwydd brodorol planedig

**Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau**

Anifeiliaid

- Amffibiaid
- Rhywogaethau dyfrol*
- Y dylluan wen
- Ystlumod
- Pathew
- Glöyn byw Brith y Gors
- Dyfrgi
- Ymlusgiaid
- Llygoden bengron y dŵr
- Gwyfyn cliradain Gymreig

**ac eithrio dyfrgwn a llygod pengrwn y dŵr*

Planhigion

- Clychau'r gog
- Penigan y porfeydd
- Briwlys y calchfaen
- Aethnen ddu frodorol
- Tegeirianau
- Pysen y coed
- Clychlys Ymledol

# 7 Gweithrediad

**Mae ystod eang o bolisïau, cyfarwyddyd a gwybodaeth, fydd yn dylanwadu ar y modd y bydd y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn gweithredu'r Cynllun hwn, yn cael eu cyfeirnodi yn yr adran hon o'r TREBAP. Disgrifir y cysylltiadau rhwng y gwahanol ffynonellau yn y diagram dros y dudalen.**

Gweithredir y TREBAP drwy gyfrwng tri phrif fecanwaith:

- cynlluniau ffyrdd newydd
- gweithgaredd cynnal presennol
- arolygon a gwaith yn benodol gysylltiedig â bioamrywiaeth

Mae Swyddog wedi ei enwebu o fewn y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ei hun, i gydlynu a symud y TREBAP ymlaen. Ar ben hyn, er mwyn sicrhau fod y gweithredoedd yn cael eu gwireddu, bydd Cydlynwyr Amgylcheddol a Chlercod Gwaith Ecolegol ar gyfer cynlluniau ffyrdd newydd yn cael eu penodi gyda dyletswydd i symud y cynllun ymlaen ac adrodd ar ei weithrediad. Bydd Gweithredwyr Cefnffyrdd yn penodi swyddog gyda chyfrifoldebau tebyg ar gyfer gweithgareddau cynnal.

Yn dilyn cyhoeddi'r TREBAP, bydd pob Gweithredwr Cefnffyrdd yn nodi'r camau y bydd yn ei gymryd yn y cynllun bob blwyddyn, a bydd cyngor yn cael ei roi i'r rhai sy'n gweithio ar gynlluniau ffordd newydd yn galw am ystyried a gweithredu targedau perthnasol TREBAP yn y cynlluniau.


Bydd y canlynol yn hanfodol i gyflwyniad TREBAP: y camau sydd i'w cymryd fel rhan o'r Cynlluniau Gweithredu Generig ar gyfer Arolwg Ecolegol, ac Addysg ac Ymwybyddiaeth; a'r angen i'r Gyfarwyddiaeth barhau i weithio mewn partneriaeth gydag eraill.

### Monitro ac adrodd

Bydd y trefniadau monitro ac adrodd yn digwydd fel a ganlyn:

- bydd y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn cofnodi'r gweithgaredd a wnaethpwyd yn flynyddol
- adroddir bob dwy flynedd ar gynnydd y targedau i'r Bartneriaeth, ac i eraill yn ôl y gofyn
- cwblhau cofnodion System Adrodd Gweithgaredd Bioamrywiaeth (BARS), nes ceir cadarnhad o ofynion y system a'i gydweddoldeb â gwaith y Gyfarwyddiaeth.

Os hoffech dderbyn copïau o'r adroddiadau dwyflynyddol hyn, cysylltwch â'r person a enwir ar ddechrau'r ddogfen hon.


Polisi'r DU
Gwell ansawdd bywyd: Strategaeth ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy yn y DU
Papur Gwyn Cludiant Integredig
Polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dysgu byw'n wahanol – y cynllun Datblygiad Cynaliadwy
Cludo Cymru i'r Dyfodol/ Gyrru Cymru ymlaen /
Y Fframwaith Cludiant / Rhaglen Cefnffyrdd Ymlaen
CANLLAWIAU
CYFLWYNO
Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru
Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd
Llawlyfr Dogfennau Cytundeb ar gyfer Gwaith Priffyrdd
Deddfwriaeth a Chanllawiau eraill (ee: dyletswydd A74)
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Gefnffyrdd
Gwybodaeth Ecolegol sy'n bodoli eisoes am y Rhwydwaith
UK BAP Gweithredu dros Fywyd Gwyllt 24 LBAPau
Cynnal a Rheoli'r Rhwydwaith
Dylunio a Datblygu Cynlluniau
Arolygon Ecologol a Monitro



*Golwg o'r awyr o'r A494/A55*

**Adolygu'r Cynllun**

Bydd y Bartneriaeth yn adolygu'r TREBAP bob pum mlynedd; cynhelir yr adolygiad pum mlynedd cyntaf yn 2009. Bryd hynny bydd y Cynlluniau Gweithredu presennol yn cael eu hadolygu a rhoddir ystyriaeth i gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd newydd.

Bydd y rhywogaethau a'r cynefinoedd all gael eu hystyried i'w cynnwys o fewn y TREBAP adeg yr adolygiad pum mlynedd yn cynnwys:

- Y rhai sy'n ymddangos yn gyffredin o fewn LBAPau yng Nghymru, yn cynnwys y LBAPau sydd wedi cael eu hadolygu, eu newid neu eu cyhoeddi ers lansio'r TREBAP.
- Y rhai sy'n cael eu hystyried yn bwysig mewn cyd-destun Cymreig: fel y'i diffinir mewn Rhestr Adran 74 ddiwygiedig neu BAP y DU.
- Y rhai sy'n cael eu canfod ar y rhwydwaith neu'n gyfagos o ganlyniad i waith arolygu pellach.

Enghreifftiau o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd allai gael eu hystyried:

- Sgwarnogod Brown
- Creulys Cymreig
- Cudyll coch
- Is blanhigion (e.e. cennau, mwsoglau, llysiau'r afu a ffwng): yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â choetiroedd, a gyda chynefinoedd craig a sgri
- Prysgwydd
- Glöyn byw brithribin brown
- Chwyn Âr
- Gwyfyn wensgot ddwylinell
- Gwyfyn brith carped rhwydog
- Gwyfyn brith carped tonnog
- Cacwn (Bombus)

# 8 Cysylltiadau Gyda Sefydliadau Eraill

**Bydd gweithredu'r camau yn y Cynllun hwn yn gyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn bennaf, yn enwedig o fewn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd lle mae gofynion iechyd a diogelwch yn cyfyngu ar fynediad heb oruchwyliaeth.**

Serch hynny, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod y byddai cymhwysiad y TREBAP yn llai effeithiol heb gymorth y rhai sydd â gwybodaeth arbenigol ar faterion bywyd gwyllt a heb gefnogaeth y cyhoedd. Felly, er nad yw'r partneriaid ar gyfer cynlluniau gweithredu wedi eu nodi ym mhob cynllun, mae'r Gyfarwyddiaeth yn croesawu cyfranogiad parhaus sefydliadau ac unigolion eraill yn y gwaith hwn.

Os oes gennych chi neu'ch sefydliad unrhyw wybodaeth neu fentrau y credwch all fod o gymorth i waith y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, ysgrifennwch at y person cyswllt a nodwyd ar dudalen 2 y ddogfen hon.

Trwy gydol y ddogfen cyfeirir at sefydliadau a mentrau eraill. Lle mae hynny'n bosibl, mae manylion pellach wedi eu darparu naill ai yn y Rhestr Termau ar y ddogfen bapur, neu drwy gysylltiadau gwe at wefan y sefydliad/y fenter.



*Ail Bont Hafren*

# 9 Y Cynlluniau

## Cynlluniau Gweithredu Generig
## Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd
## Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau

**Mae pob Cynllun Gweithredu yn cynnwys yr adrannau canlynol**

**Cefndir cyffredinol y rhywogaeth neu'r cynefin** lle ceir disgrifiad byr a'r ecoleg cyffredinol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gweithredu.

**Statws cyfredol** y rhywogaeth neu'r cynefin yn y DU a/neu yng Nghymru, ac yna'n benodol ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Mae dynodiadau deddfwriaethol perthnasol ar amddiffyn neu gadw wedi eu cynnwys. Mae map syml wedi ei ddarparu o ddosbarthiad y cynefinoedd neu'r rhywogaethau yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf.

**Ffactorau cyfredol** sy'n effeithio ar y rhywogaeth neu'r cynefin gan gynnwys yr holl brif ffactorau sy'n effeithio ar ddirywiad y rhywogaeth neu'r cynefin, heb fod wedi eu cyfyngu gan y ffactorau sy'n cael eu achosi y gellid dylanwad arnynt gan weithredu'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd.

**Camau cyfredol**, yn cynnwys cyngor, cyfarwyddyd, mentrau neu ymchwil sydd eisoes wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd, mewn perthynas â rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd y DU ac yng Nghymru yn gyffredinol.

**Cynllunio amcanion a thargedau** sy'n crynhoi nodau ac amcanion cyffredinol y cynllun.

**Camau bwriedig** i gwrdd ag amcanion penodol. Mae'r rhain wedi eu rhannu'n bum math:

- **Polisi, cyfarwyddyd a chyngor:** lle mae angen darparu polisi/cyfarwyddyd neu gyngor
- **Arolygu:** lle mae angen diffinio graddau'r cynefin/rhywogaeth ar y rhwydwaith yn well
- **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd:** lle mae camau penodol angen eu gwneud neu eu hystyried ar bob cam – yn cynnwys mesurau diogelu a lliniaru
- **Ymchwil a monitro yn y dyfodol:** lle mae angen gwneud ymchwil, neu ddysgu yn sgîl ymchwil arall, i ganiatáu gwell dealltwriaeth o'r cynefin a'r rhywogaeth yng nghyd-destun ffyrdd
- **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd:** lle mae angen am gamau penodol wedi eu dylunio i godi ymwybyddiaeth.

Mae **Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill** yn dynodi cysylltiadau gyda'r UKBAP a gyda chynlluniau eraill o fewn y TREBAP. Rhestrir y Cynlluniau Gweithredu a ddefnyddiwyd i ffurfio'r TREBAP hefyd. Mae'r cysylltiadau gyda chynlluniau TREBAP eraill yn bwysig gan y gallai newidiadau o ganlyniad i weithredoedd un cynllun arwain at newidiadau mewn cynefinoedd a rhywogaethau mewn cynllun arall.

**Sefydliadau blaen neu bartneriaid**, ceir rhestr o'r Partneriaid Blaen ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau UKBAP. Gan mai cyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth fydd gweithredu'r rhan fwyaf o'r camau, nid oes partneriaid penodol wedi eu nodi yn y cynllun.



*Arolygu'r rhwydwaith*

# Arolwg Ecolegol

**Rhesymwaith**

Mae gwybodaeth ar fioamrywiaeth o fewn y rhwydwaith yn gyfyng ar hyn o bryd, er bod arolygon ymylon ffordd wrthi'n cael eu cynnal. Serch hynny, mae'n amlwg nad yw diffyg gwybodaeth o anghenraid yn arwydd o ddiffyg diddordeb bioamrywiol, a gall fod nifer o rywogaethau a chynefinoedd gwerthfawr sy'n digwydd yn yr ystâd feddal nad ydynt wedi eu cofnodi hyd yma.

Mae'n amlwg y byddai rhai rhywogaethau neu gynefinoedd yn elwa yn sgîl arolygon wedi eu targedu mewn ardaloedd daearyddol cymharol gyfyng. Mae arolygon o'r fath wedi eu cynnig fel camau gweithredu penodol o fewn y Cynlluniau Gweithredu perthnasol; mewn rhai ardaloedd, gallai'r arolygon rhwydwaith isod fod yn gorgyffwrdd â'r rhain.

Fel arfer, cynhelir arolygon:

- ar gyfer cynlluniau ffyrdd newydd;
- cyn dechrau ar rai gweithgareddau cynnal a chadw;

Mae'n hanfodol bod arolygon yn cael eu cynnal gan arbenigwyr ar yr adeg priodol o'r flwyddyn, ac yn ddelfrydol dros gyfnod digon hir o amser gan roi sylw addas i'r ardal gyfagos.

**Gweithredu ar hyn o bryd**

- Mae arolygon ymylon ffordd wedi eu cwlbhau ar yr A470/A44 ym Mhowys.
- Mae arolygon parthed cynlluniau a gweithfeydd penodol yn parhau.
- Anfonir gwybodaeth i Ganolfannau Cofnodi Lleol yn anffurfiol yn ôl y galw.
- Mae nifer o fentrau penodol hefyd wedi eu cynnal, er enghraifft, prosiect ymylon ffordd Cyngor Sir Powys / Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog "Priffyrdd Byw" sy'n nodi ac yn rheoli ymylon ffyrdd sy'n werthfawr i fywyd gwyllt.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau y cynllun hwn yw symud arolygon ar y rhwydwaith ymlaen a gwella gwybodaeth bresennol ar yr adnodd bioamrywiaeth ar y rhwydwaith.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Arolygu** | |
| Cynnal dau arolwg taith o 50 cilomedr yr un bob blwyddyn. | 1000 cilomedr erbyn 2014 |
| Sicrhau bod canlyniadau sy'n ymwneud â rhywogaethau a chynefinoedd presennol neu botensial TREBAP yn cael eu hanfon at y rheolwr cefnffyrdd yn yr ardal(oedd) rhwydwaith perthnasol. | Cyfredol |
| Nodi ymylon glaswelltir pwysig, fel y'i diffinir yn yr WTRMM, fel y gellir defnyddio'r rheolaeth berthnasol sydd ei angen arnynt. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Sicrhau bod cofnodion TREBAP a chynefinoedd/rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod mewn ymylon ffordd (e.e. ardal o laswelltir calchaidd rhywogaeth-gyfoethog) neu adeiladwaith (e.e. clwyd ystlumod o fewn pont benodol) yn cael eu hystyried ar bob cam o gynlluniau newydd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Sicrhau bod arolygon ar gyfer cynlluniau ffordd newydd yn cydymffurfio ag arfer gorau datblygu a chyngor DMRB. | Cyfredol |
| Sicrhau bod arolygon arferol a threfniadau cynnal unwaith ac am byth yn cydymffurfio â chyngor y DMRB a WTRMM. | Cyfredol |
| Sicrhau bod cofnodion diddordeb bioamrywiaeth (e.e. TREBAP a chynefinoedd/rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod) ar ymylon ffordd (e.g. ardal o laswelltir calchaidd rhywogaeth-gyfoethog) neu adeiladwaith (e.e. clwyd ystlumod o fewn pont benodol) yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar gynnal a chadw'r ymyl ffordd neu'r adeiladwaith hwnnw. | Cyfredol |

### Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd

| | |
|---|---|
| Mewn ardaloedd lle mae LBAPau yn cynnwys Cynllun Gweithredu Ymyl Ffordd, cysylltu ag awduron y BAP a'r partneriaid blaen er mwyn sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o weithredu ar hyn o bryd all gyflenwi, neu gael ei gyflenwi gan, weithredu sy'n cael ei wneud gan Reolwyr Cefnffyrdd. Cymryd camau i ddileu neu ddiwygio unrhyw weithredu sy'n gwrthdaro â thargedau bwriedig LBAP lle bynnag y mae hynny'n bosibl. | Cyfredol |
| Coladu canlyniadau arolygon yn ymwneud â rhywogaethau a chynefinoedd UKBAP y gwelir eu bod ar y rhwydwaith, ond nad ydynt yn destun Cynlluniau Gweithredu TREBAP, i'w hystyried adeg yr arolwg pum mlynedd. | 2009 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Bydd canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Generig hwn yn bwydo pob un o'r Cynlluniau Gweithredu presennol lle mae hynny'n briodol. Mae Cynlluniau Gweithredu Ymyl Ffordd LBAP wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer Ynys Môn, Caerffili, Caerfyrddin, Conwy, Sir Benfro, Powys, a Rhondda Cynon Taf.

### Sefydliad blaen neu bartner

Y Partner Blaen ar gyfer y Cynllun Gweithredu hwn fydd Partneriaeth TREBAP ei hun.



*Gwybodaeth am y rhwydwaith ar gyfrifiadur*

# Addysg ac Ymwybyddiaeth

### Rhesymwaith

Un o'r ffactorau pwysicaf wrth bennu llwyddiant y TREBAP fydd i ba raddau y caiff ei weithredu a'i dargedau bwriedig eu cyfathrebu i Staff y Gyfarwyddiaeth, Asiantau Cefnffyrdd, y rhai sy'n gweithio i'r Gyfarwyddiaeth a'r cyhoedd.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae tudalen gwe ar fioamrywiaeth wedi ei chynnwys ar wefan Grŵp Twnel Conwy.
- Mae cyngor ar ddylunio ac asesu bioamrywiaeth wedi ei gynnwys yn y *Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, Cyfrolau 10 (Dylunio a Chynnal Amgylcheddol)* ac 11 *(Asesu Amgylcheddol)*.
- Mae cyngor ar reoli ymylon ffyrdd ar gyfer bioamrywiaeth wedi ei gynnwys yn Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru (WTRMM).
- Mae gwaith 'Grŵp Llywio Ffyrdd a Dyfrgwn – Cymru' yn darparu ffocws ar gyfer cydlynu gwybodaeth ar ddyfrgwn sy'n cael eu niweidio ar y ffyrdd, ac mae'n dosbarthu gwybodaeth i'r cyrff priffyrdd ac ecolegol perthnasol er mwyn iddynt allu darparu mesurau lliniaru priodol yn y mannau peryglus.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth wedi rhoi cefnogaeth i gynnal dau seminar yn 2002/2003 ar gyfer peirianyddion ac ecolegwyr ar fesurau lliniaru bywyd gwyllt ar gyfer ffyrdd.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn darparu hyfforddiant mewnol parhaus ar gyfer staff ac Asiantau Cefnffyrdd ar faterion megis bioamrywiaeth.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r cynllun hwn yw cefnogi gweithrediad Cynlluniau Gweithredu TREBAP; a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth mewn perthynas â'r rhwydwaith.

# Cynlluniau Gweithredu Generig

**Gweithredu bwriedig**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Cymryd rhan weithredol yn natblygiad cyngor DMRB gydag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol eraill y DU. | Cyfredol |
| Adolygu cyngor WTRMM er mwyn sicrhau bod staff a Rheolwyr Cefnffyrdd yn ymwybodol o gyfyngiadau parthed tymor magu adar ac effeithiau gweithgaredd rheoli (yn cynnwys, er enghraifft, effeithiau potensial gwasgaru graean ar laswelltiroedd gwerthfawr; llygredd yn sgîl gollyngiadau tanwydd; peidio â symud toriadau o laswelltir; defnyddio plaladdwyr; a.y.y.b.). | 2004/2007 |
| Adolygu, a diweddaru os oes angen, cyngor cyfredol WTRMM ar arferion rheoli parthed chwyn ymledol a rhywogaethau estron ar ymylon ffyrdd. | 2007 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Sicrhau bod y rhai sy'n rhan o'r gweithrediadau hyn yn gyfarwydd â'r cyngor perthnasol yn DMRB ac WTRMM. | 2004/2008 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Trefnu seminarau hyfforddi ar gyfer Rheolwyr Cefnffyrdd er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau dros weithredu camau dan y TREBAP a'r gofynion am adrodd a chadw cofnodion. | 2004 |
| Cysylltu gyda phartïon sydd â diddordeb er mwyn sicrhau bod ymylon ffordd sy'n destun unrhyw fath o ddynodiad yn hysbys i'r Rheolwyr Cefnffyrdd | 2005 |
| Cysylltu gyda CCGC ac ALlau i sicrhau bod pob tir arall o fewn yr ystâd feddal sy'n destun dynodiad bywyd gwyllt statudol neu an-statudol, neu sy'n cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Rheoli sy'n bodoli eisoes, yn hysbys i'r Rheolwyr Cefnffyrdd. | 2005 |
| Cynhyrchu gwybodaeth gyhoeddusrwydd parthed y TREBAP. | Lansio |
| Cynhyrchu gwybodaeth i'r cyhoedd ar werth ymylon priffyrdd a'r rhesymwaith dros dechnegau rheoli. | 2006 |
| Adolygu'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i hadrodd mewn perthynas â systemau data sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar faterion bioamrywiaeth ar gael i Asiantau Cefnffyrdd a chontractwyr. | 2007/2009 |

**Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill**


Bwriada'r Cynllun Gweithredu Generig hwn gefnogi Cynlluniau Gweithredu TREBAP.

**Sefydliad blaen neu bartner**

Y Partner Blaen ar gyfer y Cynllun Gweithredu hwn fydd Partneriaeth TREBAP ei hun.



*Clawdd, wal garreg sych*



# Nodweddion Ffiniol

**Yn ddiamau, nodweddion ffiniol yw'r nodweddion mwyaf cyffredin ar y rhwydwaith cefnffyrdd.**

Mae'r gwahanol nodweddion sy'n ffurfio'r grŵp hwn yn cynnwys gwrychoedd, coedliniau, waliau a ffosydd. O ddiddordeb neilltuol mewn cyd-destun Cymreig mae'r cloddiau pridd wyneb carreg. Gall y nodweddion hyn feddu ar nodweddion diddorol o safbwynt y tirlun a threftadaeth ddiwylliannol yn ogystal â'u gwerth bioamrywiol.

Mae gwerth y nodweddion hyn o safbwynt cadwraeth yn gyfnewidiol, ond gall y cynefinoedd hyn fod yn amrywiol iawn gan gynnwys nifer o rywogaethau prin ac wedi'u diogelu. Serch hynny, efallai mai gwerth mwyaf nodweddion ffiniol yw eu defnydd potensial gan rai rhywogaethau fel coridorau bywyd gwyllt, yn enwedig o fewn tirwedd ddarniog a rhywogaeth-dlawd.
Gall cynefinoedd sydd wedi cael eu torri i ffwrdd gan linell ffordd newydd gael eu cysylltu ag eraill drwy ddefnyddio nodweddion ffiniol a phlannu ar fin y ffordd er mwyn cynnal eu gwerth i fywyd gwyllt.

Efallai mai gwrychoedd yw'r nodwedd ffiniol mwyaf amrywiol o ran strwythur. Gallant gynnwys nifer fawr o rywogaethau coediog a llysieuol sy'n cynnal casgliad amrywiol o anifeiliaid di-asgwrn-cefn, ymlusgiaid, adar a mamaliaid.
Gall waliau, yn enwedig waliau cerrig sych, gynnig swbstrad rhagorol ar gyfer amrywiaeth eang o gennau cyffredin a phrin, bryoffytau a phlanhigion uwch. Gallant hefyd fod yn gynefin delfrydol ar gyfer casgliad eang o anifeiliaid di-asgwrn-cefn, amffibiaid ac ymlusgiaid. Gall manylion dylunio ac adeiladu fod yn eithriadol bwysig mewn rhai ardaloedd.

Efallai mai ffosydd yw'r nodwedd ffiniol mwyaf cyffredin gan eu bod yn aml yn bresennol ochr yn ochr â nodweddion ffiniol eraill. Gall ffosydd fod yn wlyb ac yn sych, ac o'r herwydd gallant fod yn gartref i amrywiaeth helaeth o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Gan fod nodweddion ffiniol bron yn hollbresennol ledled y rhwydwaith cefnffyrdd, gallant fod yn adnodd ecolegol eithriadol bwysig. Mae gwrychoedd, yn enwedig, yn bwysig a gellir eu dynodi yn unigol naill ai ar lefel sir neu ar lefel lleol. Rhoddir amddiffyniad cyfreithiol i rai gwrychoedd a'r bywyd gwyllt sy'n cael ei gynnal ganddynt.

Daeth colli gwrychoedd yn arwyddocaol o tua chanol yr ugeinfed ganrif. Dwysâd amaethyddol sy'n bennaf gyfrifol, ond mae pwysau o du datblygu (yn cynnwys adeiladu ffyrdd) hefyd yn arwyddocaol. Ym 1993, amcangyfrifiwyd fod 450,000 cilomedr o wrychoedd ar ôl yn y DU, gyda Chymru yn cynnal tua 49,000 cilomedr ym 1994. Rhwng 1984 a 1990, amcangyfrifiwyd bod colled net hyd gwrychoedd yng Nghymru yn 25%. Oherwydd yr amddiffyniad deddfwriaethol sydd yn ei le erbyn hyn, mae nifer cynyddol o wrychoedd dan reolaeth gadwraethol ffafriol.

# Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd



*Gwrychoedd hynafol a rhywogaeth-gyfoethog*

Mae'r lleihad mewn waliau, yn enwedig waliau cerrig sych, wedi digwydd yn bennaf oherwydd eu bod wedi mynd yn adfeilion, a'r gost wedyn i'w hadfer. Amcangyfrifir bod cymaint â hanner yr holl waliau cerrig sych yn y DU yn adfeilion. Mae adeiladu'r waliau hyn hefyd yn cymryd llawer o amser ac o adnoddau, ac yn aml defnyddir ffensys yn eu lle. Yn ddiweddar, amcangyfrifiwyd fod 40,000 cilomedr o waliau cerrig sych wedi eu colli yng Nghymru a Lloegr yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.

*Mae nodweddion ffiniol wedi eu cynnwys yn yr offerynnau statudol a'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth canlynol:*

- Rheoliadau Gwrychoedd 1992 a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, a.y.y.b.) 1994. Noder: er bod y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn rhydd o'r Rheoliadau Gwrychoedd 1997, y polisi yw y dylai gwrychoedd pwysig gael eu trin yn ysbryd y Rheoliadau.
- Mae nodweddion llinellol wedi eu cynnwys yn Erthygl 10 Cyfarwyddiaeth 'Cynefinoedd' 1992 CE, gyda golwg ar wella cydlyniad ecolegol rhwydwaith Natura 2000.
- Mae gwrychoedd hynafol a/neu rywogaeth-gyfoethog wedi eu cynnwys yn rhestr y cynefinoedd o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Mae Nodweddion ffiniol yn Gynefin Eang UKBAP.
- Mae gwrychoedd hynafol a/neu rywogaeth-gyfoethog yn Gynefin Blaenoriaeth UKBAP.

## Statws ar y rhwydwaith

Mae nodweddion ffiniol yn gyffredin ledled y rhwydwaith. Serch hynny, mae rheoli'r nodweddion hyn yn aml yn cael ei gymhlethu gan faterion perchnogaeth. Er bod gwrychoedd ffiniau traffyrdd yn dod dan reolaeth y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, mae mwyafrif y gwrychoedd a'r waliau cerrig sych ar hyd cefnffyrdd yn eiddo i berchnogion y tir cyffiniol.

## Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

### *Colli cynefinoedd a dirywiad*

Er y gellir creu nodweddion ffiniol newydd fel rhan o ddatblygiadau ffyrdd, mae lledaenu ac adlinellu ffyrdd wedi arwain at golli llawer o'r nodweddion ffiniol traddodiadol. Mae cloddiau, er enghraifft, yn aml wedi cael eu disodli gan nodweddion sy'n cydbwyso diogelwch a materion tirwedd. Cysylltir gwerth ecolegol nodweddion ffiniol â'u hoedran, eu parhad a'u sefydlogrwydd gan amlaf, felly gall amharu ar y nodweddion hynny, naill ai drwy waith cynnal a chadw, dirywiad neu ddifrod gan drafnidiaeth, leihau eu gwerth cadwraethol yn ddifrifol.

### *Rheolaeth amhriodol neu anffafriol*

Mae cynnal nodweddion ffiniol yn neilltuol bwysig os ydynt i barhau i fod o werth cadwraethol. Gall rheolaeth wael (yn hytrach na chael gwared arnynt) fod yn ffactor mwy arwyddocaol yn y golled o'r cynefinoedd hyn. Er enghraifft, nid yw torri gwrychoedd bob amser yn cael ei wneud mewn modd sy'n sensitif i'r amgylchedd, a chaiff ei wneud yn aml ar adegau amhriodol o'r flwyddyn neu gyda chyfnod amhriodol rhwng y toriadau, weithiau oherwydd diogelwch ffyrdd.

Mae rheoli tyfiant chwyn drwy ddefnyddio chwynladdwyr, a defnyddio gwrteithiau i hybu tyfiant gwrychoedd planedig, yn arwain at amrywiaeth rhywogaethau is. Ar ben hyn, gall fod gwrychoedd newydd wedi eu plannu gyda nifer isel o rywogaethau o'r cychwyn cyntaf, yn aml gan ddefnyddio stoc nad yw'n lleol sy'n tynnu ymhellach oddi wrth eu gwerth i fioamrywiaeth.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae canllawiau ar gael gan DEFRA (ADAS gynt), y Comisiwn Coedwigaeth a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (ITE gynt) ar statws a rheolaeth gwrychoedd ym Mhrydain. (Gall y canllawiau hyn fod yn berthnasol i reoli gwrychoedd cyfagos i ffyrdd, ond nid yw'n benodol berthnasol i ffyrdd).

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw cadw a gwella nodweddion ffiniol o werth cadwraethol lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Yn benodol:

- sicrhau bod effeithiau datblygiadau newydd ar nodweddion ffiniol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu hystyried yn 'hynafol' neu'n 'bwysig', yn cael eu hosgoi lle bynnag y mae hynny'n bosibl;
- lliniaru yn erbyn effeithiau na ellir eu hosgoi ar nodweddion ffiniol;
- cofnodi dosbarthiad presennol nodweddion ffiniol o fewn yr ystâd feddal er mwyn datblygu cynlluniau rheoli wedi eu targedu; a
- chodi ymwybyddiaeth o'r bobl sy'n ymwneud â phrosesau dylunio, adeiladu a chynnal o bwysigrwydd ecolegol nodweddion ffiniol o bob math, a darparu cyngor manwl ar gyfer contractwyr rheoli.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu cyngor presennol o fewn yr WTRMM er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu arfer gorau, yn enwedig mewn perthynas â nodweddion ffiniol a ddosberthir fel gwrychoedd hynafol a/neu rhywogaeth-gyfoethog, cloddiau, neu wrychoedd sydd wedi eu dosbarthu yn 'bwysig' dan y Rheoliadau Gwrychoedd. | 2004/2007 |
| Adolygu'r angen am gyngor yn DMRB gydad Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol y DU. | Dyddiad I'w drefnu |
| **Arolygu** | |
| Sicrhau bod unrhyw arolygon sy'n cael eu cynnal yn cael eu hymestyn ddigon i asesu cysylltedd nodweddion ffiniol ac i nodi cyfleon ar gyfer cysyllteddau newydd, yn ogystal â thrafod unrhyw ofynion cyfreithiol. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Gyda phob cynllun ffordd bwriedig, ceisio nodi nodweddion ffiniol o werth ecolegol a nodi ardaloedd lle gellir gwella nodweddion ffiniol er budd bioamrywiaeth. Dylai nodi nodweddion ffiniol gwerthfawr o fewn y cyfnod cwmpasu helpu i osgoi effeithiau ac amlygu unrhyw gyfleon potensial. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle mae gwaith lledu'r ffordd i'w wneud a hynny'n niweidiol i'r nodweddion ffiniol presennol, amcanu at gadw nodweddion ar un ochr o'r cynllun gwella. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle mae gwrych sydd wedi ei ddosbarthu fel un 'pwysig' dan y Rheoliadau Gwrychoedd yn cael ei symud, rhoi un arall yn ei le a/neu (fel y cam eithaf) ei drawsleoli fel rhan o'r mesurau lliniarol. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle caiff nodweddion ffiniol gwerthfawr nad ydynt yn ymwneud â'r gwrychoedd eu colli oherwydd ffyrdd newydd neu gynlluniau gwella, gosod nodweddion yn ôl neu osod rhai newydd drwy ailgreu a thrawsleoli. | Wrth i gynlluniau godi |

| | |
|---|---|
| Hybu, drwy Gynlluniau Rheoli Amgylcheddol lle bo hynny'n bosibl, reolaeth sy'n sensitif i'r amgylchedd gyda'r gwrychoedd sydd dan reolaeth y Gyfarwyddiaeth. Dylai hyn gynnwys trefniadau torri priodol, cadw coed sy'n sefyll a defnyddio rhywogaethau brodorol o darddiad lleol lle maent ar gael yn eu trefn blannu. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Monitro llwyddiant trawsleoli, ailblannu a gwella gwrychoedd, sydd wedi eu gwneud fel mesurau lliniaru. | Cyfredol |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Cynnwys gwybodaeth ar werth a thechnegau rheoli nodweddion ffiniol o fewn hyfforddiant amgylcheddol staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ac Asiantau Cefnffyrdd. | 2007 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae Gwrychoedd hynafol a/neu Rhywogaeth-gyfoethog yn Gynefin Blaenoriaeth UKBAP.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Torfaen, Bannau Brycheiniog, Castell-Nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro, a Gwent Fwyaf.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Coetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig a Phrysglwyni, Tylluan Wen, Ystlumod, Pathew, Amffibiaid ac Ymlusgiaid.

### Sefydliad blaen neu bartner

Y Partner Blaen ar gyfer gwrychoedd hynafol a rhywogaeth-gyfoethog (Cynefin Blaenoriaeth UKBAP) yw DEFRA.




*Clawdd, wal garreg sych*



Glaswelltir calchaidd yr ucheldir

# Glaswelltir Calchaidd



**Datblygir glaswelltiroedd calchaidd ar briddoedd bas cyfoethog mewn calch gan amlaf yn deillio o greigiau sialc a chalchfaen. Nid oes unrhyw laswelltiroedd sialc yng Nghymru, ac mae glaswelltir calchaidd wedi ei gyfyngu i wahanol ardaloedd daearyddol yng Nghymru.**

Maent i'w gweld yn ardaloedd ucheldir (yn uwch na therfyn uchaf tir caeëdig amaethyddol) ac iseldir Cymru. Bydd porfa galchaidd yr ucheldir yn aml yn digwydd fel rhan o fosäig cynefinoedd, ac fe'i defnyddir fel tir pori garw. Ceir porfa galchaidd yr iseldir yn aml ar nodweddion topograffig megis sgarpiau neu lethrau dyffrynnoedd.

Mae glaswelltir calchaidd yn cynnwys amrywiaeth niferus o rywogaethau planhigion, yn enwedig y rhai sydd wedi eu cyfyngu i briddoedd cyfoethog mewn calch. Ceir rhychwant eang o rywogaethau nodweddiadol yn y glaswelltiroedd hyn, yn laswelltau ac yn blanhigion blodeuol. Ymysg y glaswelltau mae peiswellt defaid (*Festuca ovina*), cawn bensidan (*Agrostis capillaris*) a phawrwellt unionsyth (*Bromus erecta*); ymysg y planhigion blodeuol mae teim gwyllt (*Thymus praecox*), gwyddlwyn cyffredin (*Sanguisorba minor*) a rhosyn y graig (*Helianthemum nummularium*). Mae glaswelltir calchaidd yn amrywio o laswelltau arfordirol yn bennaf gyda rhywogaethau, yn nodweddiadol, megis y cor-rosyn lledlwyd (*Helianthemum canum*), at laswelltiroedd yr ucheldir a mynyddig.

Mae prysg yn nodwedd amlwg mewn nifer o ardaloedd glaswelltir calchaidd. Heb anifeiliaid yn pori, gall prysg ymledu i ddisodli glaswelltiroedd, gydag effaith negyddol ar werth cadwraethol y safle. Gyda rheolaeth gytbwys, fodd bynnag, gellir cadw mosaigau glaswelltir-prysg cyfoethog mewn rhywogaethau, a'u hadfer (gan ddibynnu ar y sefyllfa), gan arwain at gynnydd yn amrywiaeth y planhigion a'r anifeiliaid. Mae porfa galchaidd yr ucheldir a'r iseldir fel ei gilydd yn cynnal rhychwant amrywiol o rywogaethau anifeiliaid, yn enwedig anifeiliaid di-asgwrn-cefn, gyda llawer ohonynt yn Rhywogaethau Blaenoriaeth y DU.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Ystyrir bod llai na 1200 hectar o borfa galchaidd yr iseldir yng Nghymru. Mae'r ffigurau ar gyfer porfa galchaidd yr ucheldir rhwng 22,000 a 25,000 hectar ar draws y DU, gyda 650 ohonynt yng Nghymru.

- Mae glaswelltir calchaidd yn Gynefin Eang yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, ac mae porfa galchaidd yr iseldir a'r ucheldir ill dau yn Gynefinoedd Blaenoriaeth.
- Caiff porfa galchaidd yr iseldir a'r ucheldir eu cynnwys yn y rhestr o gynefinoedd o brif bwysigrwydd i fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

- Mae canran uchel o laswelltir calchaidd yn digwydd o fewn safleoedd sydd wedi eu dynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Yng Nghymru, mae hyn yn gyfanswm o 60-70% o holl borfa galchaidd yr iseldir, a dros 60% o holl borfa galchaidd yr ucheldir.

### Statws ar y rhwydwaith

Cyfyngir porfa galchaidd yr iseldir ar ymylon ffordd i ardaloedd lle mae ffyrdd yn torri drwy frigiadau calchaidd; felly mae'r rhan fwyaf o safleoedd yng Ngogledd neu Dde Cymru (e.e. yr A55, yr A477, yr A40 a'r M4). Mae hyn hefyd yn wir am borfa galchaidd yr ucheldir, sy'n debyg o fod yn llai cyffredin o fewn yr ystâd feddal. Mae'r M4 yn croesi ardaloedd calchfaen; ac mae ei drychfeydd yn cynnal glaswelltir calchaidd eilaidd (h.y. glaswelltir calchaidd sydd wedi datblygu o fanc hadau lle mae calchfaen wedi dod i'r wyneb ar drychfeydd a grewyd wrth adeiladu'r ffordd).

### Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Colli cynefinoedd neu ddirywiad*

Mae'r UKBAP wedi nodi darnio (yn cynnwys darnio a achoswyd gan adeiladu, lledu neu wella ffyrdd) fel ffactor yn nirywiad y cynefin hwn. Mae gwaith cynnal a chadw ffyrdd hefyd â rhan yn y dirywiad, drwy'r gwaith trwsio ei hun, neu drwy storio deunydd yn amhriodol. Mae gweithgaredd megis tipio anghyfreithlon, llygredd/gollyngiadau neu yrru/parcio ar ymylon ffordd hefyd yn debyg o ddiraddio'r cynefin hwn.

Gall drifft chwistrellu, o dir amaethyddol cyfagos (chwynladdwyr a phlaladdwyr) ac o'r ffordd gerbydau (o'r halen sy'n cael ei roi arni mewn tywydd gwael), hefyd fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad cynefinoedd.

Mae glaswelltir calchaidd o ansawdd da yn isel mewn maetholion, a bydd unrhyw gynnydd yn lefelau maetholion y pridd (er enghraifft, trwy gyfrwng arferion ffermio ar dir cyfagos) hefyd yn niweidiol i laswelltiroedd ar ymylon y ffordd.

*Rheolaeth amhriodol*

Mae angen pori (neu dorri gwair) er mwyn sicrhau bod rhywogaethau'n gallu blodeuo a hadu, ac i sicrhau nad yw'r glaswelltau a llwyni mwy egnïol yn goruchafu'r rhywogaethau eraill. Felly bydd tan-bori a gor-bori yn arwain at leihad mewn amrywiaeth rhywogaethau, ac yn y pen draw at newid yn strwythur y cynefin (ar ymylon ffordd, efallai y bydd rhaid defnyddio trefn o dorri'r gwair yn lle pori oherwydd materion diogelwch stoc a thrafnidiaeth). Gall dwysáu amaethyddol (defnyddio gwrteithiau a chwynladdwyr, neu aredig ac ail-hadu) arwain at ddifrod neu hyd yn oed at golled.

Gall rhywogaethau estron a chwyn amaethyddol, cyfansoddion cyffredin ar ymylon ffordd, oruchafu'r rhywogaethau glaswelltir calchaidd; yn yr un modd, gall mesurau i reoli rhywogaethau annymunol fod yn niweidiol i'r rhywogaethau mwy gwerthfawr sy'n bresennol.

Gall cynlluniau plannu amhriodol hefyd effeithio yn niweidiol ar laswelltir calchaidd, yn cynnwys ychwanegu coed a llwyni, ymgorffori rhywogaethau addurnol (heb fod yn frodorol) megis cennin Pedr, neu ddefnyddio cymysgedd hadau heb fod yn frodorol neu amhriodol.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Ymylon Ffyrdd fel rhan o'u LBAP; mae Gwynedd wedi cynhyrchu taflen Ymylon Ffyrdd, sy'n darparu cyngor penodol ar eu rheoli.
- Mae WTRMM yn nodi y dylid rheoli a chadw ymylon sy'n werthfawr er mwyn mwyhau hyn. Ceir cyngor penodol ar y defnydd o chwynladdwyr mewn perthynas â rhywogaethau estron ac ymledol.

**Nodau a thargedau'r cynllun**

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- lleihau colli glaswelltir calchaidd yn sgîl rheolaeth wael neu amhriodol; a
- nodi'r ardaloedd glaswelltir calchaidd sydd ar ôl er mwyn atal colled bellach; a
- cynyddu gwerth canfyddedig yr ardaloedd cynefin hyn drwy gynnwys a hysbysu pobl leol, staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, defnyddwyr ffyrdd a thrigolion.

**Gweithredu bwriedig**

| **GWEITHRED** | **TARGED** |
|---|---|
| **Canllawiau polisi a chyngor** | |
| Adolygu ac, os oes angen, cyhoeddi canllawiau diwygiedig parthed glaswelltir Calchaidd yn WTRMM. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Nodi a gwneud arolwg o rannau o'r ystâd feddal y gwyddys eu bod yn cynnwys, neu sy'n debygol o gynnwys glaswelltir calchaidd: e.e. ardaloedd cyfagos i ardaloedd sylweddol o laswelltir calchaidd (gan ddefnyddio arolygon glaswelltir cyfredol y Cyngor Cefn Gwlad), a chofnodi dosbarthiad y cynefin ar y rhwydwaith mewn cronfa ddata. | 2008 |
| Nodi ardaloedd o laswelltir calchaidd o fewn yr ystâd feddal sy'n addas ar gyfer eu hadfer. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod glaswelltir calchaidd gwerthfawr yn cael ei ystyried. Osgoi colli cynefin o'r fath lle bynnag y bo hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn raddol, peidio â defnyddio hadau nad ydynt o darddiad lleol neu fioranbarthol. | Cyfredol |
| Lle mae'n anorfod bod cynefin yn cael ei golli, ystyried ailgreu glaswelltir calchaidd ar ymyl y ffordd neu, lle nad oes dewis arall, ei drawsleoli. | Wrth i gynlluniau godi |
| Datblygu trefniadau torri gwair priodol er mwyn cynnal amrywiaeth rhywogaethau mewn ardaloedd penodedig. | Cyfredol |
| Anelu at gynhyrchu neu adfer pum safle neu bum hectar o laswelltir calchaidd gan ddefnyddio arferion rheoli da gydag ymylon ffyrdd. | Erbyn 2010 |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Sefydlu system i fonitro safleoedd hysbys (yn cynnwys safleoedd newydd eu creu) er mwyn sicrhau bod rheolaeth yn cael yr effaith a ddymunir. Addasu rheolaeth lle mae technegau presennol yn methu. | 2012 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, Asiantau Cefnffyrdd a'r cyhoedd ynghylch pwysigrwydd glaswelltir calchaidd. | 2008 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae porfa galchaidd yr iseldir a'r ucheldir yn Gynefinoedd Blaenoriaeth UKBAP.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn; Caerffili; Caerfyrddin; Conwy; Sir Benfro; Powys; Rhondda Cynon Taf.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae'r HAPau ar gyfer Dolydd yr Iseldir, Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir a'r SAPau ar gyfer Brith y Gors, Tylluan Wen ac Ystlumod.

### Sefydliad blaen neu bartneriaid

Y Partner Blaen ar gyfer porfa galchaidd yr iseldir yw English Nature.
Y Partner Blaen ar gyfer porfa galchaidd yr ucheldir yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru.




*Glaswelltir calchaidd yr iseldir*



*Morfa Heli*

# Cynefinoedd Arfordirol ac Aberol

**Mae cynefinoedd arfordirol yn cynnwys twyni tywod, morfeydd heli, morfa pori arfordirol a gorlifdir, traethau, rhostir a glaswelltir arforol, clogwyni a llethrau arforol a thraethellau.**



Y disgrifiad gorau o aber yw cwrs isaf eang afon lle mae'r cerrynt yn cwrdd â'r llanw sy'n dod i mewn. Mae'r dŵr mewn aberoedd yn gymysgedd o ddŵr hallt a dŵr croyw, sy'n cyfrannu at ecosystem amrywiol. Mae arfordiroedd ac aberoedd yn gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau, yn enwedig adar, pysgod a chramenogion.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Amcangyfrifir bod arfordir Cymru tua 1600 cilomedr, ac mae arolwg Cam 1 a gynhaliwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn amcangyfrif fod cynefinoedd arfordirol yn ffurfio 0.7% o'r gorchudd tir yng Nghymru.

Disgrifir canran uchel o'r cynefin arfordirol ac aberol yng Nghymru fel un o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer cadwraeth natur a'r tirlun.

- Mae llawer o gynefinoedd arfordirol wedi eu dynodi yn ACAoedd dan Gyfarwyddiaeth 'Cynefinoedd' y Gymuned Ewropeaidd 1992.
- Rhoddir amddiffyniad i safleoedd arfordirol hefyd dan y Gyfarwyddeb 'Adar' 1979, sy'n darparu ar gyfer dynodi AAAoedd.
- Gellir amddiffyn safleoedd arfordirol a chynefinoedd dan Gonfensiwn Ramsar hefyd.
- Mae rhychwant o gynefinoedd arfordirol ac aberol wedi ei gynnwys yn y rhestr o gynefinoedd o brif bwysigrwydd i fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

## Statws ar y rhwydwaith

Mae'r rhwydwaith cefnffyrdd yn rhyngweithio gyda chynefinoedd arfordirol ac aberol lle mae'r rhwydwaith yn pasio dros y cynefinoedd hyn. Y mwyaf adnabyddus o'r rhain yw'r ddwy bont Hafren, h.y. pontydd yr M4 a'r M48 a phontydd yr A5/A55 i Ynys Môn. Mae nifer o ffyrdd hefyd yn rhedeg, yn rhannol, yn agos iawn at gynefinoedd arfordirol yn cynnwys yr M4, yr A40 a'r A487.

### Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Aflonyddu a cholli cynefinoedd; Aflonyddu ar adar arfordirol*

Gall datblygiadau mawr, yn cynnwys adeiladu pontydd, arwain at aflonyddu sylweddol ar gynefinoedd arfordirol, ac at eu colli yn ddiweddarach ac at newidiadau i brosesau arfordirol (er enghraifft, erydu a dyddodi deunyddiau). Mae'r datblygiadau hyn, fodd bynnag, yn tueddu i fod yn rhai bach yn nhermau'r ardal yr effeithir arni. Gall adeiladu ffyrdd effeithio ar barthau trawsnewidiol yr amgylchedd arfordirol, sy'n fwy amrywiol yn fotanegol, ac ar y rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt, yn enwedig adar.

*Llygredd*

Mae cymunedau dyfrol ac aberol yn neilltuol o agored i lygredd. Gall llygredd a achosir gan ffyrdd ddod o nifer o ffynonellau, yn enwedig gollyngiadau pibenni gwacáu cerbydau, gollyngiadau ffyrdd, damweiniau ffyrdd a gorlifoedd.

*Rhywogaethau estron*

Gall ffyrdd fod yn ffactor yn ymlediad rhywogaethau estron. Gall goresgyniad rhywogaethau nad ydynt yn frodorol i mewn i'r cymunedau arbenigol hyn amharu'n sylweddol ar y cydbwysedd ecolegol. Er enghraifft, gall aelodau o deulu'r planhigyn blodeuol (*Aizoaceae*), megis ffigysen y Penrhyn (*Carpobrotus edulis*), gael effaith ddifrodus ar gymunedau planhigion morol cynhenid, er ar hyn o bryd nad oes unrhyw achosion wedi eu hadrodd o'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yn bod yn rhan o ymlediad y planhigyn hwn.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae deddfwriaeth amrywiol Ewropeaidd a'r DU yn darparu amddiffyniad i gynefinoedd a rhywogaethau arfordirol ac aberol mewn ardaloedd arfordirol.
- Mae dros 300 o'r SoDdGA yn y DU, a ddynodwyd dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 yn cynnwys rhyw fath o gynefin aberol.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw: cynyddu ymwybyddiaeth o werth ac o natur fregus cynefinoedd arfordirol ac aberol; a sefydlu gwell ystyriaeth o effaith adeiladu ffyrdd ar y cynefinoedd hyn.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu'r cyngor a geir yn y WTRMM ar waith cynnal ar neu yn agos at gynefinoedd arfordirol ac aberol. Cyhoeddi canllawiau diwygiedig lle bo angen. | 2007 |
| Adolygu'r angen am gyngor yn DMRB gydag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol y DU. | Dyddiad i'w drefnu |
| **Arolygu** | |
| Nodi pob ardal o'r rhwydwaith, ac unrhyw systemau draenio ffordd perthnasol, sy'n rhedeg o fewn 50m i gynefinoedd arfordirol ac aberol. | 2008 |

### Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod cynefinoedd gwerthfawr (yn enwedig safleoedd sy'n cael eu gwarchod a chynefinoedd UKBAP) yn cael eu hystyried adeg cynllunio ffyrdd newydd a chynlluniau gwella; ceisio cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Cyngor Cefn Gwlad i helpu canfod a datrys materion perthnasol. | Wrth i gynlluniau godi |
| Sicrhau nad oes trawiadau y gellir eu hosgoi yn digwydd i'r cynefinoedd aberol ac arfordirol yn ystod gwaith adeiladu ffyrdd. | Cyfredol |
| Yn ystod gweithrediad a chynnal y ffordd, gostwng effeithiau llygredd i'r lleiaf posibl drwy sicrhau bod systemau draenio'n cael eu cadw'n weithredol bob amser. | Cyfredol |

### Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd

| | |
|---|---|
| Codi proffil cynefinoedd arfordirol ac aberol a'u gwerth i gadwraeth natur parthed dylunio, adeiladu a chynnal cynlluniau. | Cyfredol |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae nifer o Gynefinoedd UKBAP wedi eu cwmpasu o fewn y Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Arfordirol ac Aberol hwn.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Pen-y-Bont ar Ogwr a Chasnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Parc Cenedlaethol Eryri, Gwent, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Castell-Nedd Port Talbot, Caerdydd, Ynys Môn, Conwy, Bro Morgannwg, a Sir Fflint.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Amffibiaid, Afonydd a Nentydd, a Rhywogaethau Dyfrol.

### Sefydliad blaen neu bartner

Nodir yn y UKBAB mai'r Partner Blaen ar gyfer cynefinoedd arfordirol sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature, Asiantaeth yr Amgylchedd, a Scottish Natural Heritage.




*Morfa pori arfordirol a gorlifdir*



*Rhostir yr ucheldir*

# Rhostir



**Nodweddir rhostir gan orchudd o leiaf 25% o gorlwyni ac fe'i cysylltir yn gyffredinol gyda phriddoedd tenau asidig sy'n isel mewn maetholion megis mawn neu briddoedd mwyn.**

Fe'i ceir yn aml mewn mosaig gyda mathau eraill o gynefinoedd megis gorgors, glaswelltir asidig a chraig a sgri ac mae rhostir yn gynefin pwysig i rychwant nodweddiadol o adar, ymlusgiaid, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a chymunedau planhigion is. Ymysg y planhigion fasgwlaidd a welir yn gyffredinol yn y cynefin hwn mae grug (*Calluna vulgaris*), grug croesddail (*Erica tetralix*), grug lledlwyd (*Erica cinerea*) eithin y mynydd (*Ulex gallii*) a'r llusen (*Vaccinium myrtillus*).

Mae rhostir yr iseldir yn digwydd o dan lefel tir caeëdig amaethyddol, fel arfer o dan uchder o 250 – 300m, ac mae'n llai helaeth na rhostir yr ucheldir. Mae rhostir yr ucheldir yn llai bioamrywiol, a gall ddigwydd hyd at uchder o 750m gan orchuddio'n aml ardaloedd eang o dir mynydd agored. Serch hynny, oherwydd yr amodau gwlyb a mwyn yng Nghymru, gall hyd yn oed rostir yr ucheldir ddangos nodweddion yr iseldir (fel y gwelir ym Morgannwg, er enghraifft). Gellir disgrifio rhostir yr ucheldir a'r iseldir fel rhostir sych neu wlyb yn dibynnu ar leithder y pridd, ac mae pob un yn dangos llysdyfiant nodweddiadol. Yn gorgyffwrdd â diffiniad iseldir ac ucheldir gellir cael ardaloedd rhostir o fewn mosaigau o dir agored a elwir yn "ffridd" a all ddigwydd yn uwch na 250m.

Lle mae'r cefnffordd yn mynd drwy rostir, mae ymyl y ffordd yn aml yn cynnal rhywogaethau corlwyni (megis grug) sy'n cael eu torri neu eu pori yn anaml, gan felly ddarparu banc hadau gwerthfawr y gall rhostir ymledu ohono. Mae'r UKBAP yn rhestru nifer o rywogaethau blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â rhostir yr Iseldir a'r Ucheldir, a gyda'r categori Eang Rhostir Corlwyni.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae rhostir yr iseldir a rhostir yr ucheldir yn Gynefinoedd Blaenoriaeth UKBAP yn gysylltiedig â chategori Eang 'Rhostir Corlwyni'. Mae'r DU yn dal 20% arwyddocaol o gyfanswm rhyngwladol rhostir yr iseldir. Er hynny, rhostir yw un o'r cynefinoedd dan fwyaf o fygythiad ym Mhrydain, yn enwedig yn yr iseldir.

Mae'r cynefin yn dirywio yng Nghymru hefyd. Rhwng y 1920au a'r 1980au cafodd 51% o rostiroedd sych a 95% o rostiroedd gwlyb ar benrhyn Llŷn eu dinistrio, y rhan fwyaf wedi eu troi'n laswelltir amaethyddol a rhai wedi eu plannu â chonifferau. Cafodd y patrwm hwn ei ailadrodd dros lawer o dir Cymru. Ar hyn o bryd mae tua 79,000 hectar o rostir yr ucheldir i'w weld yn bennaf yng ngogledd a chanolbarth Cymru, a thua 7,000 o rostir yr iseldir gyda chrynoadau sylweddol ym Mannau Brycheiniog, Ceredigion, Sir Benfro, Abertawe ac ar draws Gogledd Cymru. Mae rhostir gwylyb yr iseldir yn llawer llai cyffredin na rhostir sych.

Mae Rhostir yr Iseldir a'r Ucheldir wedi eu cynnwys yn y rhestr cynefinoedd o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

### Statws ar y rhwydwaith

Mae llawer o gefnffyrdd yn rhedeg drwy ardaloedd o rostir yr iseldir a'r ucheldir. Yn ardaloedd mynyddig gogledd a chanolbarth Cymru mae tebygrwydd o rostir yr ucheldir yn digwydd ar yr ystâd feddal mewn rhai ardaloedd.

### Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Colli cynefin, Darnio ac Aflonyddu*

Gall darnio a cholli rhostir yn uniongyrchol gael ei achosi gan ddatblygiadau newydd yn cynnwys adeiladu ffyrdd, tra gall lledu a gwella ffyrdd hefyd gael effaith ar ardaloedd o rostir yr ucheldir a'r iseldir fel ei gilydd. Gallai aflonyddu, drwy waith cynnal neu welliannau i ymylon ffordd, a all fod yn cynnwys cymunedau rhostir, hefyd leihau ansawdd ac amrywiaeth y rhostir.

Mae rhostir yn sensitif iawn i gyfoethogiad maetholion all gael ei achosi gan ddyddodiad atmosfferig, glaw asid, llygredd o allyriadau cerbydau, ewyn a gorlif oddi ar y ffyrdd, yn ogystal â gollyngiadau a dympio anghyfreithlon. Credir hefyd fod dyddodiad nitrogen yn llesol i chwilen y grug, (*Lochmaea suturalis*), sydd wedi achosi diddeilio helaeth i'r grug ar Fannau Brycheiniog.

### Rheolaeth amhriodol

Er bod angen peth pori ar rostir er mwyn rhwystro olyniaeth prysgwydd neu goetir, mae gor-bori a sathru gan ddefaid yn achosi colledion sylweddol i'r rhostir, gan annog rhywogaethau glaswelltir asid i gymryd drosodd. Mae pori fel arfer yn anymarferol ar lawer o'r ystâd feddal, felly bydd torri'n digwydd o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

Ar ben hyn, gall llosgi gormodol a heb ei reoleiddio, tra'n rhwystro olyniaeth prysgwydd a choetir, achosi difrod tymor hir i ardaloedd mawr o rostir a gall effeithio ar gymunedau ymylon ffordd. Gallai ail-blannu neu hadu ymylon ffordd, yn enwedig gyda rhywogaethau nad ydynt yn frodorol, ddominyddu'r llystyfiant corlwyni gan ei ddisodli yn y pen draw.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae 34,000 hectar o rostir yr ucheldir yng Nghymru wedi eu hamddiffyn a'u rheoli fel SoDdGA, GNCeydd, Gwarchodfeydd Natur Lleol (a elwir yn "Safleoedd Bywyd Gwyllt" hefyd) a ACAoedd, tra bod canran uchel o gynefin rhostir yr iseldir yn cael ei nodi fel SoDdGA drwy'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981. Mae'r safleoedd hyn sydd wedi eu gwarchod yn debyg o gynnwys yr ymylon ffordd sy'n rhedeg drwyddynt, heblaw eu bod wedi cael eu hadnewid neu eu hail-blannu yn helaeth.
- Mae rhostir yn dechrau atgynhyrchu'n naturiol ar gynllun Cancoed i Minffordd yr A470 mewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi i'r pwrpas hwnnw yn dilyn y gwaith adeiladu.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nod y Cynllun Gweithredu hwn yw cadw a gwella rhostir. Yn enwedig:

- rheoli yn briodol y rhostir sydd i'w ganfod o fewn y rhwydwaith cefnffyrdd; a
- lle mae'n anochel bod gwaith adeiladu ffyrdd yn effeithio ar gynefin rhostir, cymryd i ystyriaeth ecoleg y cynefin er mwyn lleihau difrod ac i annog gosod llysdyfiant rhostir newydd, lle bo hynny'n bosibl, ar ymylon y ffordd.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu ac, os oes angen, cyhoeddi canllawiau diwygiedig parthed arfer gorau rheoli'r ystâd feddal o fewn yr WTRMM mewn perthynas â chynefinoedd rhostir. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Mewn ardaloedd lle mae rhostir o fewn a'r tu allan i'r ystâd feddal, hybu cydlynu arolygon, a chyfnewid canlyniadau wedi hynny gan y rhai sy'n eu cynnal. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Nodi ardaloedd rhostir adeg dewis trywydd cynlluniau ffyrdd er mwyn osgoi effeithio ar y cynefin lle bynnag y bo hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod rhostir gwerthfawr yn cael ei ystyried. Osgoi colli cynefin rhostir yn uniongyrchol lle bynnag y mae hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Ystyried cyfleon i greu neu adfer cynefinoedd lle mae hynny'n wneuthuradwy, a symud deg safle ymlaen erbyn 2014. | 10 safle erbyn 2014 |
| Sicrhau bod rheolaeth rhostir yn briodol i gynnal ei werth fel rhostir. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Adolygu arfer gorau i reoli'r rhostir gyda sefydliadau priffyrdd llywodraeth genedlaethol y DU. | 2008 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i helpu atal tanau bwriadol/damweiniol, tipio anghyfreithlon, a pharcio/gyrru ar rostir yn y rhwydwaith. | 2006 a 2008 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn, Blaenau Gwent, Bannau Brycheiniog, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Conwy, Eryri. Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir, Clogwyni a Sgri ac Ymlusgiaid.

### Sefydliad blaen neu bartneriaid


Nodir yn y UKBAB mai'r Partner Blaen ar gyfer cynefinoedd Rhostir yr Iseldir a'r Ucheldir yw English Nature.



*Rhostir yr iseldir*



*Glaswelltir asid sych yr iseldir*



# Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir

**Yn nodweddiadol, mae glaswelltir asid sych yr iseldir yn datblygu ar briddoedd gwael eu maetholion sy'n draenio'n rhydd gyda pH o 4 i 5.5.**

Daw pridd o'r fath amlaf o greigiau asid neu o drosgaen arwynebol o dywod neu raean. Diffinir y cynefin fel pob glaswelltir asid, caeëdig neu heb ei gau i mewn, sy'n digwydd o dan ryw 300m. Mae'n aml yn digwydd o fewn tirluniau rhostir yr iseldir, mewn parcdiroedd, ac ar greigiau arfordirol a graean bras, ac fe'i rheolir fel arfer fel tir pori.

Nodweddir glaswelltir asid gan rychwant o rywogaethau planhigion megis briwydd wen (*Galium saxatile*), peiswellt y defaid (*Festuca ovina*), cawn bensidan (*Agrostis capillaris*), suran yr ŷd (*Rumex acetosella*), hesgen arfor (*Carex arenaria*), brigwellt main (*Deschampsia flexuosa*), maeswellt gwrychog (*Agrostis curtisii*) a thresgl (*Potentilla erecta*). Mae presenoldeb a niferoedd pob rhywogaeth yn dibynnu ar fath y gymuned ac ar ei leoliad.

Gall corlwyni megis grug (*Calluna vulgaris*) a llusen (*Vaccinium myrtillus*) hefyd fod yn bresennol ond mewn niferoedd bychan. Mae glaswelltir asid sych yr iseldir yn aml yn ffurfio mosäig gyda rhostir corlwyni. Gall glaswelltiroedd asid feddu ar orchudd helaeth o fryoffytau a gall fod yn gyfoethog mewn cennau. Yn nodweddiadol, mae'r cynefin yn dlawd o ran rhywogaethau, ond mae'n cynnal nifer arwyddocaol o blanhigion fascwlaidd anghyffredin a phrin a rhywogaethau arbenigol o anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n unigryw i'r cymunedau glaswelltir hyn. Mae rhai o'r rhywogaethau sydd i'w gweld ar Laswelltir Asid Sych yr Iseldir yn rhywogaethau sy'n gysylltiedig â'r UKBAP, yn cynnwys twrged llyfn, (*Arabis glabra*), penigan y porfeydd, (*Dianthus armeria*), cricsyn y maes, (*Gryllus Campestris*), a'r nyddwr, (*Caprimulgus europaeus*).

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Nid yw'r wybodaeth yn dda am y ffigurau parthed ehangder glaswelltir asid sych yr iseldir yn y DU, ond mae'r amcangyfrif gorau yn awgrymu bod 40,000 hectar yng Nghymru. Mae ardaloedd sy'n bell o ymyl yr ucheldir o bwys cadwraethol neilltuol. Ceir crynoadau pwysig yng Ngwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, a bryniau Cymreig y gororau ym Mhowys.

- Mae Glaswelltir asid yn Gynefin Eang yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU; mae Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir yn Gynefin Blaenoriaeth.
- Mae wedi ei gynnwys yn rhestr y cynefinoedd o brif bwysigrwydd i fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

- Yng Nghymru, mae tua 700ha o laswelltir asid yn digwydd mewn SoDdGA iseldir; mae 22 SoDdGA yn gymwys, yn annibynnol, am eu diddordeb glaswelltir asid yr iseldir, gyda 150 arall lle mae'r cynefin yn ffactor sy'n cyfrannu tuag at eu dynodiad.
- Mae nifer o rywogaethau planhigion, anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac adar glaswelltir asid sych yr iseldir wedi eu hamddiffyn dan Atodlenni'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.

*Statws ar y rhwydwaith*

Mae tuedd asid i ddaeareg Cymru, er bod hyn yn llai mewn ardaloedd iseldir. Mae glaswelltir asid sych yr iseldir felly yn debyg o gael ei ganfod ar ymylon ffyrdd mewn rhannau o Gymru lle mae'r ffyrdd yn teithio drwy ardaloedd o siâl a thywodfaen.

## Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Colli cynefinoedd neu ddirywiad*

Mae'r UKBAP wedi nodi darnio (yn cynnwys hwnnw sy'n codi yn sgîl adeiladu, lledu a gwella ffyrdd) fel ffactor tuag at leihau ansawdd a maint glaswelltir asid. Mae darnio'r cynefin yn dod â chynnydd yn y risg o ddifodiant rhywogaethau yn yr ardaloedd bach sydd ar ôl. Gall gwaith cynnal ffyrdd achosi difrod drwy'r gweithgareddau eu hunain, yn ogystal â'r defnydd a/neu storio amhriodol o ddeunyddiau (er enghraifft, gall deunyddiau alcalinaidd ddylanwadu ar eu hamgylchedd). Mae gweithgareddau megis tipio anghyfreithlon, llygredd/gollyngiadau neu yrru/parcio ar ymylon ffyrdd hefyd yn debygol o ddiraddio'r cynefin hwn.

Gall drifft chwistrellu, o dir amaethyddol cyfagos (chwynladdwyr a phlaladdwyr) ac o'r ffordd gerbydau (o'r halen sy'n cael ei roi arni mewn tywydd gwael), hefyd fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad cynefinoedd.

## Rheolaeth amhriodol

Mae esgeuluso rheolaeth yn aml yn arwain at or-dyfiant rhonc a llechfeddiant rhedyn a phrysg. O'r ochr arall, mae gor-bori neu dorri'n rhy aml hefyd yn fygythiad i laswelltiroedd asid, gan achosi difrod lleol i'r dywarchen a lleihad yn amrywiaeth rhywogaethau. Mae angen pori (neu dorri) yn unig i'r graddau sy'n galluogi rhywogaethau i flodeuo a gosod had ac i sicrhau nad yw'r glaswelltau a llwyni mwy egnïol yn goruchafu'r rhywogaethau eraill. Mae gor-bori neu or-dorri yn debyg o arwain at newid yn strwythur y cynefin.

Gall dwysáu amaethyddol (defnyddio gwrteithiau a chwynladdwyr, neu aredig ac ail-hadu) arwain at ddifrod neu hyd yn oed at golled. Gall rhywogaethau estron a chwyn amaethyddol, cyfansoddion cyffredin ar ymylon ffordd, oruchafu'r rhywogaethau glaswelltir calchaidd; yn yr un modd, gall mesurau i reoli rhywogaethau annymunol fod yn niweidiol i'r rhywogaethau mwy gwerthfawr sy'n bresennol.

Gall cynlluniau plannu amhriodol hefyd effeithio yn niweidiol ar laswelltir calchaidd, yn cynnwys ychwanegu coed a llwyni, ymgorffori rhywogaethau addurnol (heb fod yn frodorol) megis cennin Pedr, neu ddefnyddio cymysgedd hadau heb fod yn frodorol neu amhriodol.

## Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- nodi ardaloedd glaswelltir asid sych yr iseldir ar yr ystâd feddal neu'n union gyfagos drwy raglen dreigl;
- cynnal gweithgareddau cynnal ar yr adegau mwyaf priodol o'r flwyddyn, fydd yn cynnwys ystyried rhywogaethau wedi eu gwarchod a rhywogaethau blaenoriaeth UKBAP all fod yn bresennol ar y safleoedd hyn;
- cynnal (neu barhau i gynnal) rheolaeth briodol gyda'r cynefin hwn;
- nodi cyfleon i wella yn ystod dylunio, adeiladu a chynnal;
- targedu cynlluniau gwella cynefinoedd tuag at unrhyw rywogaethau blaenoriaeth glaswelltir asid sych yr iseldir yn ystod arolygon.

**Gweithredu bwriedig**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Canllawiau Polisi** | |
| Adolygu ac, os oes angen, cyhoeddi canllawiau diwygiedig parthed glaswelltir asid sych yr iseldir yn WTRMM. | 2007 |
| **Arolwg** | |
| Nodi a gwneud arolwg o'r ystâd feddal y gwyddys eu bod yn cynnwys, neu sy'n debygol o gynnwys glaswelltir asid sych yr iseldir: e.g. ardaloedd cyfagos i ardaloedd sylweddol o laswelltir asid sych yr iseldir (gan ddefnyddio arolygon glaswelltir cyfredol y Cyngor Cefn Gwlad), a chofnodi dosbarthiad y cynefin ar y rhwydwaith ar gronfa ddata. | 2008 |
| Nodi ardaloedd o laswelltir asid sych yr iseldir o fewn yr ystâd feddal sy'n addas ar gyfer eu hadfer. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod glaswelltir asid sych gwerthfawr yn cael eu hystyried. Osgoi colli cynefinoedd o'r fath yn uniongyrchol lle bynnag y mae hynny'n bosibl, neu osgoi'r potensial ar gyfer newidiadau i hydroleg ardaloedd o'r fath. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn raddol, peidio â defnyddio hadau nad ydynt o darddiad lleol neu fioranbarthol. | Cyfredol |
| Lle mae'n anorfod bod cynefin yn cael ei golli, ystyried ailgreu glaswelltir asid sych yr iseldir ar ymyl y ffordd neu, lle nad oes dewis arall, ei drawsleoli. | Wrth i gynlluniau godi |
| Creu neu wella pum safle glaswelltir asid sych yr iseldir ar ymylon ffyrdd. | 5 ardal erbyn 2014 |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Sefydlu system i fonitro safleoedd hysbys (yn cynnwys safleoedd newydd eu creu) er mwyn sicrhau bod y rheolaeth yn cael yr effaith a ddymunir. Addasu rheolaeth lle mae technegau presennol yn methu. | 2012 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, Asiantau Cefnffyrdd a'r cyhoedd ynghylch pwysigrwydd glaswelltir asid sych yr iseldir | 2006 a 2008 |

**Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill**

Mae glaswelltir asid sych yr iseldir yn Gynefin Blaenoriaeth UKBAP. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn; Caerffili; Caerfyrddin; Conwy; Sir Benfro; Powys; Rhondda Cynon Taf.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Penigan y Porfeydd, Amffibiaid, Dolydd yr Iseldir, a Physen y Coed.


**Sefydliad blaen neu bartner**

Nodir yn yr UKBAP mai English Nature yw'r Partner Blaen ar gyfer y cynefin hwn.



*Cae gwair traddodiadol gyda llygaid-llo mawr, blodau ymenyn a meillion*

# Dolydd yr Iseldir



**Mae dolydd yr iseldir yn cynnwys y rhan fwyaf o fathau o laswelltir niwtral heb ei wella sydd i'w cael yn ardaloedd yr iseldir.**

Mae hyn yn cynnwys dolydd gorlifdir a phorfa gorlifdir a hefyd glaswelltiroedd sydd â gwahanol strategaethau rheoli, h.y. porfeydd a glaswelltiroedd sy'n cael eu torri i wneud gwair. Tuedda dolydd yr iseldir i fod mewn lleoliad amaethyddol yn fwyaf mynych, er y gellir canfod enghreifftiau ychwanegol ar ymylon y ffordd, ymysg mannau eraill. Mae'r cymunedau glaswelltir canlynol wedi eu heithrio o'r cynllun hwn: cymunedau glaswelltir morol, dolydd gwair yr ucheldir, a glaswellt y bwla a phorfa frwyn.

Mae gan laswelltir yr ystâd feddal y systemau maetholion mewnbwn-isel nodweddiadol sy'n gysylltiedig â dolydd yr iseldir, a gwyddys bod llawer o'r rhywogaethau sy'n nodweddu'r math hwn o gynefin, megis yr ehedydd a physen y coed, yn digwydd ar neu'n agos at yr ystâd feddal. Yn y DU, mae'r rhan fwyaf o gymunedau dolydd yr iseldir erbyn hyn yn digwydd mewn ardaloedd lleol, bychan, darniog. Mae glaswelltiroedd sy'n dioddef llifogydd tymhorol yn llai eang eu dosbarthiad, ond nid ydynt wedi darnio i'r un graddau â dolydd gwair a phorfa heb eu gwella. Mae'r ystâd feddal yn aml yn cynnwys olion o gymunedau glaswelltir wedi eu hen sefydlu sydd fel arall wedi eu colli yn dilyn dwysáu amaethyddol neu ddatblygiad. Felly gallai'r ystâd feddal gyfrannu'n sylweddol tuag at gyfanswm arwynebedd y glaswelltir gwerthfawr hwn yng Nghymru.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae cynefin glaswelltir niwtral heb ei wella wedi dioddef gostyngiad amlwg dros y 100 mlynedd diwethaf, yn bennaf yn sgîl dwysáu amaethyddol. Amcangyfrifiwyd fod 97% o laswelltiroedd lled-naturiol wedi eu colli dros yr hanner can mlynedd diwethaf yng Nghymru a Lloegr. Dywed amcangyfrifon erbyn hyn bod llai na 19,000ha o gymunedau dolydd yr iseldir yn goroesi heddiw yn y DU, gyda 1,700ha ohonynt yn digwydd yng Nghymru.

- Mae Dolydd yr Iseldir yn Gynefin Blaenoriaeth UKBAP.
- Mae dolydd yr iseldir wedi ei gynnwys yn rhestr y cynefinoedd o brif bwysigrwydd i fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

## Statws ar y rhwydwaith

Nid yw'n hawdd cymhwyso dosbarthiad yr UKBAP ar wahanol laswelltiroedd i'r ystâd feddal oherwydd ei gysylltiad agos gydag amaethyddiaeth. Tuedda ymylon ffordd i gynnwys tyweirch amrywiaeth-isel o laswelltir wedi ei wella gafodd ei greu gan dechnegau rheoli a chymysgedd hadau. Mae potensial uchel i'r ystâd feddal ddarparu glaswelltir o ansawdd da drwy reolaeth sensitif, a gall bod llawer o laswelltir niwtral o ansawdd da, cyfoethog mewn rhywogaethau, ar yr ystâd feddal.

## Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Darnio, colli a diraddio cynefinoedd*

O fewn y DU, mae ardaloedd mawr o gynefin dolydd yr iseldir wedi eu colli yn sgîl datblygiad. Mae adeiladu ffyrdd wedi cyfrannu tuag at y golled hon, ac mae hefyd wedi gwaethygu problemau darnio ac ynysu. Er y gall ymylon ffordd ddarparu lloches ar gyfer olion olaf y cynefinoedd bregus hyn, mae cynlluniau lledu a gwella ffyrdd yn cyfrannu ymhellach tuag at y golled drwy niweidio'r olion hynny. Yn aml nid yw cynnal yr ystâd feddal yn cael ei wneud mewn modd sy'n ffafriol i'r hyn sydd ei angen ar gynefinoedd glaswelltir. Gellir achosi dirywiad pellach i gynefinoedd yr ystâd feddal gan staff cynnal ffyrdd yn storio deunyddiau neu'n gweithio ar wasanaethau o dan ymylon y ffordd, ac yn sgîl llygredd gan fodurwyr, boed yn ddamweiniol (gollyngiadau) neu'n fwriadol (tipio anghyfreithlon) a thrwy gywasgu'r tir wrth barcio ar ymylon ffordd.

Mae cynefinoedd dolydd yr iseldir yn arbennig o sensitif i nifer o lygrwyr sy'n dod o'r ffordd, yn cynnwys y rhai o allyriadau cerbydau ac ewyn halen. Gall chwynladdwyr a phlaladdwyr o dir amaethyddol cyfagos hefyd achosi dirywiad sylweddol mewn amrywiaeth glaswelltir. Mae natur fregus y cymunedau hyn hefyd yn dibynnu ar lefelau isel maetholion pridd, a bydd mewnbwn maetholion naill ai o wrteithiau neu o allyriadau cerbydau yn cyfrannu tuag at ddatblygu cymunedau llai amrywiol.

## Rheolaeth amhriodol

Mae'r cydbwysedd rhwng rheoli tyfiant prysg a'i dorri'n rhy aml yn un anodd i'w gadw. Heb dorri'n rheolaidd, ac mewn rhai achosion heb fynd â'r toriadau oddi yno, caiff rhywogaethau traddodiadol dolydd yr iseldir eu curo gan laswelltau a llwyni egnïol. Mae ymlediad chwyn a phlanhigion estronol ymledol iawn megis Llysiau'r Gingroen (*Senecio jacobaea*), Ffromlys Chwarennog (*Impatiens glandulifera*) a Chanclwm Japan (*Fallopia japonica*) hefyd yn arwain at oruchafu rhywogaethau glaswellt brodorol.

Bu hadu ymylon ffyrdd gyda chymysgedd o hadau amhriodol yn gyffredin gan fod ymylon yn cael eu hau, hyd yn ddiweddar, gyda chymysgedd glaswelltir amwynderol. Bu hyn, ynghyd â phlannu coed a llwyni trin yn ffactorau pellach i leihau gwerth cadwraeth natur ardaloedd allai fod yn addas ar gyfer creu dolydd yr iseldir.

Gall y defnydd o chwynladdwyr, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae planhigion trin wedi cael eu defnyddio, niweidio dolydd yr iseldir ymhellach os ydynt yn bresennol yn yr ymyl.

## Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae dolydd yr iseldir wedi cael eu nodi mewn nifer o LBAPau a Chynlluniau Gweithredu Ymylon Ffordd Cymreig, ac mae trefniadau rheoli wedi eu dylunio ar gyfer ymylon penodol wedi eu cynhyrchu er mwyn gwneud y gorau o amrywiaeth y planhigion a'r anifeiliaid di-asgwrn-cefn.
- Mae WTRMM wedi nodi ymylon glaswelltir fel cynefinoedd gwerthfawr, ac mae'n datgan y dylid rheoli a gwella eu gwerth cadwraeth natur.
- Mae DMRB yn darparu cyngor ar greu cynefinoedd glaswelltir ar ymylon ffyrdd, naill ai drwy ddethol y cymysgedd priodol o hadau neu drwy drawsleoli glaswelltir.
- Yn Rhaglen Astudio a Gwella Ecoleg yr A55, Ffordd Arfordir Gogledd Cymru, dangoswyd yn arbrofol effeithiau gwahanol dechnegau rheoli ar wahanol fathau o laswelltir.

## Nodau a thargedau'r cynllun

Nod y Cynllun Gweithredu hwn yw cadw a gwella cadwraeth cynefin dolydd yr iseldir o fewn ymylon ffyrdd. Yn benodol:

- amddiffyn, cadw a gwella gwerth cadwraeth cynefinoedd dolydd yr iseldir o fewn yr ystâd feddal;
- osgoi colli rhagor o gynefinoedd dolydd yr iseldir wrth adeiladu ffyrdd ac yn sgîl cynlluniau gwella ffyrdd yn y dyfodol;
- sicrhau bod effeithiau na ellir eu hosgoi ar gynefinoedd dolydd yr iseldir yn cael eu lliniaru'n llawn drwy greu cynefinoedd amgen, neu drwy reoli ymylon priffyrdd cyfagos yn sensitif;
- codi ymwybyddiaeth y rhai sydd ynghlwm wrth ddylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd o werth cadwraethol y cynefinoedd dolydd yr iseldir hyn a darparu gwybodaeth fanwl ar sut i hyrwyddo'r cynefinoedd hyn; a
- gwella ardaloedd addas sy'n bodoli ond nad ydynt yn cynnal cynefinoedd glaswelltir gwerthfawr megis cynefin dolydd yr iseldir ar hyn o bryd.

## Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor.** | |
| Adolygu ac, os oes angen, cyhoeddi canllawiau diwygiedig parthed glaswelltir dolydd yr iseldir yn WTRMM. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Nodi a gwneud arolwg o'r ystâd feddal y gwyddys eu bod yn cynnwys, neu sy'n debygol o gynnwys dolydd yr iseldir, er enghraifft, ardaloedd cyfagos i ardaloedd sylweddol o ddolydd yr iseldir (gan ddefnyddio gwybodaeth arolwg cyfredol glaswelltir y Cyngor Cefn Gwlad), a chofnodi dosbarthiad y cynefin ar y rhwydwaith ar gronfa ddata. | 2008 |
| Nodi ardaloedd o ddolydd yr iseldir o fewn yr ystâd feddal sy'n addas i'w hadfer. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod dolydd yr iseldir gwerthfawr yn cael eu hystyried. Osgoi colli cynefin dolydd yr iseldir yn uniongyrchol lle bynnag y mae hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn raddol, peidio â defnyddio hadau nad ydynt o darddiad lleol neu fioranbarthol. | Cyfredol |
| Lle na ellir osgoi colli cynefin dolydd yr iseldir, dylid rhoi ystyriaeth i greu cynefin dolydd tebyg ar ymyl y ffordd, neu, lle nad oes dewis arall, ei drawsleoli. | Wrth i gynlluniau godi |
| Creu neu adfer chwe safle o ddolydd yr iseldir o fewn ffiniau'r briffordd. | Chwe safle erbyn 2014 |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Sefydlu system i fonitro safleoedd hysbys (yn cynnwys safleoedd newydd eu creu) er mwyn sicrhau bod y rheolaeth yn cael yr effaith bwriedig. Addasu rheolaeth lle mae technegau presennol yn methu. | 2012 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, Asiantau Cefnffyrdd a'r cyhoedd ynghylch pwysigrwydd dolydd yr iseldir. | 2008 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae Cynllun Gweithredu Cynefin UKBAP ar gael ar gyfer Dolydd yr Iseldir.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Pen-y-Bont ar Ogwr, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Sir Gaerfyrddin, Powys, Torfaen a Bro Morgannwg

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Cynlluniau Gweithredu Cynefin ar gyfer Glaswelltir Calchaidd, Glaswellt y Bwla a Phorfeydd Brwyn, Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir a Choetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig. Dylid hefyd ei ystyried o fewn Cynlluniau Gweithredu'r Rhywogaethau canlynol: Brith y Gors, Pysen y Coed a'r Dylluan Wen.


### Sefydliad blaen neu bartner

Nodir yn y UKBAP mai Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw'r Partner Blaen ar gyfer y cynefin hwn.



*Glaswellt y gweunydd a phorfa frwyn*

# Glaswellt y Bwla a Phorfa Frwyn



**Glaswelltir corsog o briddoedd asidig yn bennaf, gyda draeniad gwael yw glaswellt y bwla a phorfa frwyn (a elwir hefyd yn borfa rhos).**

Mae'r cynefin i'w ganfod yn bennaf ar waelodion dyffrynnoedd, ar lethrau a thir comin mewn ardaloedd iseldir lle ceir glawiad uchel. Fe'i nodweddir gan ddigonedd o laswellt y bwla (*Molinia caerulea*) a brwyn tal (*Juncus* sp.), ac mae nifer o rywogaethau prin a gwahanredol (megis glöyn byw Brith y Gors) yn gysylltiedig â'r cynefin hwn gan ei wneud yn adnodd bioamrywiaeth arwyddocaol.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae'r DU yn cynnal canran uchel o adnodd y byd o laswellt y bwla a phorfa frwyn. Nid yw cyfanswm ei ehangder yn y DU yn hysbys ar hyn o bryd, ond mae wedi gweld cryn ostyngiad dros y 40 mlynedd diwethaf. Mae Cymru'n berchen ar gyfran sylweddol o'r adnodd hwn, gydag amcangyfrif o 35,000ha.

- Fe'u rhestrir yn Atodiad 1 Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y Gymuned Ewropeaidd 1992 fel 'Dolydd gwellt y gweunydd ar sialc a chlai'; mae'r enghreifftiau gorau yn y DU wedi eu dynodi yn ACAoedd.
- Nodir glaswellt y bwla a phorfa frwyn yn gynefin UKBAP.
- Mae wedi ei gynnwys yn rhestr y cynefinoedd o brif bwysigrwydd i fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Yng Nghymru, mae 93 SoDdGA wedi eu dynodi am laswellt y bwla a phorfa frwyn, yn cynnwys tua 1,172ha.

### Statws ar y rhwydwaith

Er mai prin yw'r wybodaeth ar safleoedd penodol ar gyfer y cynefin hwn ar y rhwydwaith neu'n agos ato, mae'n debyg o ddigwydd mewn sawl ardal lle mae'r gefnffordd yn rhedeg drwy iseldir Cymru, yn enwedig yn y de a'r gorllewin lle mae'r cynefin yn fwyaf cyffredin.

### Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Colli cynefin a darnio*

Mae glaswellt y bwla a phorfa frwyn yn agored i golli cynefin uniongyrchol ac i ddarnio ac aflonyddu gan gynlluniau ffyrdd newydd. Mae safleoedd tameidiog yn aml yn dioddef dirywiad drwy amharu ar drefniadaeth draenio, tân (yn enwedig mewn tyweirch lle mae glaswellt y bwla'n dominyddu), a thrwy reolaeth draddodiadol yn dod i ben.

*Diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth*

Mae diffyg gwybodaeth o faint ac arwyddocâd cadwraeth natur y cynefin hwn. Yn benodol, mae'r broblem o wahaniaethu rhwng y porfeydd iseldir blaenoriaeth mwy bregus sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau, sydd dan fygythiad arbennig oddi wrth gynlluniau ffyrdd a datblygiadau, a'r cyrion ar yr ucheldir sy'n dlawd o ran rhywogaethau. Mae hyn yn cyfrannu tuag at ddiffyg ymwybyddiaeth o arwyddocâd a breguster y cynefin hwn ymysg y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er bod y sefyllfa'n gwella yn raddol.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae ardaloedd cyfoethog mewn rhywogaethau neu ardaloedd mawr o laswellt y bwla a phorfa frwyn yn aml wedi eu dynodi'n Safleoedd Bywyd Gwyllt lleol (a elwir hefyd yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur).
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cwblhau arolwg Cam II manwl i fesur dosbarthiad ac ansawdd glaswelltir yr iseldir yng Nghymru, yn cynnwys glaswellt y bwla a phorfa frwyn.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw: osgoi colled, darnio a dirywio pellach ar laswellt y bwla a phorfa frwyn; a chynyddu'r wybodaeth am ddosbarthiad a rheolaeth y cynefin ar y rhwydwaith.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu ac, os oes angen, cyhoeddi canllawiau diwygiedig parthed glaswellt y bwla a phorfa frwyn yn WTRMM. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Cynnal arolwg ar yr ystâd feddal sy'n agos at ardaloedd hysbys o gynefin glaswellt y bwla a phorfa frwyn er mwyn sefydlu dosbarthiad y cynefin hwn ar y rhwydwaith. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod y cynefin hwn yn cael ei ystyried, ac osgoi ei golli'n uniongyrchol neu ei ddarnio lle bo hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn raddol, peidio â defnyddio hadau nad ydynt o darddiad lleol neu fioranbarthol. | Cyfredol |
| Lle mae'n anorfod bod cynefin yn cael ei golli, ystyried ailgreu glaswellt y bwla a phorfa frwyn ar ymyl y ffordd neu, lle nad oes dewis arall, ei drawsleoli. | Wrth i gynlluniau godi |
| Gwella neu greu chwe safle erbyn 2014 o fewn ffiniau'r priffyrdd. | Chwe safle erbyn 2014 |

| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
|---|---|
| Sefydlu system gofnodi a monitro safleoedd hysbys (yn enwedig y rhai a nodir fel cynefinoedd glöyn byw Brith y Gors) er mwyn sicrhau cynnal ansawdd ac amrywiaeth. Diwygio rheolaeth pan fo technegau'n methu. | 2012 |

| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
|---|---|
| Cynyddu ymwybyddiaeth staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, Asiantau Cefnffyrdd a'r cyhoedd ynghylch pwysigrwydd Glaswellt y Bwla a Phorfa Frwyn. | 2008 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae gan laswellt y bwla a phorfa frwyn UKBAP. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Bannau Brycheiniog, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Morgannwg, Gwynedd, Gwent, Merthyr Tudful, Parc Cenedlaethol Eryri, Sir Benfro, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Torfaen.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Brith y Gors, Tylluan Wen, Dyfrgi, Llygoden Ddŵr, Amffibiaid a'r Cynllun Gweithredu Cynefin ar gyfer Cyrff Dyfrol.

### Sefydliad blaen neu bartner

Nodir yn yr UKBAP mai Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw'r Partner Blaen ar gyfer y cynefin hwn.



*Nentydd a choetiroedd yr ucheldir*

# Afonydd a Nentydd



**Mae afonydd a nentydd yn cynrychioli systemau cyfoethog a dynamig sy'n gallu creu cynefinoedd newydd a darparu coridorau bywyd gwyllt pwysig, yn enwedig rhwng cynefinoedd wedi eu darnio a thrwy dir amaethyddol dwys sy'n dlawd o ran rhywogaethau.**

Serch hynny, prin yw'r afonydd sy'n dal i fod heb eu haddasu. Gellir addasu afonydd yn uniongyrchol, drwy gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd neu gynlluniau sythu; tra y gall newidiadau yn y defnydd o dir cyfagos addasu afonydd yn anuniongyrchol. O ganlyniad i hyn, effeithir ar eu gallu naturiol i greu cynefinoedd newydd yn aml, tra bod newidiadau yn llif y dŵr, yng nghludiant gwaddod ac mewn cyfnewid maetholion yn gyffredin.

Mae afonydd a nentydd yn cwmpasu mosäig o nodweddion cynefin (er enghraifft creigiau, graean, ardaloedd lleidiog, dŵr yn llifo'n gyflym ac yn araf) sy'n cynnal casgliad amrywiol o blanhigion ac anifeiliaid y glannau. Mae rhywogaethau yn cynnwys rhywogaethau wedi eu hamddiffyn a rhywogaethau blaenoriaeth, yn eu plith: mamaliaid (er enghraifft, Llygod Dŵr a Dyfrgwn); adar (glas y dorlan); pysgod (gwangod); anifeiliaid di-asgwrn-cefn (cimwch yr afon) a phlanhigion. Gall pysgota hamdden fod o gryn bwysigrwydd economaidd mewn rhai dalgylchoedd.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Bu dylanwad dynol eang ar afonydd yn y DU, yn enwedig yn ystod y 1950au a'r 1960au pan gafodd llawer o afonydd eu dyfnhau a'u sythu yn helaeth; tra bod afonydd a nentydd mewn ardaloedd diwydiannol drwy lawer o'r 19 a'r 20 ganrif wedi cael eu llygru'n drwm ac wedi marw yn fiolegol. Mae llawer o'r cynefinoedd hyn yn gwella erbyn hyn yn sgîl deddfwriaeth amgylcheddol gryfach, gwelliannau i ansawdd dŵr a sylweddoli pwysigrwydd afonydd a nentydd. Mae gan Gymru dros 27,000 cilomedr o afonydd a nentydd.

- Mae rhai mathau o afonydd a nentydd wedi eu hamddiffyn dan ddeddfwriaeth Ryngwladol a'r DU, ac mae rhai mathau o afonydd yn gynefin allweddol wedi ei restru dan Gyfarwyddiaeth 'Cynefinoedd' y Gymuned Ewropeaidd 1992.
- Mae llawer o afonydd a nentydd yng Nghymru wedi eu hamddiffyn fel SoDdGA, ACAoedd a Safleoedd Bywyd Gwyllt (anstatudol) (a elwir hefyd yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur) naill ai oherwydd eu bod yn rhedeg drwy ardal ehangach sydd wedi ei hamddiffyn, neu lle mae ganddynt amddiffyniad penodol (er enghraifft, oherwydd lefel uchel yr amrywiaeth neu brinder y rhywogaethau y maent yn eu cynnal).
- Mae gan afonydd a nentydd statws blaenoriaeth yn yr UKBAP.

*Statws ar y rhwydwaith*

Mae'r rhwydwaith yn croesi ac yn rhedeg yn gyfochrog â channoedd o afonydd a nentydd dros Gymru gyfan. Er enghraifft, mae gwelliant yr A487 o Lanwnda i'r de o Lanllyfni yn croesi dros 40 dyfrffos o wahanol feintiau. Mae llawer o'r afonydd a'r nentydd sy'n croesi o dan y rhwydwaith neu'n gyfochrog â'r rhwydwaith yn cael eu hamddiffyn gan ryw lefel o ddynodiad.

### Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Colli cynefin, Darnio a Dirywio*

Mae cynlluniau ffyrdd newydd yn aml yn croesi cwrs afonydd a nentydd o bob maint. Yn aml caiff y rhannau hyn o'r dyfrffyrdd eu harall-gyfeirio a'u hanfon drwy bibau mewn adeiladwaith, a gall hyn amharu ar gydbwysedd yr afon neu'r nant, a gall effeithio ar y rhywogaethau sy'n byw yno. Yn ogystal, gall hyn amharu ar swyddogaeth coridor bywyd gwyllt y cynefin, ac amharu ar y rhywogaethau all fod yn dibynnu ar hwn.

*Llygredd*

Gall hwn fod yn uniongyrchol, h.y. llygredd o ffynhonnell benodol, megis gollyngiadau damweiniol neu dipio anghyfreithlon, neu'n anuniongyrchol, o lygryddion gwasgaredig megis dŵr ffo arwyneb neu ddŵr daear llygredig. Gall llygredd ddigwydd o ganlyniad i'r broses adeiladu ffyrdd (er enghraifft, llaid yn cael ei olchi o gloddiadau pridd); neu pan fydd y ffordd yn cael ei defnyddio wedi hynny, o ddŵr ffo sy'n cynnwys halen y ffordd, gollyngiadau o gerbydau neu ddamweiniau. Pan fydd llygredd yn cyrraedd afon neu nant mae goblygiadau i'r holl ecosystem ddyfrol. Mae hyn yn cynnwys effeithiau ar rywogaethau eraill: pan fo anifeiliaid di-asgwrn-cefn a physgod yn cael eu dihysbyddu, gall hyn effeithio ymhellach ar amrywiaeth eang o rywogaethau sy'n ddibynnol ar ysglyfaeth ddyfrol. Mae arwyddocâd effeithiau llygredd yn dibynnu ar y math o lygredd ac ar sensitifrwydd a nodweddion yr afon neu'r nant dan sylw.

*Rhywogaethau estron ymledol*

Gall rhywogaethau ymledol estron achosi colled sylweddol i fioamrywiaeth drwy wthio rhywogaethau eraill allan dros ardaloedd helaeth a thrwy effeithio ar y ffordd y mae afonydd a nentydd yn gweithredu.
Mae'r rhain yn cynnwys efwr enfawr (*Heracleum mantegazzanium*), Canclwm Japan (*Fallopia japonica*), a Ffromlys Chwarennog (*Impatiens glandulifera*). Mae'r rhywogaethau hyn yn ymledu'n gyflym ar hyd dyfrffosydd, ac mae eu rheoli gyda chwynladdwyr wedi ei gyfyngu i'r rhai sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio yn agos at gynefinoedd dyfrol.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Rhoddir gwarchodaeth i rai afonydd a nentydd fel cynefinoedd pwysig drwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'r DU (er enghraifft, dynodiad SoDdGA neu AGA).
- Yn gynt, cynhyrchodd Asiantaeth yr Amgylchedd Gynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd (LEAPau) ar gyfer yr holl ddalgylchoedd afon yng Nghymru. Darparodd y rhain grynodeb o statws y dalgylchoedd afon gan amlygu rheolaeth gweithredu dros lygredd, gweithiau amgylcheddol, a.y.y.b. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wedi cefnogi datblygiad y LBAPau drwy ddarparu cyngor ar faterion perthynol i ddyfrffosydd.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â gofynion draeniad, yn cynnwys mesurau atal llygredd a rheoli llifogydd, yn ystod cyfnodau dylunio, adeiladu a gweithredu cynlluniau.
- Mae cyllid EU LIFE yn cael ei ddefnyddio i sefydlu gwell dealltwriaeth o ecoleg afonydd a'u rhywogaethau perthynol yn y DU. Ceir manylion y prosiect gan English Nature.
- Mae cynlluniau a gwaith cynnal yn cymryd gofal i leihau, os nad osgoi, effeithiau ar afonydd a nentydd, yn gweithio gyda chyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

- Mae Cyfrol 4 y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio systemau llystyfiannol (er enghraifft, gwelyau cawn) i bwrpas dŵr ffo ffyrdd.
- Mae cyngor ar reoli rhywogaethau estron ymledol ar gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth wedi gweithio mewn partneriaeth gyda thirfeddianwyr cyfagos ac awdurdodau lleol i gael gwared ar blanhigion ymledol ar yr ystâd feddal gerllaw afonydd.
- Ceir canllawiau pellach yn The New Rivers and Wildlife Handbook, a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr NRA, yr RSPB a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ym 1994 (ond sydd allan o brint erbyn hyn).

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- lleihau effeithiau'r rhwydwaith ffyrdd ar afonydd a nentydd ar gyfer datblygu ffyrdd (colled ac aflonyddwch drwy gynlluniau newydd a thrwy gynnal); a
- sicrhau cynnal ansawdd afonydd a nentydd a chynefin glannau afonydd fel cynefinoedd ar eu liwt eu hunain ac fel coridorau bywyd gwyllt.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Ystyried canlyniadau prosiect Life yr UE i gynghori ar faterion rheoli. | Fel y daw ar gael |
| Adolygu a diweddaru os oes angen, ganllawiau sy'n ymwneud ag afonydd a nentydd o fewn WTRMM, yn neilltuol, y modd y mae gwaith cynnal yn cael ei wneud (y defnydd o blaladdwyr, a.y.y.b.). | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Coladu canlyniadau unrhyw arolygon er mwyn cael darlun cliriach o ehangder ac ansawdd cynefinoedd afon/nant ar y rhwydwaith, a chysylltu gyda sefydliadau megis Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn nodi unrhyw faterion perthnasol eraill. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Yn ystod cyfnod dylunio unrhyw gynllun, sicrhau bod dyfrffosydd, yn enwedig y rhai sy'n cynnal rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod, yn cael eu hystyried. Trafod gyda sefydliadau megis Asiantaeth yr Amgylchedd i nodi materion perthnasol, ac osgoi colli cynefin afon yn uniongyrchol (e.e. drwy gylfatu amhriodol). | Wrth i gynlluniau godi |
| Cyn i gynlluniau ffordd gychwyn, cymryd i ystyriaeth faterion draeniad a newidiadau potensial i ddŵr daear, ac unrhyw effeithiau tebygol/potensial ar ddyfrffosydd lleol. | Wrth i gynlluniau godi |
| Cynnal a datblygu rheolaeth llygredd, yn unol ag arfer gorau, er mwyn rhwystro dŵr ffo heb ei drin o ffyrdd a llygredd cerbydau rhag tryddiferu i mewn i ddyfrffosydd cyfagos. | Cyfredol |
| Gweithredu cynlluniau adfer dyfrffosydd lle mae adeiladu ffyrdd wedi aflonyddu ar afon neu nant yn anorfod, lle mae meddiant y tir yn caniatáu. Gweithredu mewn deg lleoliad gwahanol erbyn 2014. | 10 safle erbyn 2014 |

### Ymchwil a monitro yn y dyfodol

| | |
|---|---|
| Monitro cyflwr afonydd a nentydd ar yr ystâd feddal neu'n agos ati er mwyn sicrhau cynnal ansawdd yn dilyn gwelliannau neu waith cynnal mawr lle mae materion penodol y gellir eu nodi sy'n fater pryder i fioamrywiaeth. Lle mae effeithiau sylweddol yn parhau yn dilyn mesurau lliniaru, ystyried a ellir defnyddio mesurau ôl-weithredol. | Wrth i gynlluniau godi |

### Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd

| | |
|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd a breguster cyrff dyfrol a'u rhywogaethau cysylltiedig o fewn y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y gwaith dylunio, adeiladu a chynnal. | Cyfredol |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae Cynllun Gweithredu Cynefin Eang UKBAP ar gyfer Afonydd a Nentydd.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn, Bannau Brycheiniog, Caerffili, Conwy, Merthyr Tudful, Castell-Nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Wrecsam.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Cyrff Dyfrol, Rhywogaethau Dyfrol, Amffibiaid, Ystlumod, Dyfrgi, Llygoden Bengron y Ddŵr, ac Aethnen Ddu Frodorol.

### Sefydliad blaen neu bartner

Mae gan y cynefin hwn Ddatganiad Eang yn yr UKBAP ac nid oes Partner blaen wedi ei nodi.




*Afon Gwy, Powys*



*Sgri ger yr A487*

# Clogwyni a Sgri

**Mae Cymru yn gartref i amrywiaeth eang o gynefinoedd clogwyni, sarnau craig, palmentydd craig, clogfeini caeau a sgri sydd i'w canfod yn yr ucheldir, ardaloedd arfordirol a dyffrynnoedd afonydd. Gellir canfod prif fathau strata creigiau yn y nodweddion gwahanol hyn.**



Mae'r rhan fwyaf o'r nodweddion yn rhai naturiol (er enghraifft, canlyniadau gweithgaredd rhewlifol neu ffinrewlifol), er hynny mae gweithgareddau chwareli ac adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd oll wedi creu nodweddion cynefin o'r fath. Gall y cynefinoedd hyn (yn dibynnu ar eu sefyllfa) gynrychioli rhai o'r cynefinoedd yr aflonyddwyd arnynt leiaf yng Nghymru a'r DU.

Er na cheir llystyfiant trwm ar arwynebedd creigiau, maent yn gartref i amrywiaeth eang o organebau nodedig. Gan nad oes modd i anifeiliaid gyrraedd llawer o'r cynefinoedd hyn, mae clogwyni yn cynnig lloches i rywogaethau sy'n ceisio'r golau ac sy'n sensitif i bori. Mae'r gymuned llystyfiant yn 'gymuned gytrefu' wedi'i dominyddu gan redyn, cennau, mwsoglau, llysiau'r afu a glaswelltau. Mae'r cymunedau sy'n dod yn sefydlog yn dibynnu ar brosesau erydu cyfredol, sefydlogrwydd wyneb y graig, uchder ac wynebwedd. Mae'r cynefinoedd hyn yn neilltuol bwysig ar gyfer is blanhigion. Mae ymchwil ddiweddar hefyd wedi cadarnhau bod ystlumod pedol lleiaf yn defnyddio agennau creigiau.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys clogwyni a sgri mewn ardaloedd mewndirol yn hytrach nag ardaloedd arfordirol.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae'r cynefinoedd hyn i'w cael yn bennaf ym mynyddoedd Gogledd a Chanolbarth Cymru, a rhannau o Loegr a'r Alban. Nid oes data cenedlaethol ar eu dosbarthiad ar gael, er yr ystyrir eu bod yn llawer mwy cyffredin ym mynyddoedd Gogledd Prydain.

- Mae creigiau mewndirol yn Gynefin Eang UKBAP.
- Rhestrir dau ar bymtheg o gynefinoedd creigiau ac ogofâu dan Atodiad 1 Cyfarwyddiaeth 'Cynefinoedd' y Gymuned Ewropeaidd 1992. Mewn geiriau eraill, ystyrir bod eu cadwraeth angen dynodiad ACAoedd. Mae saith o'r rhain i'w cael yn y DU (mae nifer y ACAoedd sydd wedi eu dynodi yng Nghymru ar hyn o bryd i bob cynefin i'w weld mewn bracedi: sgri asidig (2); sgri bôn cyfoethog (1); planhigion mewn agennau ar greigiau asidig (5); planhigion mewn agennau ar greigiau bôn cyfoethog (3); palmentydd calchfaen (0); ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd (2); ac ogofâu môr (5)).

# Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd



*Clogwyni ar yr A470*

*Statws ar y rhwydwaith*

Wrth adeiladu a gwella'r rhwydwaith ffyrdd, gellir creu clogwyni agored a llethrau sgri, yn enwedig pan fydd y ffyrdd yn torri trwodd neu ar argloddiau. Mae'r cynefinoedd hyn felly yn arbennig o debygol o ddigwydd mewn ardaloedd lle mae'r rhwydwaith ffyrdd yn croesi ardaloedd mynyddig. Nid yw ehangder y mathau hyn o gynefin ar y rhwydwaith yn hysbys, ond mae gwaith mewn perthynas â briwlys y calchfaen yn dechrau dangos pwysigrwydd potensial y cynefin hwn.

## Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Darnio a cholli cynefin*

Gall bychander ac unigedd cymharol y cynefin hwn a'i lysdyfiant cysylltiedig effeithio ar wasgariad, atgynhyrchiad a chyfoeth rhywogaethol y cymunedau sy'n bresennol. Gellir colli planhigion gwerthfawr pan fydd trychfeydd newydd yn cael eu creu.

*Rheolaeth amhriodol*

Gall rhywogaethau ymledol megis eithin, coed mêl a bedw, gytrefu wynebau creigiau.

*Llygredd*

Wrth i'r cymunedau ynysig, digyffro hyn ddod yn fwy hygyrch drwy adeiladu ffyrdd, bydd lefelau'r traffig ac felly lefelau llygredd atmosfferig hefyd yn cynyddu. Gall hyn gyfyngu ar dyfiant rhai rhywogaethau, yn enwedig cennau a bryoffytau. Gallai'r cynnydd mewn hygyrchedd hwn hefyd ganiatáu cynnydd yn y defnydd o'r ardaloedd hyn.

## Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae ymchwil wedi ei wneud ar nodweddion cyfansoddiad y llystyfiant ac amrywiaeth y cymunedau creigiol, ac i sefydlu cwadratau monitro hir dymor.
- Mae clogwyni a sgrïau yn cael eu cynrychioli'n dda mewn nifer o NNRau a SoDdGA (Parc Cenedlaethol Eryri).

## Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw codi proffil clogwyni a sgrïau yn nhermau gwerth daearegol a bywyd gwyllt y cynefin a gwneud argymhellion ar sut i reoli'r cynefinoedd hyn er mwyn cynnal eu cyfansoddiad naturiol. Yn benodol:

- coladu cofnodion cymunedau sgri a chreigleoedd o fewn yr ystâd feddal a gwella gwybodaeth am gyfansoddiad eu rhywogaethau;
- ystyried goblygiadau ecolegol colli neu ddarnio cynefinoedd creigleoedd a sgri drwy adeiladu ffyrdd; ac
- wrth ystyried ffyrdd newydd neu wella ffyrdd wrth dorri neu ar argloddiau, ystyried creu cymunedau creigle a sgri, yn seiliedig ar wybodaeth a gesglir mewn gwaith arolygu cyfredol ac yn y dyfodol.



*Clogwyni ar yr A470*

**Gweithredu bwriedig**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu cyngor ac arfer gorau WTRMM yn gyffredinol er mwyn cynnwys cyngor ar reoli cynefinoedd creigleoedd a sgri, yn cynnwys rheolaeth rhywogaethau ymledol, o fewn WTRMM. | 2007 |
| Adolygu'r angen am gyngor yn y DMRB gydag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol y DU. | Dyddiad i'w drefnu |
| **Arolygu** | |
| Fel ran o'r holl arolygon sy'n cael eu gwneud, sicrhau bod lleoliad a gwerth clogwyni a sgrïau yn cael eu hasesu. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod clogwyni a sgri gwerthfawr, yn enwedig cynefinoedd UKBAP a safleoedd wedi eu dynodi, yn cael eu hystyried. Osgoi colli clogwyni a sgri yn uniongyrchol lle mae hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Creu neu adnewyddu deg safle newydd erbyn 2014. | 10 safle newydd erbyn 2014 |
| Ystyried creu wynebau craig gwlyb lle mae materion draenio ffyrdd yn caniatáu, a lle nad yw materion diogelwch ffyrdd yn cael eu cyfaddawdu. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Codi ymwybyddiaeth o werth cymunedau creigleoedd a sgri gyda staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, Asiantau Cefnffyrdd a'r cyhoedd. | Cyfredol |

**Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill**

Dylid ystyried y Cynllun Gweithredu Cynefin hwn law yn llaw gyda Datganiad Cynefin Eang yr UKBAP ar gyfer Creigiau Mewndirol.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Bannau Brycheiniog, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Rhondda Cynon Taf, Eryri, Torfaen.


**Sefydliad blaen neu bartner**

Mae gan y cynefin hwn Ddatganiad Eang yn yr UKBAP ac nid oes partner blaen wedi ei nodi.



*Llyn Mesotroffig, Llyn Tegid*

# Cyrff Dyfrol



**Mae'r Cynllun Gweithredu Cynefin hwn yn cynnwys yr holl gyrff dyfrol llonydd a thonnog all ddigwydd ar yr ystâd feddal neu'n agos ati.**

Mae'r cynllun yn trafod dau wahanol fath o gyrff dyfrol:

1) Camlesi, llynnoedd, pyllau a gwelyau cawn sydd i gyd yn gynefinoedd pwysig i sbectrwm amrywiol o ffawna a fflora, yn cynnwys nifer o rywogaethau sy'n cael eu gwarchod a rhywogaethau blaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys: mamaliaid megis ystlumod, llygod dŵr a dyfrgwn; adar megis boda'r wern, aderyn y bwn a'r gylfinir, amffibiaid, y gwyniad prin (pysgodyn), anifeiliaid di-asgwrn-cefn megis mursen y de a llu o blanhigion gwlyptir ac is blanhigion.

2) Llynnoedd cydbwyso, ffosydd a morlynnoedd anheddu sy'n perthyn i system ddraenio'r rhwydwaith cefnffyrdd. Prif swyddogaeth y rhain yw trin neu storio dŵr ffo o'r ffyrdd. Er eu bod yn annhebygol o gael eu rheoli ar gyfer bywyd gwyllt, caiff y cyrff dyfrol hyn yn aml eu cytrefu gan amrywiaeth o rywogaethau all fod â rhyw werth cadwraethol.

Trafodir aberoedd ar wahân yn y Cynllun Gweithredu Arfordirol ac Aberol.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Credir bod 125 cilomedr$^2$ o ddŵr llonydd mewndirol yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod 40% ohono yn ewtroffig (cymharol gyfoethog o ran maetholion). Mae Cymru'n cynnal amcangyfrif o 500ha o welyau cawn gyda chrynoadau sylweddol yn Ynys Môn, Pen Llŷn ac o gwmpas arfordir Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe/Castell-Nedd Port Talbot/Pen-y-Bont ar Ogwr. Ceir nifer fawr o byllau mewn siroedd yng Ngogledd Cymru. Gall pyllau mawn ym Mhowys (Sir Faesyfed) gynnal rhywogaethau nodedig megis Berdys Gwisgi (*Chirocephalus diaphanus*) a Phelenllys (*Pilularia globulifera*).

- Mae Dŵr Llonydd Agored a Chamlesi yn Gynefin Eang y DU.
- Mae nifer o ardaloedd arwyddocaol o welyau cawn yn SoDdGA.
- Cysylltir 300 o rywogaethau sy'n brin yn genedlaethol gyda chyrff dyfrol, llawer ohonynt yn Rhywogaethau Blaenoriaeth y DU.
- Gall ardaloedd gwlyptir mawr gael eu dynodi'n safleoedd Ramsar.
- Mae llynnoedd mesotroffig, dŵr llonydd ewtroffig a chyrff dyfrol naturiol donnog a fwydir gan y ddyfrhaen wedi eu cynnwys yn rhestr y cynefinoedd o brif bwysigrwydd i fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.



*Storfa lifogydd Afon Ganol ar yr A55*

### Statws ar y rhwydwaith

Mae mathau'r cyrff dyfrol UKBAP sydd i'w canfod yn fwyaf cyffredin ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru, neu'n agos ato yn cynnwys gwelyau cawn (e.e. yr A30 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Caerfyrddin a'r A55 Afon Ganol, gerllaw gwarchodfa'r RSPB yng Nghonwy), a dŵr llonydd ewtroffig, ynghyd â chyrff dyfrol llai sydd wedi eu llunio ar gyfer eu swyddogaethau trin dŵr ffo o'r ffyrdd. Fodd bynnag, nid yw ehangder a dosbarthiad llawn cyrff dyfrol ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn hysbys ar hyn o bryd.

### Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin

*Colli cynefinoedd a dirywiad*

Gall adeiladu ffyrdd effeithio ar gyrff dyfrol pwysig drwy golled uniongyrchol a darnio'r cynefin, a hefyd yn anuniongyrchol, drwy newid draeniad neu lefelau dŵr daear. Gall ffyrdd presennol a ffyrdd newydd lygru cyrff dyfrol cyfagos. Gall hyn fod yn ffynhonnell-benodol (uniongyrchol) neu'n dryledol (anuniongyrchol) a gallai ddigwydd drwy'r broses adeiladu, neu yn sgîl cerbydau'n defnyddio'r ffordd wedi hynny.

*Rheolaeth amhriodol neu esgeuluso*

Lle mae cyrff dyfrol yn yr ystâd feddal dan reolaeth wael, gallant fod yn agored i lifogydd, i sychu, i lechfeddiant gan lwyni a dilyniaeth at goetir. Wrth ystyried rheolaeth nodweddion sydd â'u prif swyddogaeth i fod yn rhan o'r system i drin dŵr ffo o'r ffyrdd, dylai eu gallu i ddelio gyda hwnnw barhau'n bennaf, tra'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bywyd gwyllt berthnasol.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Rhoddir gwarchodaeth i lawer o gyrff dyfrol, yn enwedig wrth gefnogi poblogaethau sylweddol o rywogaethau blaenoriaeth, a hynny drwy ddynodiadau statudol (SoDdGA, Ramsar, SPA neu ACA), neu drwy ddynodiadau an-statudol fel 'Safle Bywyd Gwyllt' (a elwir hefyd yn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur).
- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn monitro ansawdd canran o ddŵr agored llonydd yn rheolaidd er mwyn gwirio am arwyddion llygredd a chyfoethogiad maetholion.
- Adeiladir ffyrdd gyda'r mesurau rheoli llygredd priodol sy'n lleihau effeithiau dŵr ffo arwynebol a llygredd sy'n berthynol i'r ffyrdd, yn ystod y gwaith o adeiladu ac wrth i'r ffordd gael ei defnyddio.
- Mae'r Asiantaeth Priffyrdd yn parhau gyda rhaglen ymchwil ar arwyddocâd dŵr ffo o ffyrdd/llygredd ar gyrff dyfrol.
- Mae Cyfrol 4 y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio systemau llystyfiannol (er enghraifft, gwelyau cawn) i bwrpas dŵr ffo ffyrdd.
- Ceir canllawiau pellach yn *The New Rivers and Wildlife Handbook*, a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr NRA, yr RSPB a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ym 1994 (ond sydd allan o brint erbyn hyn).

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu Cynefin hwn yw gwarchod cyrff dyfrol ar yr ystâd feddal neu'n agos ati, yn ogystal â gweithredu cynlluniau rheoli priodol ar eu cyfer.

## Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu a diweddaru, os oes angen, ganllawiau yn WTRMM ar reoli cyrff dyfrol ar yr ystâd feddal. | 2007 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod cyrff dyfrol gwerthfawr, yn enwedig cynefinoedd UKBAP a safleoedd dynodedig, yn cael eu hystyried. Osgoi colli cyrff dyfrol yn uniongyrchol lle bynnag y mae hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn ystod cyfnod dylunio ac adeiladu, cymryd i ystyriaeth effeithiau anuniongyrchol draeniad neu newidiadau i ddŵr daear ar gyrff dyfrol cyfagos. | Wrth i gynlluniau godi |
| Gwneud gwaith pellach ar greu pyllau/gwelyau cawn i bwrpas bioamrywiaeth, cors gan lunio un llyn neu wely cawn bob blwyddyn. | 10 pwll/gwely erbyn 2014 |
| Gwella amddiffyniad dŵr ffo o ffyrdd mewn cynlluniau sy'n bodoli eisoes neu mewn gwelliannau i gynlluniau wrth i'r cyfle godi a/neu pan fo'r angen yn codi yn dilyn asesiadau risg gan wneud un cynllun y flwyddyn. | 10 cynllun erbyn 2014 |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Sefydlu system i goladu cofnodion digwyddiadau llygredd a monitro'r effaith ar gyrff dyfrol. | 2009 ac yn Gyfredol |
| Monitro cyflwr cyrff dyfrol ar yr ystâd feddal neu'n agos ati er mwyn sicrhau cynnal ansawdd yn dilyn gwelliannau neu waith cynnal mawr lle mae materion penodol y gellir eu nodi sy'n fater pryder i fioamrywiaeth. Lle mae effeithiau sylweddol yn parhau yn dilyn mesurau lliniaru, ystyried a ellir defnyddio mesurau ôl-weithredol. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a breguster cyrff dyfrol a'u rhywogaethau cysylltiol o fewn y sefydliadau sydd â rhan yn y gwaith o ddylunio, adeiladu a chynnal. | Cyfredol |

## Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Dylid ystyried y Cynllun Gweithredu Cynefin hwn law yn llaw gyda'r rhai ar gyfer Afonydd a Nentydd, Glaswellt y bwla a phorfa frwyn, Amffibiaid, Rhywogaethau Dyfrol, Ystlumod, Dyfrgi a'r Llygoden Ddŵr.

Mae cyrff dyfrol penodol yn gynefinoedd LBAP ar gyfer mwyafrif awdurdodau lleol Cymru.

## Sefydliad blaen neu bartner

Mae gan y cynefin hwn Ddatganiad Eang yn yr UKBAP ac nid oes Partner Blaen wedi ei nodi.



*Coed derw'r ucheldir*



# Coetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig

**Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn gyfrifol am yr holl goed a llwyni o fewn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd ac yn ogystal â hynny, mae'n gyfrifol am sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffyrdd mewn perthynas â choed ar dir cyfagos.**

O'i gymharu â gweddill Ewrop, dim ond canran fechan o dir Prydain sy'n goediog (o gwmpas 800,000 ha), a dim ond rhyw 300,000 ha sy'n goedwig hynafol lled-naturiol (hynny yw, coetiroedd sydd wedi bodoli ers cyn 1600). Mae gweddill yr ardaloedd yn cynnwys coedwigoedd lled-naturiol diweddar a choedwigoedd planhigfeydd o wahanol fathau, yn cynnwys rhywogaethau llydan-ddeiliog a chonifferaidd. Tuedda coetiroedd hynafol i fod yn fwy amrywiol o ran strwythur ac yn fwy cyfoethog eu bioamrywiaeth na'r coetiroedd mwy diweddar.

Mae coetiroedd yn gynefinoedd pwysig ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt. Mae coetiroedd llydan-ddeiliog yn nodedig am yr amrywiaeth o blanhigion ar haen y tir, megis clychau'r gog. Yn ogystal, mae'r amodau llaith yn rhan orllewinol y DU yn darparu amodau delfrydol ar gyfer tyfu cymunedau o is blanhigion, ffyngau ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn pren marw sy'n bwysig yn rhyngwladol. Yn yr un modd mae mamaliaid, adar ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn ffynnu mewn coetiroedd, yn cynnwys pathewod, ystlumod, nyddwyr a gloÿnnod byw prin.

Mae coed hynafol yn bwysig fel nodweddion cynefin a thirlun ynddynt eu hunain, ond hefyd fel cynefin ar gyfer amrywiaeth eang o organebau. Ymhlith enghreifftiau o'r rhain mae'r cennau sy'n tyfu yn araf, anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n dibynnu ar ruddin sy'n pydru, ac anifeiliaid sy'n dibynnu ar graciau a thyllau i epilio neu i aeafgysgu (megis adar ac ystlumod). Mae oedran, maint, gwerth diwylliannol a statws ecolegol i gyd yn cyfrannu tuag at bennu a yw coeden yn hynafol ai peidio.

Mae coed a llwyni ar ochr y ffordd yn rhan bwysig o amgylchedd ochr y ffordd. Plannwyd coed a llwyni yno i helpu lleihau effaith gweledol y ffordd ac i helpu i integreiddio'r ffordd gyda'r tirlun o'i chwmpas. Gallant greu amgylchedd mwy pleserus ar gyfer y gyrrwr drwy, er enghraifft, greu ochrau ffordd mwy diddorol a lleihau tanbeidrwydd goleuadau sy'n dod tuag atynt, ac yn y ffordd yma gallant leihau undonedd a phwysau gyrru.

Gall bywyd gwyllt elwa yn sgîl plannu newydd ar ochr y ffordd, gan fod hyn yn creu cynefinoedd potensial ar gyfer pryfed, mamaliaid bach ac adar. Mae cadw coed sy'n bodoli eisoes o fewn yr ystâd feddal yn dod â manteision pellach i fioamrywiaeth: mae coed hynafol a choed aeddfed yn cynnig safleoedd clwydo ar gyfer ystlumod, cynefinoedd ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin a ffyngau, cartref ar gyfer mamaliaid megis gwiwerod coch a phathewod, a mannau i lawer o adar sydd wedi eu gwarchod gael nythu.

# Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd



*Coetir a reolir ar ymyl y ffordd*

Gall rhai anifeiliaid ddefnyddio'r hyn a blanwyd fel coridorau a chysylltiadau rhwng cynefinoedd all fod wedi eu torri gan lwybr y ffordd, neu eu darnio gan ddatblygu lleol. Mae hyn yn neilltuol bwysig mewn perthynas â rhywogaethau coedwig megis y pathew, sy'n anaml iawn yn mentro ar draws tir agored.

## Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

- Cydnabyddir pwysigrwydd rhyngwladol coetiroedd llydan-ddeiliog drwy Gyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y Gymuned Ewropeaidd 1998, gyda saith math o goedwig wedi eu rhestru dan Atodiad 1 y Gyfarwyddeb.
- Mae amrywiaeth o fathau coedwig wedi eu cynnwys yn rhestr y cynefinoedd o brif bwysigrwydd i fioamrywiaeth Cymreig dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn cynnwys coetiroedd derw yr ucheldir, coetiroedd ffawydd ac ywen yr iseldir, coetiroedd ynn cymysg yr ucheldir, coetiroedd tir gwlyb, parciau a phorfeydd coediog, coedlan gollddail yr iseldir, a choedlan fedw yr ucheldir. Mae'r rhain wedi eu cynnwys dan y categori Eang, Coetiroedd llydan-ddeiliog, cymysg ac yw.
- Mae Cynlluniau Gweithredu Cynefin wedi eu paratoi yn yr UKBAP ar gyfer nifer o wahanol fathau o goetiroedd lled-naturiol hynafol: Coetiroedd ffawydd ac ywen yr iseldir; Parciau a phorfeydd coediog yr iseldir; Coetiroedd ynn cymysg yr ucheldir; Coetiroedd derw yr ucheldir; a Choetiroedd tir gwlyb.
- Mae coetiroedd conifferaidd / coetiroedd pinwydd brodorol hefyd yn Gynefinoedd Blaenoriaeth Eang UKBAP, ond nid ydynt wedi eu cynnwys ar Restr Adran 74.

Mae coetiroedd yn gorchuddio o gwmpas 14% o Gymru, ac maent yn cynnwys y mathau canlynol o gynefinoedd UKBAP:

Coetiroedd llydan-ddeiliog, cymysg ac yw – i'w gweld ledled Cymru. Mae'r math hwn, sy'n Gynefin Eang UKBAP, yn cynnwys pob clwstwr o goed llydan-ddeiliog ac yw a chlystyrau conifferaidd lle mae dros 20% o'r gorchudd yn cynnwys coed llydan-ddeiliog ac yw. Mae hefyd yn cynnwys darnau o brysg dros 0.25ha sy'n ffurfio canopi parhaus. Mae ardaloedd o goetiroedd llydan-ddeiliog sydd newydd eu cwympo hefyd wedi eu cynnwys yn y math hwn, ynghyd â nodweddion cyfannol coetiroedd megis llennyrch a rhodfeydd.

Ceir coedlan gollddail yr iseldir ar bob math o bridd ac mae'n gorchuddio amrywiaeth eang o ddiddordebau botanegol. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cael eu dominyddu gan yr Onnen, y Fasarnen Fach, Bresych y Cŵn; Derw (*Quercus robur*), Rhedyn a Mieri; a Derw (*Quercus* sp.) a Bedwen. Mae'n gorchuddio tua 15% o'r holl goetiroedd llydan-ddeiliog brodorol yng Nghymru, ac fe'i ceir yn bennaf yn ne Cymru ac ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Coetiroedd tir gwlyb – mae'r rhain i'w cael ar briddoedd gyda draeniad gwael neu briddoedd tymhorol wlyb, ac fe'u nodweddir gan ddigonedd o goed gwern (*Alnus glutinosa*), helygen (*Salix* sp.) neu fedw (*Betula* sp.). Mae coetiroedd tir gwlyb wedi eu canoli ar lethrau a llwyfandir ledled Cymru ac maent yn neilltuol o agored i effeithiau draeniad a halogiad dŵr daear. Mae Cymru'n berchen ar tua 10% (tua 5,000 i 7,000 ha) o adnodd y DU o'r math hwn o goetir.

Coetiroedd ffawydd ac ywen yr iseldir. Ystyrir bod coed ffawydd yn frodorol yn ne Lloegr a de Cymru. Mae'r coetir hwn i'w ganfod yn nodweddiadol ar frigiadau calchfaen o fewn ardaloedd yr hen Went a Morgannwg. Amcangyfrifir bod tua 3,000 ha o'r adnodd hwn yng Nghymru.



*Coetiroedd ffawydd ac yw yr iseldir*

Coetiroedd derw yr ucheldir – nodweddir y rhain gan dra-niferedd coed derw (sesil yn fwyaf cyffredin, ond coesynnog yn lleol) a choed bedw yn y canopi, gyda niferoedd amrywiol o gelyn, cerdinen a chollen fel y prif rywogaethau isdyfiant. Mae coetiroedd derw yr ucheldir yn ffurfio tua hanner gorchudd coetir lled-naturiol yng Nghymru ac fe'u ceir yng ngogledd a gorllewin Cymru. Mae'r cynefin hwn i'w weld ledled gogledd a gorllewin y DU; yng Nghymru ar briddoedd asidig lle mae lefel uchel o lawiad. Mae casgliadau mawr yng Ngwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Powys, Ceredigion a gogledd Sir Gaerfyrddin. Yr amcangyfrif gorau parthed ehangder y cynefin hwn yw rhwng 80,000 a 110,000 ha.

Coetiroedd ynn cymysg yr ucheldir – mae'r rhain yn niferus yn ucheldir Prydain, ond gellir canfod y cynefin hwn ar uchderau isel hefyd. Defnyddir y term i ddisgrifio coedwigoedd ar briddoedd bôn-gyfoethog yn y gogledd a'r gorllewin, gydag ynn yn brif rywogaeth yn y rhan fwyaf ohonynt, er y gall derw, bedwen, llwyfen, leimwydden deilen fechan a hyd yn oed collen fod y rhywogaeth mwyaf niferus yn lleol. Gall yr ynn ffurfio llennyrch bychan mewn mosaigau clos gyda'r rhywogaethau coed mawr eraill a gall coed gwern ymddangos lle ceir trosiannau i goetiroedd tir gwlyb. Er gwaethaf amrywiadau yng nghyfansoddiad y canopi, mae'r fflora ar y ddaear yn aros yn ddigon tebyg. Maent wedi eu crynhoi yn ardaloedd calchfaen Cymru, yn cynnwys Conwy, Sir Fynwy, Abertawe a de ddwyrain Sir Gaerfyrddin. Amcangyfrifir bod 17,000 ha o'r adnodd hwn yng Nghymru, neu tua 25% o gyfanswm adnodd y DU.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Mae mwyafrif y coetiroedd o fewn yr ystâd feddal yn deillio o gynlluniau plannu diweddar. Nid yw ehangder y coed a'r llwyni brodorol a blannwyd ar y rhwydwaith gefnffyrdd a thraffyrdd yn hysbys, ond gyda gwell technegau rheoli gwybodaeth, mae'r wybodaeth yn dod yn fwy cywir.

Mae nifer o ardaloedd planedig yn cynnwys niferoedd amrywiol o goed conifferaidd egsotig gafodd eu cyflwyno oherwydd eu bod yn tyfu'n gyflym ac yn darparu swyddogaeth sgrinio drwy gydol y flwyddyn. Serch hynny, mae coetiroedd llydan-ddeiliog yn gymharol gyffredin ar yr ystâd feddal: ar y cyfan mae iddynt fwy o werth bioamrywiol na choetiroedd sy'n cynnwys rhywogaethau conifferaidd yn rhannol neu'n gyfangwbl. Gall rhai ardaloedd coetir llydan-ddeiliog fod yn olion coetiroedd sy'n hŷn na'r ffordd ei hun.

Gall coetiroedd derw yr ucheldir fodoli'n gyfagos i'r rhwydwaith cefnffyrdd (e.e. yng Ngwynedd) ac mewn rhai llefydd mae'r coetiroedd hyn wedi cael eu hymgorffori'n rhan o ymyl y ffordd. Mewn rhannau mae coed wedi tyfu dros y ffordd gerbydau i ffurfio coridor bywyd gwyllt ar gyfer rhywogaethau sy'n byw mewn coed (megis y pathew). Mae'n debygol fod cefnffyrdd yn torri ar draws nifer o goetiroedd ynn cymysg yr ucheldir. Gall coetiroedd tir gwlyb barhau yn gyfagos i gefnffyrdd os na fu unrhyw newidiadau hydrolegol o ganlyniad i adeiladu'r ffordd. Mae coetiroedd ffawydd yr iseldir yn debyg o fod ar hyd ymylon ffyrdd yn ne ddwyrain Cymru.



*Coetiroedd ynn cymysg yr ucheldir*

**Ffactorau presennol sy'n effeithio ar y cynefin**

*Colli cynefin a darnio*

Gall adeiladu ffyrdd newydd arwain nid yn unig at golli cynefin coetiroedd, ond gall hefyd achosi darnio ac ynysu coetiroedd. Gall cynlluniau lledu ffyrdd neu wella ffyrdd hefyd arwain at golli coed a llwyni yn agos neu o fewn ymyl y ffordd.

Gall gwaith cynnal sy'n cael ei wneud (er enghraifft) i gynnal neu i drwsio gwasanaethau pibellau a cheblau hefyd arwain at niweidio'r coed a'r llwyni ar ymyl y ffordd. Mae gofal yn cael ei gymryd fel arfer i osgoi difrod i goed aeddfed, ond gellir niweidio llwyni a choed ifanc, gan ddarparu coed yn eu lle pan fo hynny'n ymarferol bosibl.

*Rheolaeth amhriodol*

Canfyddir coed yn aml fel bygythiad i ddiogelwch y ffyrdd, yn enwedig lle mae adfywhad naturiol wedi digwydd yn agos i'r briffordd, a gellir eu cwympo neu eu trin. Ar hyn o bryd caiff deunydd pren ei sglodi a'i symud o'r safle, er y gellir gadael pren diamedr bychan mewn rhesi ar ymyl y ffordd, lle mae hynny'n ddiogel. Efallai y bydd angen symud pren marw am resymau diogelwch, neu gellir ei symud oherwydd 'taclusrwydd' lle nad yw diogelwch yn ffactor, gan leihau gwerth y coed hynny i fywyd gwyllt.

Gall ceirw a chwningod yn pori heb reolaeth, a stripio rhisgl gan wiwerod llwyd niweidio coed unigol, gan effeithio ar strwythur coetiroedd a chyfansoddiad rhywogaethau drwy rwystro tyfiant newydd coed a llwyni lle nad oes gwarchodaeth wedi ei osod.

Gall rhywogaethau estron megis Rhododendron (*Rhododendron ponticum*) a Derwen Twrci (*Quercus cerris*), os na chânt eu rheoli, ymledu ar hyd ac i mewn i ymyl y ffordd gan fygwth datblygiad fflora a ffawna coetiroedd gwerthfawr.

*Problemau sy'n effeithio ar goed aeddfed ar ochr y ffordd*

Yn fwy nag unrhyw gynefin arall ar yr ystâd feddal, gall coed hŷn ac aeddfed achosi'r problemau mwyaf o ran eu rheoli. Lle mae coed yn achosi perygl i ddefnyddwyr y ffordd, mae angen delio â hwy gyda thriniaeth coed drylwyr neu drwy eu cwympo. Mae gan hyn oblygiadau amlwg i werth coed ar ymyl y ffordd, y cynefinoedd y maent yn rhan ohonynt a'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt.

Mae coed marw mawr sy'n sefyll yn gynefin pwysig i rai anifeiliaid di-asgwrn-cefn a ffyngau coed marw, ond gallant fod yn beryglus pan fyddant yn agos at ymyl y ffordd. Mae coed marw ar y llawr (wedi syrthio neu gael eu cwympo) yn nodwedd cynefin pwysig arall. Gellid gadael y ddau fath o goed yn eu lle (neu mewn lle arall o fewn ymyl y ffordd), os nad yw diogelwch a pheryglon tân yn ffactor: serch hynny, oherwydd y canfyddiad fod coed marw yn 'hyll' neu'n 'anniben', caiff y cynefin hwn ei symud yn aml, a hynny yn ddianghenraid.

*Problemau sy'n effeithio ar goed a llwyni brodorol*

Gall plannu'r tirlun, lle cafodd rhywogaethau heb fod yn frodorol eu defnyddio, arwain at sefydlu'r rhywogaethau hyn nes eu bod yn dominyddu'r rhywogaethau coed a llwyni brodorol lleol.

Lle mae coed a llwyni wedi cael eu plannu heb ystyried ecoleg y cynefin o'u cwmpas (er enghraifft, anghenion rhywogaethau bywyd gwyllt lleol), gall y plannu mewn gwirionedd fod yn niweidiol (e.e. gall plannu'n eang leihau'r cynefin sydd ar gael i ymlusgiaid; neu gall coetir tal a thrwchus leihau'r glaswelltir sydd ar gael i'r dylluan wen gael hela).

**Gweithredu ar hyn o bryd**

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu strategaeth ar gyfer rheoli coed a choetiroedd dros y 50 mlynedd nesaf 'Coetiroedd i Gymru 2001'. Dyma'r cam cyntaf tuag at integreiddio'n llawn rôl coetiroedd mewn polisi amgylcheddol ac economaidd ehangach i Gymru. Ei hamcanion yw: cadw a gwella bioamrywiaeth ein coetiroedd; cadw a gwella tirlun Cymru; ac integreiddio coetiroedd yn well gyda rheolaeth cefn gwlad arall.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar hyn o bryd yn cwblhau arolwg ar faint yr ardaloedd coetir presennol. Nid yw hyn yn cynnwys coetiroedd ar ymylon ffyrdd.
- Mae nifer o goetiroedd yng Nghymru wedi eu dynodi dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu'r DU (er enghraifft ACAoedd neu SoDdGA), yn aml ar gyfer y rhywogaethau sy'n byw ynddynt: mae gan eraill ddynodiadau lleol anstatudol, er enghraifft, fel 'Safleoedd Bywyd Gwyllt'.
- Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cyflwyno grantiau wedi eu targedu'n benodol at wella bioamrywiaeth coetiroedd.
- Mae'r Fenter Coedwigaeth (FE) ar hyn o bryd yn cynnal arolwg ar yr holl goetiroedd hynafol o fewn ystadau FE yng Nghymru er mwyn pennu cyflwr y coetiroedd hynafol lled-naturiol a'r coetiroedd ailblanedig, ac i hysbysu adfer planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol i rywogaethau coed brodorol.
- Mae Coed Cymru yn hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy coed caled Cymreig, sy'n cynnwys cynnal eu gwerth i fywyd gwyllt.
- Mae gan bob cynllun newydd ardaloedd o goed a llwyni naill ai wedi eu cadw neu wedi eu plannu o'r newydd o fewn eu cynigion, lle bo hynny'n briodol.
- Mae llawer o'r gwaith cynnal coed a llwyni ar ymyl y ffordd yn golygu symud coed peryglus neu dorri llystyfiant i lawr er mwyn clirio llinellau golwg i ddefnyddwyr ffyrdd, darparu mynediad a chael gwared ar beryglon tân. Mae cyngor yn WTRMM hefyd yn trafod Gorchmynion Cadw Coed, clwydi ystlumod, nythod adar a choed o fewn ardaloedd o ddiddordeb cadwraethol.
- Mae cyngor ar blannu a rheoli cynefin coetir a phrysg ar ymylon ffordd yn cael ei baratoi ar gyfer ei gynnwys yng Nghyfrol 10 y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd.
- Ar yr A470, mae cynllun peilot i gasglu hadau gan goed sydd i gael eu symud, yn tyfu planhigion i'w gosod yn eu lle.



*Coetiroedd gwlyb*

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- nodi presenoldeb cynefinoedd coetir yr UKBAP o fewn y rhwydwaith;
- osgoi colli rhagor o gynefinoedd coetir ar hyd ymylon ffyrdd;
- lliniaru'r golled anochel o gynefin coetir;
- cynnal a gwella'r coetiroedd sy'n bodoli eisoes o fewn yr ystâd feddal;
- gwneud y mwyaf o fioamrywiaeth o fewn coetiroedd; a
- chadw coed, llwyni a'u cynefin cysylltiedig sy'n bodoli eisoes ar ymyl y ffordd, lle nad yw hyn yn gwrthdaro â diogelwch y ffyrdd neu ffactorau ecolegol eraill megis gofynion rhywogaethau bioamrywiaeth, neu lle mae gofyniad statudol i gynnal coed mewn ffordd arbennig.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu'r WTRMM, ac os oes angen, diweddaru canllawiau i ddarparu gwybodaeth fanwl ar reolaeth briodol coetiroedd, coed hynafol a phlaniadau ymyl y ffordd o fewn ac yn agos at ymylon ffyrdd er mwyn gwneud y gorau o fioamrywiaeth. Cynnwys yn hwn y defnydd o blannu tirlun er mwyn creu coridorau a chysylltiadau rhwng mathau cynefin sy'n bodoli eisoes. | 2004 a 2007 |
| **Arolygu** | |
| Adolygu gwybodaeth bresennol ar leoliad coetiroedd yr UKBAP o fewn y rhwydwaith, yn cynnwys Rhestrau Cynefinoedd Blaenoriaeth a Choetiroedd Hynafol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a data adolygu Menter Coedwigaeth. | 2008 |
| Sicrhau bod arolygon presennol ac arolygon dan Arolwg GAP yn rhoi ystyriaeth lawn i ardaloedd planedig/coetiroedd a choed aeddfed/hynafol yn y rhwydwaith. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod coetiroedd a choed gwerthfawr, yn enwedig cynefinoedd UKBAP a safleoedd wedi eu dynodi, yn cael eu hystyried. Osgoi colli cynefinoedd coetir gwerthfawr a choed unigol yn uniongyrchol lle mae hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Gwarchod cynefin presennol a chynefin cadw yn ystod gweithgaredd adeiladu drwy ddefnyddio ffensio priodol a thrwy beidio â phentyrru deunydd adeiladu yn yr ardaloedd hyn. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle nad oes modd osgoi colli coetiroedd, ystyried opsiynau i liniaru a gwella, yn cynnwys ymestyn ardaloedd o goetir presennol, neu gynyddu cysylltiadau gydag ardaloedd coetir eraill drwy ddefnyddio plannu brodorol. Dylid ystyried trawsleoli fel y dewis olaf yn unig. | Wrth i gynlluniau godi |

| | |
|---|---|
| Cyn cynnal gwaith rheoli ar ardaloedd planedig presennol, nodi'r ardaloedd hynny allai elwa yn sgîl mesurau gwella. Gweler y cam ar wella isod. | Cyfredol |
| Annog plannu coed a llwyni ychwanegol mewn ardaloedd planedig presennol er mwyn gwella'r cymysgedd rhywogaethau a strwythur oedran, i ymestyn ardaloedd o goetir presennol neu i gysylltu cynefinoedd coetir gwerthfawr. | 50 safle erbyn 2010 |
| Defnyddio rhywogaethau brodorol yn unig wrth blannu a lle mae hynny'n bosibl, defnyddio stoc o darddiad lleol, gan sicrhau bod y rhywogaethau a ddefnyddir yn gyffredin ac wedi eu dosbarthu yn 'naturiol'. Os yn briodol, ystyried tyfu o hadau o safleoedd penodol. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Monitro coed aeddfed presennol wrth ochr ffyrdd newydd/wedi eu gwella er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn parhau'n iach, a phennu a yw'r ffordd neu'r gwaith o'i adeiladu wedi effeithio'n niweidiol arnynt. | Cyfredol |
| Asesu ardaloedd sydd wedi eu plannu o'r newydd parthed eu tyfiant/iechyd. | Cyfredol |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Codi ymwybyddiaeth o fewn staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ac Asiantau Cefnffyrdd o werth cynefinoedd coetiroedd UKBAP ar y rhwydwaith, er enghraifft drwy ddefnyddio hyfforddiant mewnol. Gweler y GAP Addysg ac Ymwybyddiaeth. | Cyfredol |
| Sicrhau bod staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ac Asiantau Cefnffyrdd sy'n cymryd rhan mewn rheolaeth ymylon ffyrdd yn ymwybodol o unrhyw ddiweddaru i WTRMM parthed rheoli coetiroedd. | 2004/2008 |
| Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth coed a llwyni brodorol i fywyd gwyllt, er enghraifft drwy ddefnyddio cyhoeddiadau (mewnol ac allanol). | 2006 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Maer nifer o wahanol gynefinoedd UKBAP sy'n ymwneud â choetiroedd. Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae'r Cynllun Gweithredu Cynefin ar gyfer Nodweddion Ffiniol, a'r Cynlluniau Gweithredu Rhywogaeth ar gyfer yr Aethnen Ddu, Clychau'r Gog, Pathewod, Ystlumod a'r Gwyfyn Cliradain Gymreig. Mae gan Gynllun Cenedlaethol Cadwraeth Gloÿnnod Byw Gynllun Gweithredu ar Goetiroedd fel cynefin i gloÿnnod byw.

Mae mwyafrif y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol sydd wedi eu cynhyrchu yng Nghymru yn cynnwys Cynlluniau Gweithredu Cynefin ar goetiroedd. Mae'r Cynlluniau Gweithredu penodol wedi eu rhestru yn y tabl isod:

| LBAP | Coetiroedd derw yr ucheldir | Coetiroedd tir gwlyb | Coetiroedd Ynn yr Ucheldir | Ffawydd yr Iseldir ac Yw | Llydan ddeiliog Cymysg ac Yw | Coetiroedd lled naturiol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | | | | | | ✓ |
| Bannau Brycheiniog | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Caerffili | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Caerdydd | | | | | | ✓ |
| Sir Gaerfyrddin | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Ceredigion | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Conwy | | | | | | ✓ |
| Sir Fflint | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Gwent | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Gwynedd | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Merthyr Tudful | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Castell-Nedd Port Talbot | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Casnewydd | | ✓ | ✓ | | | |
| Sir Benfro | ✓ | ✓ | | | | |
| Powys | ✓ | ✓ | | | | |
| Rhondda Cynon Taf | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Eryri | ✓ | ✓ | | | | |
| Torfaen | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Bro Morgannwg | | ✓ | | ✓ | | |
| Wrecsam- | | | | | | ✓ |

**Sefydliad blaen neu bartner**


Nodir yn yr UKBAP mai'r Comisiwn Coedwigaeth yw'r Partner Blaen ar gyfer y cynefin hwn.



*Madfall ddŵr gribog fenywaidd*

# Amffibiaid

**O'r chwe rhywogaeth amffibiaidd sy'n frodorol i Brydain, mae tri rhywogaeth o fadfall ddŵr (palfog, cyffredin a chribog), dau rywogaeth llyffant (dafadennog a'r twyni), a'r broga cyffredin.**



Mae madfallod dŵr yn fywiog yn y nos, ac yn ddaearol gan fwyaf. Fe'u canfyddir yn gyffredinol o fewn 500 metr o'u pwll magu (er y gall eu pellter wrth wasgaru ymestyn ymhellach na hyn), gan ddychwelyd at gyrff dyfrol i fagu yn y gwanwyn.

Mae eu carwriaeth yn gywrain, gyda madfallod gwrywaidd yn arddangos lliwiau eu torrau er mwyn denu'r benywod. Y fadfall ddŵr balfog (*Triturus helveticus*) yw madfall frodorol leiaf y DU, yn nodweddiadol yn tyfu i ryw 7cm. Maent yn arbennig o gysylltiedig â rhostir a chynefinoedd pridd asidig. Y fadfall ddŵr gyffredin (*Triturus vulgaris*) yw madfall mwyaf cyffredin Prydain, gan ddefnyddio'r ystod llawn o gyrff dyfrol i fagu (yn cynnwys ffosydd a llynnoedd llinol), gyda'r gwrywod magu yn datblygu cribau tonnog nodweddiadol. Y Fadfall Ddŵr Gribog (*Triturus cristatus*) yw madfall fwyaf y DU, fel arfer o gwmpas 14cm o hyd. Mae oedolion ar y cyfan yn ddaearol, yn ffafrio cynefinoedd glaswelltir garw, porfa rhostir a phrysg garw. Ystyrir coetir collddail hefyd yn bwysig yn ystod y cyfnod daearol. Maent yn dychwelyd i'w dyfroedd magu arferol am 3 i 4 mis yn y gwanwyn lle mae'r gwrywod magu yn datblygu cribau uchel pigog. Byddant yn gaeafgysgu mewn lleoliadau yn rhydd o rew megis bonion coed wedi pydru, systemau gwreiddiau, o dan rwbel, mewn waliau neu gloddiau neu'n ddwfn mewn deilbridd.

Mae'r llyffant dafadennog (*Bufo bufo*) yn gymharol gyffredin ledled Prydain, yn magu mewn pyllau ym Mawrth-Ebrill ac yn defnyddio cynefinoedd glaswelltir, coetir a chloddiau fel daear porthiant daearol, yn bwydo ar anifeiliaid bach di-asgwrn-cefn. Mae eu lleoliadau gaeafgysgu yn cynnwys pren marw, gwreiddiau coed a gwasarn dail. Mae llyffant y twyni (*Bufo calamita*) yn brin oherwydd ei alwadau magu a chynefin arbenigol: twyni tywod, rhostir a morfa heli uwch.

Daearol yn bennaf yw'r broga cyffredin (*Rana temporaria*), ond mae'n defnyddio cyrff dyfrol i fagu ac i aeafgysgu. Mae'n gyffredin, i'w ganfod yn y rhan fwyaf o gynefinoedd gwlyb.

### Statws ar hyn o bryd

#### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Credir bod y Fadfall Ddŵr Gribog wedi dirywio 25-30% ym Mhrydain dros y 25 mlynedd diwethaf, ond mae'n dal yn gymharol gyffredin, ac yng Nghymru mae ganddi gadarnleoedd yn y gogledd ddwyrain.

Bu dirywiad sylweddol yn niferoedd llyffant y twyni ar draws Prydain, yn ogystal â marw allan yng Nghymru lle mae wedi cael ei ailgyflwyno mewn un safle ar arfordir y gogledd. Mae gweddill yr amffibiaid brodorol yn gymharol gyffredin ledled Prydain, er bod y fadfall ddŵr balfog yn tueddu i fod y n fwy cyffredin yng Nghymru yn sgîl ei hoffter o gynefinoedd yr ucheldir.

- Mae'r broga cyffredin, y llyffant dafadennog, y fadfall ddŵr gyffredin a'r fadfall ddŵr balfog wedi eu gwarchod dan Adran 9(5) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981, sy'n gwarchod y rhywogaethau hyn rhag cael eu gwerthu.
- Mae'r fadfall ddŵr gribog a llyffant y twyni wedi eu gwarchod yn llawn dan Atodlen 2 y Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, a.y.y.b.) 1994 ac Adran 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 yn ogystal â chael eu rhestru yn Atodiad IV Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE 1992. Dan Atodiad IV y Gyfarwyddeb hon, mae 30 safle ACA wedi eu dynodi ar gyfer y Fadfall Ddŵr Gribog, pump ohonynt yng Nghymru.
- Mae llyffant y twyni a'r fadfall ddŵr gribog wedi eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Mae Cynlluniau Gweithredu Rhywogaeth ar gyfer y fadfall ddŵr gribog ac ar gyfer llyffant y twyni yn yr UKBAP.

*Statws ar y rhwydwaith*

Mae amffibiaid yn debygol o gael eu canfod ym mhob ardal o'r rhwydwaith, yn enwedig lle mae'r ffordd yn rhedeg drwy gynefinoedd glaswelltir llaith a lle mae cyrff dyfrol ar neu'n agos at yr ystâd feddal. Mae'n anhebygol yr effeithir ar lyffant y twyni gan gefnffyrdd ar hyn o bryd oherwydd ei leoliad mewn un man arfordirol yng Nghymru. Mae cynlluniau ffyrdd newydd, yn cynnwys gwelliant yr A55 rhwng Llanfairpwllgwyngyll a Chaergybi wedi cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer y Fadfall Ddŵr Gribog ac amffibiaid eraill lle bu i'r cynllun ddinistrio eu cynefin yn anorfod.

### Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Colli, darnio neu ddirywio'r cynefin*

Gall adeiladu ffyrdd achosi colli pyllau magu yn uniongyrchol yn ogystal â cholli neu ddirywio'r cynefin daearol a ddefnyddir gan amffibiaid. Gall cynefin darniog rwystro gwasgariad ac ymfudo yn ôl ac ymlaen rhwng dyfroedd magu. Gall newidiadau i systemau draenio neu lefelau dŵr daear arwain at y cynefin cyfagos yn sychu allan, sydd yn ei dro yn effeithio ar amffibiaid.

*Marwolaeth ar y ffyrdd*

Mae amffibiaid yn aml yn defnyddio'r un dyfroedd bwrw grawn flwyddyn ar ôl blwyddyn, a'r duedd yw bod llwybrau ymfudo traddodiadol yn cael eu sefydlu. O ganlyniad i hyn, gall cynlluniau ffyrdd newydd a rhai presennol effeithio'n ddifrifol ar boblogaethau amffibiaid yn uniongyrchol drwy ladd ar y ffyrdd, yn enwedig lle mae safleoedd gaeafgysgu a phyllau magu un bob ochr i'r ffordd.

*Llygredd*

Gall ewyn halen a dŵr ffo o'r ffordd effeithio ar amffibiaid drwy lygru eu cynefin dyfrol. Yn ogystal, gall llygredd a malurion sy'n cael eu gollwng i'r cyrff dyfrol yn sgîl y broses adeiladu ffyrdd fod yn broblem.



*Madfall ddŵr gribog gwrywaidd*

### Cytrefu gan bysgod

Lle mae pyllau cydbwyso yn agos at ddyfrffosydd, gall pysgod fynd i mewn i'r pyllau ar adegau arbennig. Mae pysgod yn gweithredu fel ffactor cyfyngol ar boblogaethau presennol, a gallant gyfyngu ar y potensial ar gyfer cytrefiad madfallod.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Cyhoeddwyd Nodyn Cynghori ar Amffibiaid fel rhan o Gyfrol 10 DMRB (HA 98/01 Cyngor Rheoli Cadwraeth Natur Parthed Amffibiaid).
- Gellir nodi safleoedd sy'n cynnal tri rhywogaeth o amffibiaid magu neu boblogaeth fawr o un rhywogaeth fel safle dynodedig statudol neu anstatudol; yn yr un modd, mae presenoldeb y Fadfall Ddŵr Gribog yn unig yn aml yn ffactor cymhwysol.
- Cynhelir arolygon, asesiadau a mesurau lliniaru yn rheolaidd ar amffibiaid er mwyn deall yr effaith y mae ffyrdd newydd yn eu cael ar gynefin potensial amffibiaid.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw gwarchod a gwella, lle bo hynny'n bosibl, cynefin amffibiad ar yr ystâd feddal (yn cynnwys llwybrau ymfudo) yn ogystal â darparu mesurau lliniaru ar gyfer mannau lle mae lladd amffibiad ar y ffyrdd yn digwydd yn aml.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| Adolygu cyngor presennol yn yr WTRMM er mwyn sicrhau ei fod yn ymgorffori arfer da. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Lle mae cynlluniau ffyrdd newydd ar y gweill, arolygu cynefinoedd daearol a dyfrol yn yr ardal er mwyn asesu poblogaethau amffibiaid lleol a rhagweld llwybrau ymfudo potensial. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Lle bydd ffordd yn dinistrio neu'n dirywio cynefin amffibiaid yn anorfod, ystyried creu dyfroedd magu, gaeafleoedd a chynefinoedd porthiant newydd (gellir ymgorffori'r rhain i'r ystâd feddal gan ddibynnu ar y rhywogaethau dan sylw). | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle mae mannau y caiff amffibiaid eu lladd ar y ffordd yn aml yn hysbys, ystyried adeiladu mesurau lliniaru ar y ffordd: gall y rhain gynnwys twneli, ffensys ac arwyddion ffyrdd. | Cyfredol |
| Cymryd i ystyriaeth effeithiau posibl newidiadau i ddraeniad neu lefelau dŵr ar y poblogaethau amffibiaid cyfagos yn ystod gwaith adeiladu a chynnal ffyrdd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Gyda photiau cwteri sy'n gallu maglu amffibiaid, gosod rhai newydd neu newid y rhai presennol er mwyn cael adeileddau mwy addas ar raglen dreigl (wrth i waith cynnal gael ei wneud). Anelu at osod/newid y rhain mewn o leiaf 3 lleoliad y flwyddyn. | 30 cynllun erbyn 2014 |



*Ffens madfallod ar yr A55*

| | |
|---|---|
| Ystyried darparu cynefinoedd addas ar gyfer amffibiaid (ar gyfer porthiant a gaeafgysgu) tra'n rheoli'r ystâd feddal, er mwyn gwella'r ardal ar gyfer y boblogaeth amffibiaid leol. | Cyfredol |
| Sicrhau bod mesurau ar gael i rwystro llygredd o ddŵr ffo o'r ffyrdd mewn cynlluniau newydd. | Wrth i gynlluniau godi |

**Ymchwil a monitro yn y dyfodol**

| | |
|---|---|
| Sefydlu system i goladu cofnodion presennol a'r dyfodol o safleoedd amffibiaid ar y rhwydwaith, yn cynnwys mannau lle mae lladd ar y ffordd yn gyffredin a llwybrau ymfudo. | 2006 |

**Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd**

| | |
|---|---|
| Cysylltu gyda grwpiau amffibiaid lleol ym mhob sir a all arolygu, monitro a helpu nodi mannau lle mae lladd ar y ffordd yn gyffredin a nodi llwybrau ymfudo. | 2004 |
| Codi ymwybyddiaeth staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth parthed mannau lle mae lladd ar y ffordd yn gyffredin, ac annog adrodd am ardaloedd o'r fath. | 2006 |
| Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion amffibiaid trwy gyfrwng deunydd cyhoeddusrwydd. | 2006 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae gan lyffant y twyni a'r fadfall ddŵr gribog eu UKBAP eu hunain. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP:

- Rhondda Cynon Taf (GAP amffibiaid) Gwynedd (GAP madfall).
- Cynlluniau Gweithredu Rhywogaeth ar gyfer y Fadfall Ddŵr Gribog: Ynys Môn, Blaenau-Gwent, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Merthyr Tudful, Castell-Nedd Port Talbot, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Eryri, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg.
- Cynlluniau Gweithredu Rhywogaeth ar gyfer Llyffantod y Brwyn: Conwy, Sir Ddinbych a Sir Fflint.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Cyrff Dyfrol, Afonydd a Nentydd, Arfordirol ac Aberol, Nodweddion Ffiniol, Glaswellt y Bwla a Phorfa Frwyn, a Choetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig.

### Sefydliad blaen neu bartner

Nodir yn yr UKBAP mai'r Partner Blaen ar gyfer Llyffant y Twyni yw'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Herpetolegol. Nodir yn yr UKBAP mai'r Partneriaid Blaen ar gyfer y Fadfall Ddŵr Gribog yw'r Gymdeithas Herpetolegol Brydeinig, yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Herpetolegol a Frog Life.



*Pelenllys gronynnog*

# Rhywogaethau Dyfrol



**Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn amlygu nifer o wahanol rywogaethau/grwpiau rhywogaeth sy'n defnyddio cynefinoedd dyfrol, yn neilltuol:**

- planhigion dyfrol;
- cimychiaid afon crafanc wen ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill;
- pysgod eogaidd (h.y. eog, brithyll, crothell a'r torgoch);
- pysgod eraill; ac
- adar afonol.

Er hynny, rhagwelir y bydd nifer o rywogaethau fflora a ffawna dyfrol eraill yn manteisio yn sgîl y camau yn y cynllun.
Amlygir y rhywogaethau a ddetholwyd am wahanol resymau: er enghraifft, i amlygu eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; oherwydd eu harwyddocâd economaidd; oherwydd eu bod yn cael eu canfod yn aml yn ystod gwaith cynnal afonydd/pontydd; a/neu oherwydd y byddent yn manteisio yn sgîl mesurau gwella cost isel.

Mae gan ddyfrgwn a llygod pengrwn y dŵr Gynlluniau Gweithredu Rhywogaeth ar wahân.

### Planhigion dŵr

Amlygir y planhigion canlynol er mwyn adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Maent hefyd wedi eu cynnwys fel Rhywogaethau Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

- Planhigion fasgwlar: pelenllys gronynnog (*Pilularia globulifera*); crafanc-y-frân feinddail (*Ranunculus tripartitus*); llyriad-y-dŵr arnofiol (*Luronium natans*); dyfrllys cywasg (*Potamogeton compressus*).
- Mwsoglau a llysiau'r afu: mwsogl yr afon aml ffrwyth (*Cryphaea lamyana*).
- Cennau: cen gludiog yr afon (*Collema dichotomum*).
- Rhawn yr Ebol: rhawn yr ebol barfog llai (*Chara curta*); rhawn yr ebol main (*Nitella gracilis*); rhawn yr ebol lleiaf (*Nitella tenuissima*).

### Anifeiliaid di-asgwrn-cefn

Mae saith anifail dyfrol di-asgwrn-cefn wedi eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae nifer fawr o rywogaethau dyfrol wedi eu cynnwys fel Rhywogaethau Blaenoriaeth yn gysylltiedig gyda naill ai'r Cynefin Eang Dŵr agored llonydd a Chamlesi, gyda phymtheg ohonynt yn anifeiliaid di-asgwrn-cefn (yn cynnwys chwilod, cramenogion, molysgiaid ac abwydod). Yn yr un modd, mae pedwar rhywogaeth di-asgwrn-cefn (yn cynnwys molysgiaid, cramenogion, a mursennod) yn gysylltiedig â'r Cynefin Eang Afonydd a Nentydd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae cimychiaid afon crafanc wen a'r fisglen berlog wedi cael eu hamlygu yn y cynllun hwn oherwydd ei bod yn hysbys eu bod yn agos at y rhwydwaith.

- Cimychiaid afon crafanc wen (*Austropotamobius pallipes*) yw'r unig rywogaeth cimwch dŵr croyw ym Mhrydain. Maent i'w canfod mewn nentydd, afonydd a llynnoedd glân calchaidd. Mae gan yr anifeiliaid bach (12cm) di-asgwrn-cefn hyn gyrff brown gyda gwaelodion gwyn/pinc i'w crafangau ac maent mewn perygl yn sgîl rhywogaethau cimwch estron, yn enwedig drwy ymlediad y pla cimychiaid.
- Mae'r fisglen berlog (*Margaritifera margaritifera*) yn folwsg deufalf sy'n byw mewn afonydd tlawd o ran maetholion sy'n llifo'n gyflym, gyda gwaelodion glân, tywodlyd a charegog. Mae'r misglod bach hyn yn byw yn hen (80-100 mlynedd), ond mae nifer o boblogaethau yn dibynnu ar y stociau eog sydd ar drai am ran o'u cylch bywyd, ac nid ydynt wedi cynhyrchu rhai bach am dros ddeng mlynedd ar hugain.

### Pysgod: pysgod eogaidd

Nid yw'r rhywogaethau hyn yn Rhywogaethau Blaenoriaeth UKBAP, ac nid ydynt chwaith wedi eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Serch hynny, mae rhai rhywogaethau wedi eu cynnwys mewn LBAPau (er enghraifft mae'r torgoch wedi ei gynnwys yn LBAP Gwynedd).

- Mae pysgod eogaidd wedi eu dosbarthu'n eang ar draws y DU. Mae gan yr eog (*Salmo salar*) a'r gleisiaid (*Salmo trutta*) hanes amrywiol i'w bywydau, yn treulio amser yn y môr ac yn fewndirol.
- Defnyddir afonydd mewndirol yn bennaf, yn enwedig isafonydd, i fwrw grawn.
- Mae cyflwr y mannau bwrw grawn hyn yn eithriadol bwysig, gyda hoffter cryf yn cael ei ddangos tuag at nentydd clir a bas gyda gwaelod graean rhydd.
- Mae'r grŵp hwn hefyd yn cynwys y crothell a'r torgoch. Nid yw'r crothell (*Thymalus thymalus*) yn frodorol i afonydd Cymru, ond maent wedi eu cynnwys yn y grŵp hwn o bysgod 'hela'. Mae'r torgoch (*Salvelinus alpinus*) yn brin ac wedi eu cyfyngu i gyrff dyfrol yng Ngogledd Cymru.

### Pysgod: pysgod heb fod yn eogaidd

Mae herlod a gwangod wedi eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Maent hefyd wedi eu cynnwys fel Rhywogaethau Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

- Mae herlod (*Alosa alosa*) a gwangod (*Alosa fallax*) yn aelodau o deulu'r penwaig. Roedd y ddau unwaith yn gyffredin ledled y DU ond erbyn hyn maent yn anghyffredin.
- Mae bawd y melinydd (*Cottus gobio*) i'w ganfod yn eang ar draws Ewrop ac maent i'w cael mewn amrywiaeth o amgylcheddau dyfrol. Mae'n well ganddynt ddŵr bas, clir sy'n llifo'n gyflym.

### Adar afonol

Caiff adar afonol eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn oherwydd y byddent yn elwa yn sgîl mesurau gwella cost-isel megis blychau trochwyr. Mae nifer fawr o rywogaethau adar yn defnyddio coridorau afon, yn nodedig yn eu plith mae:

- Trochwyr
- Siglennod
- Glas y dorlan

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae nifer o'r rhywogaethau a amlygir wedi eu cynnwys naill ai yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a/neu fel Rhywogaethau Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (fel y rhestrwyd uchod). Ar ben hyn:

Gan fod y Cynllun Gweithredu hwn yn trafod ystod eang o rywogaethau, ni wnaethpwyd unrhyw ymdrech i ddisgrifio amrywiol leoliadau daearyddol pob un ohonynt. Gellir cael gwybodaeth bellach trwy gyfrwng yr UKBAP, neu gan Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

- Mae planhigion (yn cynnwys rhywogaethau anfasgwlaidd) yn cael eu gwarchod yn gyffredinol dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981. Yn ogystal, mae crafanc-y-frân feinddail yn cael ei hystyried ar gyfer ei chynnwys o fewn Atodlen 8 y Ddeddf honno.
- Mae llyriad y dŵr arnofiol wedi ei restru yn Atodiadau II a IV Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992 ac Atodiad 1 Confensiwn Bern. Caiff ei warchod dan Atodlen 4 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) 1994 ac Atodlen 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Mae mwsogl yr afon aml-ffrwyth a chen gludiog yr afon ill dau wedi eu cynnwys yn Atodlen 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Mae'r cimwch afon crafanc wen wedi ei restru yn Atodiad III Confensiwn Bern ac Atodiadau II a V Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992. Mae hefyd wedi ei warchod dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 parthed ei gymryd o'r gwyllt a'i werthu.
- Mae'r fisglen berlog wedi ei rhestru yn Atodiadau II a IV Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992 ac Atodiad II Confensiwn Bern Convention ac mae wedi ei gwarchod yn llawn dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Mae pysgod eogaidd wedi eu gwarchod dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1974, a Deddf Eogiaid 1986, a chânt eu gwarchod gan Ewrop dan y Gyfarwyddeb Pysgodfeydd Dŵr Croyw.
- Rhestrir bawd y melinydd yn Atodiad II Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992.
- Rhestrir gwangod yn Atodiad II confensiwn Bern, ar Atodiad II a V Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992, ac maent wedi eu gwarchod dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Mae pob aderyn wedi ei warchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981: mae rhai, yn cynnwys glas y dorlan, wedi eu rhestru yn Atodlen 1 y Ddeddf honno, ac felly rhoddir lefel gwarchod uwch iddynt.

### Statws ar y rhwydwaith

Mae traffyrdd a chefnffyrdd yn croesi dyfrffosydd yn rheolaidd drwy'r rhwydwaith i gyd yng Nghymru. Serch hynny, os nad yw'r rheolaeth yn briodol, mae gan effeithiau datblygu ffyrdd y potensial i fod yn sylweddol. Er enghraifft dim ond lle mae ffyrdd yn croesi afonydd neu'n rhedeg yn gyfochrog â hwy y ceir cimychiaid afon crafanc wen ar ystâd feddal y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, felly gellid effeithio'n negyddol arnynt gan adeiladu neu drwsio pont os nad yw'r mesurau addas yn cael eu defnyddio.



*Cimwch afon crafanc wen*

### Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Llygredd*

Mae nifer o ffynonellau llygredd potensial o ffyrdd all effeithio ar y rhywogaethau hyn. Gallai gronynnau (er enghraifft, deunydd breciau) sy'n cyrraedd dŵr ffo o ffyrdd fynd i mewn i ddyfrffosydd os na chânt eu symud yn effeithlon. Gall gollyngiadau ac ewyn halen fod yn ffynhonnell uniongyrchol i lygredd, a thipio anghyfreithlon yn yr un modd. Gall halogyddion dŵr daear fod yn llygrydd mwy tryledol. Mae concrit a ddefnyddir i godi pontydd ac adeileddau eraill yn trwytholchi calch i mewn i'r dŵr.

### Rhwystrau yn erbyn mudiad

Yn aml bydd gan bontydd sy'n croesi afonydd bileri cynnal yn sefyll o fewn yr afon ei hun. Gall hyn olygu bod gwaith tyllu sylweddol wedi digwydd i'r afon oddi amgylch yn ystod y gwaith adeiladu, gan achosi ymyrraeth dros dro i gymunedau dyfrol. Gall presenoldeb sylfeini pontydd yn yr afon hefyd effeithio ar hydroleg yr afon i'r gwaered. Gall pileri a grewyd o fewn yr afon achosi peth rhwystr i ymfudiad rhywogaethau pysgod sy'n ceisio cyrraedd tiroedd bwrw grawn i fyny'r afon.

### Rhywogaethau ymledol ac estron

Gall rhywogaethau estron ymledol achosi colled sylweddol i fioamrywiaeth drwy wthio rhywogaethau eraill allan dros ardaloedd eang, ac effeithio ar y ffordd y mae afonydd a nentydd yn gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys yr efwr enfawr (*Heracleum mantegazzanium*), Canclwm Japan (*Fallopia japonica*), a Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*). Mae'r rhywogaethau hyn yn ymledu'n gyflym ar hyd dyfrffosydd, ac mae eu rheoli drwy gyfrwng chwynladdwyr wedi ei gyfyngu i'r rhai sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio yn agos at ddyfrffosydd.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae cyngor ar gael yng Nghyfrol 4 DMRB ar adeiladu pontydd er mwyn lleihau'r effeithiau ar hydroleg y gwaered ac ansawdd dŵr.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn sicrhau bod effeithiau adeiladu o'r newydd a gwaith cynnal ar rywogaethau dyfrol yn cael eu hosgoi lle mae hynny'n bosibl.
- Mae canllawiau arfer gorau ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar gimychiaid afon crafanc wen wedi cael eu cynhyrchu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac English Nature.
- Mae canllawiau dylunio drafft i ddylunio llwybrau pysgod a mesurau eraill i sicrhau bod pysgod yn gallu teithio ar hyd afonydd o dan adeileddau ffyrdd ar gael gan Weithrediaeth yr Alban / Scottish Natural Heritage

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw: osgoi unrhyw effeithiau niweidiol wrth adeiladu ffyrdd newydd, gwella ffyrdd a gweithredu ffyrdd ar systemau dyfrol a'u rhywogaethau; a nodi cyfleon drwy bob cam o adeiladu ffyrdd i wella cynefinoedd sy'n bodoli eisoes a darparu mesurau lliniaru effeithlon.



*Gwangen*

**Gweithredu bwriedig**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu cyngor geir yn yr WTRMM parthed gwaith cynnal wrth iddo effeithio ar systemau dyfrol. | 2007 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Yn ystod cyfnod dylunio cynllun ffordd, asesu'r effeithiau ar rywogaethau dyfrol, yn enwedig ger mannau croesi afonydd, yn ystod yr astudiaeth ddesg a'r arolwg maes. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn ystod y gwaith adeiladu, mewn ymgynghoriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, sicrhau cyn lleied o aflonyddu â phosibl ar rywogaethau dyfrol. Cynnal ansawdd y dŵr, a gallu rhywogaethau i symud ar hyd afonydd a chyrff dyfrol, drwy gydol y cyfnod adeiladu. Sicrhau nad yw seiliau yn llechfeddiannu'n sylweddol ar ddyfrffosydd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn dilyn y gwaith adeiladu, sicrhau nad yw dŵr ffo o ffyrdd yn mynd i mewn i ddyfrffosydd yn uniongyrchol. | Wrth i gynlluniau godi |
| Yn ystod y cyfnodau dylunio a chynnal, nodi cyfleon i wella gwerth ecolegol nentydd i adar dyfrol drwy ddarparu adeileddau nythu yn cynnwys tyrchfeydd a llwyfannau. Pum safle y flwyddyn mewn lleoliadau priodol. | 50 safle erbyn 2014 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Creu ymwybyddiaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ac Asiantau Cefnffyrdd o gyfleon i wella ar gyfer rhywogaethau dyfrol. | Cyfredol a 2008 |

**Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill**

Dylid ystyried y Cynllun Gweithredu hwn ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu Rhywogaeth UKBAP ar gyfer cimychiaid afon crafanc wen. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn, Bannau Brycheiniog, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Castell-Nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Parc Cenedlaethol Eryri, Abertawe, Torfaen.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau y Dyfrgi a'r Llygoden Bengrwn y Ddŵr. Dylid hefyd ei ystyried gyda Chynlluniau Gweithredu Cynefin Arfordirol ac Aberol, Cyrff Dyfrol ac Afonydd a Nentydd.

**Sefydliad blaen neu bartner**

Nodir yn yr UKBAP mai'r Partner Blaen ar gyfer y rhywogaethau hyn yw Asiantaeth yr Amgylchedd.



*Tylluan wen*



# Tylluan Wen (*Tyto alba*)

**Aderyn y nos yw'r Dylluan Wen, sy'n gysylltiedig â thir amaethyddol agored.**

Mae'r rhywogaeth yn ffafrio porfeydd llaith a dolydd heb eu gwella sy'n cynnal dwysedd uchel o famaliaid bach sy'n ysglyfaeth. Bydd yn hela drwy hedfan yn isel, gan fwydo'n bennaf ar lygod y gwair, ond mae hefyd yn cymryd llygod, chwistlod, llygod cochion, llygod mawr ac anifeiliaid bach eraill ag asgwrn cefn. Fe'i ceir yn aml yn agos iawn at bobl, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o adeiladau megis ffermydd, tyrau eglwys ac adeiladau adfeiliedig yn ogystal â cheubrennau a chlogwyni, yn aml yn defnyddio'r un safle nythu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

- Mae'r dylluan wen wedi ei rhestru ar Atodiad II Confensiwn Bern ac mae wedi ei gwarchod dan Gyfarwyddeb 'Adar' y GE 1979, ac Atodlen 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Er nad yw'n Rhywogaeth Blaenoriaeth i'r UKBAP, mae wedi ei restru fel Rhywogaeth o Bryder Cadwraethol yn Adroddiad Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU ac mae ar Restr Ambr Adar o Bryder Cadwraethol yr RSPB.
- Mae'r dylluan wen wedi gweld lleihad sylweddol yn ei phoblogaeth drwy gydol yr ugeinfed ganrif, gyda'r amcangyfrif diweddaraf ym Mhrydain yn nodi rhyw 4000 o barau magu (ffynhonnell: Prosiect Tylluan Wen).
- Erbyn 1950, roedd tylluanod gwyn magu yn brin yn siroedd Cymru. Yr arwydd diweddaraf o'r niferoedd yng Nghymru oedd 462 o barau magu, a hynny rhwng 1982 a 1985. Mae hyn yn ostyngiad o 67% mewn 50 mlynedd. Credir bod y dirywiad wedi arafu ers y 1990au, gyda phoblogaeth gyfredol sy'n gymharol sefydlog.

## Statws ar y rhwydwaith

Oherwydd ei defnydd o nodweddion llinol cyfoethog mewn mamaliaid bach megis ymylon ffyrdd a ffosydd, mae'r dylluan wen yn debyg o fod yn bresennol ar lawer o'r rhwydwaith cefnffyrdd sy'n cynnwys cynefin addas. Er bod cofnodion rhwydwaith yn gyfyngedig iawn, y rheswm dros hyn bron yn ddios yw tan-gofnodi ac adrodd i'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Marwolaeth neu anaf ar y ffordd*

Mae cyfuniad o gynnydd mewn adeiladu ffyrdd, cynnydd yn nifer y cerbydau ac yn eu cyflymder ynghyd â defnydd y dylluan wen o'r ystâd feddal fel tir hela, a'i thuedd i hedfan yn isel, yn golygu bod gwrthdrawiadau marwol gyda cherbydau yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar y boblogaeth. Cofnodwyd nifer fawr o golledigion ar ymylon y ffordd mewn rhai lleoliadau, ac ar hyn o bryd nid yw bob amser yn amlwg beth y gellir ei wneud i leihau'r risg hwn.

### Colli cynefin neu ddirywio a darnio

Mae datblygiadau ffyrdd newydd a gwelliannau yn fygythiad uniongyrchol i golli cynefin chwilota a nythu, tra bod darnio cynefinoedd a cholli coridorau llinol a achosir gan ffyrdd hefyd yn lleihau'r boblogaeth o famaliaid bychain ac felly'n cael effaith ar y dylluan wen.

Yn ogystal, mae'r newid o laswelltir heb ei wella, sef arferion amaethyddol traddodiadol, at laswelltir wedi ei wella (sy'n cynnal poblogaeth is o famaliaid bychain) yn golygu fod y dylluan wen yn defnyddio ymylon y ffyrdd yn amlach fel cynefin chwilota, gyda chynnydd mewn marwolaethau ar y ffordd yn sgîl hynny.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Sefydliad cenedlaethol yw Ymddiriedolaeth y Dylluan Wen sy'n anelu at gadw'r dylluan wen a'i chynefinoedd, ac sy'n darparu llinell wybodaeth genedlaethol yn rhad ac am ddim, a chanllawiau ar gyfer Datblygwyr a Chynllunwyr. Ar hyn o bryd maent yn gwneud ymchwil i effaith priffyrdd ar y dylluan wen.
- Mae nifer o grwpiau ac unigolion lleol, yn cynnwys Arolwg Adar Magu Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO), yn cyfrannu at fonitro a chofnodi poblogaethau tylluan wen yn flynyddol. Mae'r BTO yn trefnu cynllun modrwyo cenedlaethol cyfredol a chynllun cofnodi nythod, Prosiect Tylluan Wen. Mae grŵp modrwyo De Sir Benfro yn gweinyddu cynlluniau blychau nythu a chofnodi modrwyo.
- Mae Nodyn Cyfarwyddo i'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd Cyfrol 10 yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Priffyrdd gydag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol eraill y DU.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Prif nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw casglu gwybodaeth am bresenoldeb y dylluan wen ar y rhwydwaith cefnffyrdd, a lleihau lefel a nifer achosion marwolaeth ar y ffyrdd tra'n rheoli'r ystâd feddal ar gyfer y dylluan wen lle y mae'n ddiogel gwneud hynny, a lle mae nifer y marwolaethau perthynol i'r ffordd yn isel.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Gweithio gyda'r Asiantaeth Briffyrdd ac Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol eraill y DU er mwyn cynhyrchu cyngor yn DMRB. | 2004 |
| Adolygu ymchwil yr Asiantaeth Priffyrdd ac Ymddiriedolaeth y Dylluan Wen ar effaith ffyrdd ar y dylluan wen ac unrhyw argymhellion ar gyfer rheoli'r ystâd feddal, a'u defnyddio yng nghyd-destun y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru drwy'r WTRMM | 2006 |
| **Arolygu** | |
| Sefydlu system i adrodd am ddamweiniau tylluan wen i'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth. | 2004 |
| Canfod i ba raddau y mae'r dylluan wen yn defnyddio'r ystâd feddal fel cynefin chwilota a nythu cyfredol/potensial drwy goladu gwybodaeth gyfredol. | 2008 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Nodi darnau o ffordd lle mae lefelau uchel o farwolaethau'n cael eu cofnodi yn rheolaidd. | Cyfredol |
| Lle mae datblygiadau ffyrdd newydd wedi eu cynllunio, sicrhau bod astudiaethau desg ac arolygon ymlaen llaw yn pennu'r effaith tebygol ar boblogaeth leol y dylluan wen a pha opsiynau sydd ar gael i liniaru'r effeithiau hyn. | Wrth i gynlluniau godi |
| Defnyddio mesurau lliniaru mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o farwolaethau tylluan wen ar y ffordd. | 5 safle erbyn 2014 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Ymchwilio'r posibilrwydd o osod arwyddion rhybudd mewn ardaloedd sy'n hysbys fel ardaloedd hela pwysig i'r dylluan wen. | 2006 |
| Annog y cyhoedd i adrodd am ddamweiniau traffig y dylluan wen neu am weld y dylluan wen ar y rhwydwaith. | 2006 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Conwy, Sir Fflint, Gwynedd, Castell-Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Nodweddion Ffiniol, Glaswellt y Gweunydd a Phorfa Frwyn, Dolydd yr Iseldir, Glaswelltir Calchaidd, Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir, a Choetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig.


### Sefydliad blaen neu bartneriaid

Nid yw hwn yn rhywogaeth UKBAP ac felly nid oes Partner Blaen.



*Ystlum pedol lleiaf*

# Ystlumod (*Chiroptera*)



**Mae un rhywogaeth ar bymtheg o ystlumod y gwyddys eu bod yn magu ym Mhrydain. Ar hyn o bryd, gwyddys bod pymtheg o'r rhain i'w canfod yng Nghymru. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o adeileddau naturiol ac artiffisial, yn cynnwys adeiladau, pontydd a choedydd ac adeileddau tanddaearol megis ogofâu a phyllau.**

Mae ystlumod yn gytrefol a thueddant i glwydo mewn grwpiau. Cyfartaledd maint y gytref yw tua 50 unigolyn, ond gellir eu canfod yn unigol, neu mewn grwpiau o unrhyw faint hyd at gannoedd lawer yn dibynnu ar y rhywogaeth. Gellir defnyddio clwydydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer magu, gaeafgysgu neu baru. Gall y rhain fod yn yr un lleoliad, neu ar bellter o sawl cilomedr oddi wrth ei gilydd.

Mae ystlumod Prydeinig yn bryfysol, ac felly mae angen cynefinoedd chwilota arnynt sy'n cynhyrchu bio-màs uchel o bryfed (er enghraifft, coetiroedd, gwlyptiroedd a rhai porfeydd). Defnyddia ystlumod ecoleoli i ganfod ac i ddal eu hysglyfaeth ac i ganfod eu ffordd rhwng clwydydd. Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau yn dibynnu ar goridorau llinol i raddau gwahanol, megis gwrychoedd, llinellau coed a dyfrffosydd, i ganfod eu ffordd rhwng safleoedd clwydo a chynefinoedd chwilota all fod cryn bellter oddi wrth ei gilydd. Gellir canfod ystlumod fwy neu lai mewn unrhyw gynefin sy'n digwydd yn yr ystâd feddal.

Mae'r Cynefinoedd Blaenoriaeth UKBAP o bwys neilltuol i ystlumod: gwrychoedd hynafol a/neu cyfoethog mewn rhywogaethau, pob math o goetir a phob cynefin gwlyptir.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

O'r un rhywogaeth ar bymtheg o ystlumod sy'n preswylio ym Mhrydain, mae o leiaf hanner ohonynt yn brin neu mewn perygl. Mae hyd yn oed y rhai sy'n gymharol gyffredin wedi gweld lleihâd enfawr yn eu poblogaeth dros yr hanner can mlynedd diwethaf yn y DU ac yn Ewrop. O ganlyniad, mae ystlumod wedi eu gwarchod yn llym.

- Mae pob rhywogaeth ystlumod, a'u clwydydd, wedi eu gwarchod dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, a.y.y.b.) 1994.
- Mae pob ystlum wedi ei restru ar Atodiad 3 Confensiwn Bonn.
- Mae pob un ar wahân i'r ystlum lleiaf cyffredin a soprano wedi eu cynnwys ar Atodiad II Confensiwn Bern.
- Mae pedwar rhywogaeth (yr ystlum pedol mwyaf; yr ystlum pedol lleiaf; Ystlum Bechstein; yr ystlum du) yn cael eu cynnwys yn narpariaethau Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992 (Atodiad II), sy'n caniatáu dynodi ACAoedd ar sail eu presenoldeb. Mae cyfanswm o 21 ymgeisydd ACAoedd wedi eu cynnig ar gyfer un neu fwy o'r pedwar rhywogaeth hyn, gyda deg o'r safleoedd naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

- Mae saith rhywogaeth ystlum wedi eu nodi fel Rhywogaethau Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU: yr ystlum pedol mwyaf; yr ystlum pedol lleiaf; yr ystlum clustlydan mwyaf; ystlum Bechstein; yr ystlum du; a'r ystlum lleiaf (tybir bod y term yn cynnwys yr un cyffredin a'r soprano).
- Allan o'r rhain, mae pob un ar wahân i'r ystlum clustlydan mwyaf wedi eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau a ddetholwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y rhestr o rywogaethau o brif bwysigrwydd dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

| Enw cyffredin | Statws y DU | Dosbarthiad yng Nghymru |
|---|---|---|
| Ystlum pedol mwyaf | Mewn perygl | De Orllewin a De Ddwyrain Cymru |
| Ystlum pedol lleiaf | Mewn perygl | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum barfog | Lleol | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum Brandt | Lleol | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum Natterer | Eithaf cyffredin | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum Bechstein | Prin iawn | Wedi eu cofnodi yn anaml iawn yn ne Cymru |
| Ystlum y dŵr | Eithaf cyffredin | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum adain-lydan | Anghyffredin | Wedi eu cofnodi yn anaml iawn yn ne Cymru |
| Ystlum mawr | Eithaf cyffredin | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum Leisler | Prin | Prin iawn yng Nghymru |
| Ystlum lleiaf (45kHz) cyffredin | Cyffredin | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum lleiaf (55kHz) soprano | Cyffredin | Drwy'r rhan fwyaf o Gymru |
| Ystlum lleiaf Nathusius | Ambell gofnod | Dim clwydydd wedi eu canfod eto yng Nghymru |
| Ystlum du | Prin | Ambell i gofnod yn y canolbarth ac yn ne Cymru |
| Ystlum hirglust | Cyffredin | Ledled Cymru |
| Ystlum hirglust llwyd | Prin iawn | Dim cofnod yng Nghymru, ond dosbarthiad i'w weld yn ehangu i gyfeiriad y gogledd o dde Lloegr |

### Statws ar y rhwydwaith

Mae ystlumod yn bresennol ym mhob ardal o'r rhwydwaith. Mae ystlumod wedi eu nodi gerllaw nifer fawr o gynlluniau yn cynnwys: yr A40 (Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Caerfyrddin; Ffordd Osgoi Orllewinol Aberdaugleddau); yr A470 (gwelliant Dolwyddelan i Bont yr Afanc; gwelliant Pentrebach i Gefn Coed); yr A487 (gwelliant Llanwnda i dde Llanllyfni); a'r A477 (Ffordd Osgoi Sageston i Redberth a gwelliant Nash i Bangerston).

### Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Colli cynefin drwy fynd â thir, llygredd neu ddarnio*

Gall colli clwydydd ystlumod gael effaith sylweddol ar boblogaethau ystlumod dros ardal eang gan fod ystlumod yn gallu clwydo mewn grwpiau mawr ar adegau penodol o'r flwyddyn. Gall colli clwydydd bach hyd yn oed fod yn arwyddocaol i rywogaethau mwy prin, neu ar adegau penodol o'r flwyddyn (er enghraifft, yn ystod yr hydref tra'u bod yn paru).

Mae ystlumod yn agored i effeithiau cynlluniau adeiladu neu wella ffyrdd, lle mae cymryd tir yn uniongyrchol yn arwain at golli cynefinoedd chwilota neu golli neu dorri goridorau llinol. Gall dirywiad i gynefinoedd o'r fath yn sgîl dŵr ffo wedi'i lygru neu newidiadau hydrolegol arwain at leihau'r bio-màs pryfed.

### Marwolaethau sy'n gysylltiedig â thraffig ar y ffordd

Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â thraffig ar y ffordd yn debyg o fod yn uwch ar gyfer cynlluniau newydd a gwelliannau all-lein, yn enwedig lle mae'r rhain yn torri ar draws man croesi sydd wedi ei hen sefydlu. Serch hynny, gan mai anaml y caiff cyrff ystlumod eu cofnodi, mae'n anodd amcangyfrif arwyddocâd yr effaith hwn.

### Goleuadau ochr y ffordd

Gall ffyrdd wedi eu goleuo ffurfio rhwystr i symudiad yr ystlumod pedol a'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau mwy prin ac mewn perygl, sy'n tueddu i fwydo mewn cynefinoedd caeëdig (neu 'orlawn') a gellir cael effaith niweidiol arnynt gan oleuadau ffyrdd. Yn ogystal, tra bod rhai rhywogaethau ystlumod (megis yr ystlumod lleiaf) yn defnyddio'r pryfed sy'n cael eu denu at oleuadau stryd fel ffynhonnell fwyd werthfawr a rhagweladwy, nid yw'n cael ei ystyried yn beth doeth i ddenu ystlumod at ymylon ffyrdd (yn enwedig yr ystlumod sy'n hedfan yn isel) oherwydd y perygl o farwolaeth wrth ddod i wrthdrawiad â cherbydau.

### Cynnal

Mae perygl o ddinistrio clwydydd, neu anafu neu ladd ystlumod, drwy waith cynnal, yn enwedig gwaith sy'n ymwneud â choed, pontydd ac adeileddau eraill. Mae rhai rhywogaethau yn clwydo'n fynych mewn pontydd (yn enwedig ystlumod Daubenton) a bydd llawer yn clwydo mewn agennau coed. Nid yw presenoldeb ystlumod yn amlwg, ac mae posibl eu methu'n llwyr os nad yw arolygon yn cael eu cynnal ar adegau cywir y flwyddyn cyn i waith gychwyn (megis growtio pontydd dan bwysedd, neu dorri canghennau oddi ar goed.)

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae Nodyn Cyfarwyddo ar Ystlumod wedi ei gyhoeddi fel rhan o Gyfrol 10 DMRB (HA 80/99 The Good Roads Guide Nature Conservation Management in Relation to Bats). Mae WTRMM yn amlygu pwysigrwydd gwirio coed mawr am ystlumod cyn gwneud unrhyw waith arnynt.
- Mae'r Prosiect Monitro Ystlumod Cenedlaethol wedi casglu data gwaelodlin ac wedi cyhoeddi eu hadroddiad cyntaf yn 2001. Mae'r prosiect yn un cyfredol.
- Mae gwaith monitro mesurau lliniaru gafodd eu cyflwyno yn ddiweddar ar gyfer ystlumod yn cael ei wneud ar nifer o gynlluniau ar draws Cymru.
- Cafodd adroddiad ei gyhoeddi yn ddiweddar gan y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, sydd wedi adolygu'r llenyddiaeth berthnasol, wedi asesu nifer o gynlluniau ffordd diweddar yng Nghymru ac wedi adolygu llwyddiant technegau lliniarol ar gyfer ystlumod.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw gwella cadwraeth ystlumod yn ystod gweithgaredd dylunio, adeiladu a chynnal cynlluniau. Yn benodol:

- cynnal gweithgareddau cynnal ar yr adegau mwyaf priodol o'r flwyddyn, ar ôl i arolygon perthnasol gael eu cwblhau;
- osgoi colli clwydydd, ardaloedd chwilota a choridorau llinol yn ystod cynlluniau adeiladu ac ehangu ffyrdd;
- nodi cyfleon i wella cynefinoedd i ystlumod yn ystod dylunio, adeiladu a chynnal;
- osgoi ystlumod yn cael eu lladd ar y ffordd.

**Gweithredu bwriedig**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu Nodyn Cyngor ar Ystlumod y DMRB gyda'r Asiantaeth Priffyrdd ac Asiantaeth Genedlaethol Priffyrdd y DU. | 2004 |
| Adolygu'r WTRMM, a chyhoeddi cyngor ar gyfer pob gweithredwr rhwydwaith er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal yn cael ei wneud ar yr adeg gywir yn y flwyddyn, ar ôl i'r arolygon priodol gael eu cwblhau. | 2004 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Cynnwys ystlumod yng nghamau cynharaf dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd er mwyn sicrhau nodi (a rheoli'n briodol) safleoedd sy'n werthfawr fel clwydydd, ardaloedd chwilota a choridorau llinol. | Wrth i gynlluniau godi |
| Osgoi effeithiau anuniongyrchol llygredd dŵr ar ardaloedd porthi gwerthfawr drwy ddefnyddio a chynnal mesurau rheoli a thrin priodol gyda dŵr ffo o ffyrdd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Ystyried opsiynau ar gyfer lliniaru a gwella gyda phob gwaith adeiladu a chynnal ffyrdd (e.e. twnelau ystlumod, gwella cynefinoedd a mannau gaeafgysgu). | Wrth i gynlluniau godi |
| Cynyddu cyfleon i ystlumod glwydo mewn ardaloedd o goetir o fewn ffiniau'r brifforrdd (sydd fel arall yn addas i'w defnyddio gan ystlumod sy'n chwilota) drwy ychwanegu clwydydd artiffisial. | Wrth i gynlluniau godi |
| Darparu blychau ystlumod sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth sy'n debyg o fod yn bresennol er mwyn gwella 30 lleoliad addas o fewn ffiniau'r priffyrdd. | erbyn 2009 |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Datblygu system i gasglu a chynnal gwybodaeth am glwydydd hysbys sydd wedi eu lleoli ar y rhwydwaith neu'n agos iawn ato. | 2006 |
| Datblygu system i nodi a choladu gwybodaeth ar fannau croesi a ddefnyddir yn aml o fewn y rhwydwaith ac unrhyw ardaloedd lle mae lefel uchel o farwolaethau ar y ffordd ymysg ystlumod. | 2006 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Datblygu deunydd hyfforddi i gefnogi'r wybodaeth yn yr WTRMM a'r DMRB ar ôl eu hadolygu. | 2005 |
| Cysylltu gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a grwpiau ystlumod lleol all ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar ddosbarthiad rhywogaethau. | 2004 |
| Sicrhau bod gweithwyr cynnal a chadw a pheirianwyr yn ymwybodol o faterion megis cyfyngiadau tymhorol a gofynion trwyddedu, a'r angen felly am flaengynllunio. | 2005 |

**Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill**

Mae UKBAPau wedi eu paratoi ar gyfer y rhywogaethau canlynol: yr ystlum du, ystlum Bechstein, yr ystlum lleiaf, yr ystlum pedol mwyaf a'r ystlum pedol lleiaf. Dylid ystyried y Cynllun Gweithredu Rhywogaeth hwn ochr yn ochr â'r Cynlluniau Gweithredu Cynefin ar gyfer Coetiroedd, Afonydd a Nentydd, a Nodweddion Ffiniol.

Mae ystlumod yn rhywogaethau LBAP ar gyfer nifer fawr o siroedd yng Nghymru.



*Ystlum lleiaf*

| LBAP | Ystlumod (>1 rhg.) | Ystlum pedol mwyaf | Ystlum pedol lleiaf | Ystlum Natterer | Ystlum Bechstein | Ystlum mawr | Un neu fwy Ystlum lleiaf | Ystlum du |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | | | | | | | ✓ | |
| Blaenau-Gwent | | | ✓ | | | | | |
| Bannau Brycheiniog | | Datganiad rhywogaeth | ✓ | | Datganiad rhywogaeth | | | |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | ✓ | | | | | | | |
| Caerffili (bwriedig) | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Caerdydd | ✓ | | | | | | | |
| Conwy (bwriedig) | | | ✓ | | | | | |
| Sir Ddinbych | | | ✓ | | | | ✓ | |
| Sir Fflint (bwriedig) | ✓ | | | | | | | |
| Gwynedd | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Castell-Nedd Port Talbot | ✓ | | | | | | | |
| Sir Benfro | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Powys | | | ✓ | | | | ✓ | |
| Rhondda Cynon Taff | ✓ | | | | | | ✓ | |
| Eryri | | | ✓ | | | | ✓ | |
| Abertawe | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Torfaen | ✓ | | | | | | | |
| Bro Morgannwg | ✓ | | | | | | ✓ | |
| Cyfanswm nifer y LBAPau | 7 | 4 | 10 | 1 | 2 | 1 | 10 | 3 |

## Sefydliad blaen neu bartner

Y partneriaid blaen ar gyfer y chwe rhywogaeth ystlum UKBAP yng Nghymru yw:

| | |
|---|---|
| Ystlum pedol mwyaf | Cyngor Cefn Gwlad Cymru / English Nature |
| Ystlum Bechstein | Ymddiriedolaeth Cadw Ystlumod |
| Ystlum lleiaf (cyffredin a soprano) | Ymddiriedolaeth Cadw Ystlumod |
| Ystlum du | Ymddiriedolaeth Cadw Ystlumod |


Mae UKBAP ar gyfer yr ystlum clustlydan mwyaf, y credid hyd yn ddiweddar ei fod wedi marw allan ym Mhrydain. Fodd bynnag, cofnodwyd un ystlum clustlydan mwyaf ifanc yn Sussex yn 2002. Ni fu cofnod o'r rhywogaeth hwn yng Nghymru erioed.



Pathew

# Pathew (*Muscardinus avellanarius*)

**Cnofil bychan nosol sy'n byw mewn coed yw'r pathew.**



Mae pwysau'r corff yn amrywio'n enfawr yn ystod y flwyddyn, gyda'r pathew bron yn dyblu ei bwysau haf cyn gaeafgysgu. Ddiwedd mis Hydref neu ddechrau Tachwedd bydd pathewod yn gaeafgysgu ac yn adeiladu nyth ar y llawr, yn aml mewn deilbridd neu wrth fôn coedlannau. Byddant yn deffro o'u gaeafgwsg ddiwedd Ebrill neu ym mis Mai, gan ddibynnu ar y tywydd. Yn ystod misoedd yr haf byddant yn adeiladu nythoedd sfferaidd yng nghanopi'r coed, gan ddefnyddio rhisgl a glaswellt, a defnyddir y rhain ar gyfer cysgu a magu. Bydd un neu ddwy dorllwyth yn cael eu geni bob blwyddyn unwaith y bydd y pathew wedi cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol, gyda phob torllwyth yn cynnwys rhwng tri a phump o rai bach.

Mae'r pathew yn hollysol, yn bwydo ar gnau, blodau, hadau, ffrwythau a phryfed. Mae angen ffynonellau bwyd dibynadwy arnynt rhwng mis Mai a mis Hydref, ac felly maent yn fwy tebyg o fod yn bresennol lle mae digon o amrywiaeth o goed a llwyni i ddarparu bwyd trwy gydol misoedd yr haf.

Ystyrir mai'r cynefin optimaidd ar gyfer y pathew yw coetir amrywiol ei strwythur, gydag isdyfiant trwchus yn cynnwys coedlannau collen aeddfed ac amrywiaeth o rywogaethau coed a llwyni. Mae gwrychoedd hefyd yn darparu adnodd pwysig i'r pathew, fel coridorau gwasgaru i hwyluso symud rhwng ardaloedd lle ceir cynefinoedd addas, yn ogystal â bod yn safleoedd i fyw'n barhaol ynddynt. Er mwyn bod o unrhyw werth i'r pathew, rhaid i wrychoedd fod yn llydan ac yn dal a rhaid iddynt gynnwys amrywiaeth eang o rywogaethau gyda nifer sylweddol o goed cyll a mieri, sy'n cyfrannu tuag at yr amrediad amrywiol blynyddol o blanhigion bwyd. Mae gwrychoedd tal, heb eu rheoli, yn gyfoethog o ran rhywogaethau gyda choed safonol a heb fylchau yn eithriadol werthfawr. Yn ogystal, gall plannu tirlun aeddfed hefyd gynnal poblogaethau pathew.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae pathewod wedi eu gwasgaru'n eang drwy holl siroedd de Lloegr, er hynny maent wedi eu colli dros 50% o'u cyn ehangder dros y ganrif ddiwethaf. Mae'r rhywogaeth fwy neu lai'n absennol o ardaloedd gogleddol y DU.

Yng Nghymru ceir poblogaethau gwasgaredig, ar y cyfan wedi eu cyfyngu i'r de, er eu bod ar gael yn y gogledd ddwyrain. Maent wedi eu canfod ar ymylon ffyrdd yn Sir Frycheiniog, Dyffryn Conwy, Dolgellau-Machynlleth ac ar ymylon ffyrdd o gwmpas Corris.

- Mae'r pathew wedi ei warchod drwy ei gynnwys ar Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd); ac Atodiad 3 Confensiwn Bonn.
- Mae wedi ei gynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Mae'r pathew wedi ei gynnwys yn Atodiad IVa Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992, ac Atodlen 2 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol a.y.y.b.) 1994.
- Mae'r Pathew yn Rhywogaeth Blaenoriaeth yn yr UKBAP.

### Statws ar y rhwydwaith

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw adroddiadau am bathewod o fewn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd presennol; serch hynny, gwyddys bod pathewod yn bresennol yn agos at y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Mae chwe chytref yn hysbys i'r gogledd o'r M4 ac un i'r de yn ardal Bro Morgannwg / Rhondda Cynon Taf. Er bod cynefin addas ar gael ar ddwy ochr y ffordd, awgrymir bod yr M4 yn rhwystr ffisegol i wasgariad. Mae'n debygol bod poblogaethau eraill nad ydynt wedi eu canfod hyd yn hyn.

### Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Newidiadau mewn arferion rheoli coedwigoedd.*

Mae arferion rheoli coedwigoedd megis coedlannu wedi cael eu disodli gan dorri a chliro coed dros y ganrif ddiwethaf. Mae coedlannu yn creu isdyfiant llawer mwy trwchus, sy'n bwysig i'r pathew. Mae arferion cyfredol, megis anifeiliaid yn pori mewn coetiroedd, yn ychwanegu at atal yr isdyfiant hwn rhag datblygu. Nid yw rheolaeth llawer o'r coetir o fewn yr ystâd feddal yn cael ei gynnal ar hyn o bryd mewn modd sy'n llesol i gadwraeth y pathew, ond pe byddai poblogaethau'n cael eu canfod byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r ffordd orau o reoli'r ardaloedd hyn.

*Darnio coetiroedd yn arwain at boblogaethau wedi eu hynysu*

Mae adeiladu ffyrdd wedi darnio coetiroedd gan atal gwasgaru poblogaethau pathew a chyfyngu ar yr adnoddau bwydo sydd ar gael. Er enghraifft, mae coetiroedd ym Mro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf wedi eu hynysu oddi wrth ei gilydd gan yr M4. Mae'n bosibl na fydd gan boblogaethau sydd wedi eu hynysu yn gymdeithasol ddigon o amrywiaeth genetig ar gyfer hyfywedd hir dymor.

### Colli gwrychoedd

Erbyn hyn, ystyrir bod gwrychoedd yn adnodd pwysig iawn i'r pathew. Mae colli a dirywio gwrychoedd cyfoethog o ran rhywogaethau wedi arwain at golli adnoddau cynefin a hefyd wedi achosi rhwystr enfawr i wasgariad, gan fod y pathew yn dibynnu ar nodweddion o'r fath i ymfudo o goetir i goetir.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae Nodyn Cyfarwyddo ar y Pathew wedi ei gyhoeddi fel rhan o DMRB Cyfrol 10 (HA 97/01 The Good Roads Guide Nature Conservation Management in Relation to Dormice).
- Cynhaliwyd dau gynllun monitro cenedlaethol gan ddefnyddio gwirfoddolwyr, sef yr 'Helfeydd Cnau Mawr'; cafodd yr wybodaeth (yn enwedig parthed dosbarthiad) ei datblygu yn gyngor ymarferol ar reoli cadwraeth.
- Mae English Nature wedi cyhoeddi'r 'Dormouse Conservation Handbook' (1996).
- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent newydd gwblhau adroddiad ar ddosbarthiad y pathew yng Nghymru.
- Cafodd y pathew ei ailgyflwyno i Sir Gaer ac ers hynny mae wedi ymledu i Wrecsam.
- Caiff arolygon pathew eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer cynlluniau newydd mewn ardaloedd lle mae'r pathew wedi ei gofnodi.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r cynllun hwn yw lleihau effeithiau niweidiol datblygiadau, yn enwedig adeiladu ffyrdd, ar boblogaethau pathew, ac yn benodol:

- ystyried, ac osgoi lle mae hynny'n bosibl, unrhyw effeithiau niweidiol ar bathewod wrth adeiladu ffyrdd;
- yn dilyn asesu cynhwysfawr, lliniaru yn erbyn yr effeithiau hynny na ellir eu hosgoi;
- hyrwyddo proffil poblogaethau pathew yng Nghymru i gontractwyr, ymgynghorwyr, Asiantau Cefnffyrdd a Staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth;
- parhau i wella gwybodaeth ynghylch dosbarthiad y pathew yng Nghymru, yn enwedig o fewn yr ystâd feddal; a
- phe byddai poblogaethau pathew yn cael eu canfod yn defnyddio'r ystâd feddal, cynnal a gwella'r cynefin, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn cadw'r rhywogaeth.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu'r angen am gynnwys cyngor manwl yn yr WTRMM parthed rheoli'r ystâd feddal mewn perthynas â'r pathew. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Ar gyfer cynlluniau newydd, nodi cynefinoedd addas i'r pathew o fewn yr ystâd feddal, a chynnal arolygon (yn defnyddio arolygwyr trwyddedig) lle bynnag y mae'r rhain yn bresennol. | Wrth i gynlluniau godi |
| Canolbwyntio ymdrechion arolygon ar yr ystâd feddal bresennol o gwmpas ardaloedd sydd wedi eu nodi fel rhai lle mae poblogaethau pathew yn bodoli, e.e. Dyffryn Gwy. | Cyfredol |

| Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd | |
|---|---|
| Cynnwys y pathew yng nghamau cyntaf y gwaith o ddylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd, er mwyn sicrhau nodi poblogaethau pathew yn gynnar. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle nad oes modd osgoi effeithio arnynt, gwneud ymdrech i greu cynefinoedd amgen a gwella'r cynefin sydd ar ôl. Ystyried darparu 'cysylltiadau' (megis pontydd rhaff) ar draws ffyrdd i'w hatal rhag bod yn rhwystrau i wasgariad. | Wrth i gynlluniau godi |
| Hyrwyddo technegau rheoli'r ystâd feddal sy'n gwella cynefinoedd sydd â'r potensial i fod yn addas ar gyfer y pathew. Ymestyn cynlluniau plannu presennol i ddarparu cynefinoedd o werth i'r pathew. | Cyfredol |
| Gwella cynefinoedd addas drwy ddarparu blychau pathew mewn 30 lleoliad o fewn ffiniau'r priffyrdd. | erbyn 2009 |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Sefydlu system i fonitro cynefinoedd addas ar gyfer y pathew o fewn yr ystâd feddal er mwyn galluogi monitro llwyddiant rheoli'r ystâd. | 2008 |
| Monitro mesurau lliniaru (er enghraifft, y rhai i gysylltu coetiroedd sydd wedi cael eu darnio gan ffyrdd) er mwyn hysbysu cynlluniau'r dyfodol. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Darparu gwybodaeth ar faterion y pathew ar gyfer staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ac Asiantau Cefnffyrdd. | 2008 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae'r pathew wedi ei gynnwys ar yr HABAP a'r UKBAP. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Bannau Brycheiniog, Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Bwrdeistref Sirol Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd, Sir Fynwy, Castell-Nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Parc Cenedlaethol Eryri, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Coetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig, a Nodweddion Ffiniol.


### Sefydliad blaen neu bartner

Nodir yn yr UKBAP mai'r prif bartneriaid ar gyfer y rhywogaeth hwn yw English Nature a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.



*Pili pala brith y gors*

# Glöyn Byw Brith y Gors (*Eurodryas aurina*)



**Mae'r glöyn byw brith y gors yn magu mewn cynefinoedd glaswelltir agored yn y DU, yn enwedig ar laswelltiroedd calchaidd asidig llaith neu sych sy'n cael eu dominyddu gan laswelltau sy'n ffurfio twmpathau.**

Mae poblogaethau i'w canfod hefyd ar rostir gwlyb, ymylon corsydd a llennyrch mewn coetiroedd. Tuedda'r cytrefi i fod yn gyfyngedig i ddarnau bach o gynefin, maent yn agored i newidiadau enfawr i faint y boblogaeth leol, ac nid yw mwyafrif y glöynnod byw unigol yn hedfan yn bell iawn (tua 100m). Serch hynny, tuedda'r cytrefi i fodoli fel metaboblogaethau gyda chytrefi eraill a gall glöynnod byw unigol hedfan 10 – 15 cilomedr.

Mae oedolion brith y gors yn hedfan o fis Mai i fis Mehefin, ac mae eu larfae yn byw yn gomunol mewn gwe-sidan ar blanhigion clafrllys gwreidd-dan. Gellir adnabod y cytrefi larfaol hyn yn hawdd tua diwedd yr haf. Mae poblogaethau'r glöyn byw yn gyfnewidiol dros ben, a gall fod angen rhwydweithiau cynefinoedd helaeth ar y rhywogaeth er mwyn sicrhau ei fod yn goroesi i'r hir dymor.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Bu brith y gors unwaith yn gyffredin iawn ym Mhrydain ac yn Iwerddon ond mae wedi dirywio'n ddifrifol yn ystod yr ugeinfed ganrif, dirywiad a ddigwyddodd ledled Ewrop. Credir mai'r DU yw cadarnle'r rhywogaeth hwn. O 434 cytref a nodwyd yn y DU, cofnodwyd 111 ohonynt yng Nghymru, yn enwedig yn ardaloedd de a gorllewin Cymru.

- Mae brith y gors wedi ei warchod dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981, ac mae wedi ei restru ar Atodiad II Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, a.y.y.b.)1994. Mae'r glöyn byw hwn hefyd wedi ei warchod dan Gonfensiwn Bern.
- Mae wedi ei gynnwys ar y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Mae brith y gors yn Rhywogaeth Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu y DU.
- Mae brith y gors wedi ei gynnwys yn narpariaethau Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 1992 y GE (Atodiad II), sy'n caniatáu dynodi ACAoedd ar sail ei bresenoldeb. Mae cyfanswm o 31 ymgeisydd ACA wedi eu cynnig ar gyfer y rhywogaeth hwn, 13 ohonynt yng Nghymru.
- Mae brith y gors wedi ei restru gan Gadwraeth Glöynnod Byw fel 'Rhywogaeth Blaenoriaeth Uchel' ym Mhrydain.

## Statws ar y rhwydwaith

Nid yw brith y gors wedi ei ganfod o fewn ffiniau'r ystâd feddal ei hun. Serch hynny, mae cyfres o safleoedd sy'n cynnwys cytrefi brith y gors wrth ochr yr M4, rhwng Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Gwyddys bod brith y gors hefyd yn bresennol ar ddwy ochr yr A465, a gerllaw'r A487 yng Ngwynedd.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Darnio a cholli cynefin drwy fynd â thir (datblygu)*

Mae brith y gors yn neilltuol agored i ddarnio cynefin. Tuedda'r oedolion i fod yn anghrwydr gan aros mewn cyfres o fetaboblogaethau cydgysylltiedig, yn ffurfio nifer o is-boblogaethau dros dro, sy'n aml yn marw allan ac yn ail-gytrefu. Mae newidiadau ym maint poblogaethau'n cael eu hachosi yn rhannol gan ymosodiadau gan gacwn parasitig, sy'n gwneud cynefinoedd yn anaddas nes bod poblogaethau'r parasit yn lleihau. Mae darnio cynefinoedd yn rhwystro ail-gytrefu safleoedd addas, ac felly nid yw poblogaethau yn gallu parhau heb glwstwr o safleoedd yn agos at ei gilydd. Mae coridorau ffyrdd yn ffurfio rhwystr ffisegol sylweddol i'r broses o ail-gytrefu, a gall darnau bach sydd ar ôl o safleoedd fod yn rhy fach i'w rheoli yn briodol. Gall darnio cynefinoedd fod yn gyfrifol am 'don' o achosion lle mae brith y gors wedi marw allan, sydd wedi ymestyn tua'r gorllewin drwy dde Cymru yn ystod y degawdau diwethaf.

### *Newid dulliau rheoli tir*

Mae newidiadau niweidiol yn cynnwys gwelliannau amaethyddol i laswelltiroedd corsog a sialc/calchaidd, coedwigo, a newidiadau mewn stoc pori (mae defaid yn dewis pori clafrllys gwreidd-dan ac felly maent yn niweidiol i boblogaethau brith y gors, oni bai mai stoc isel iawn ohonynt sydd yno). Gwyddys hefyd bod llosgi a thorri gwair wedi achosi i boblogaethau farw allan.

## Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae Cadwraeth Gloÿnnod Byw wedi paratoi Cynllun Gweithredu Rhywogaeth llawn ar gyfer y DU gyfan, ac mae'r rhywogaeth wedi ei gynnwys yn eu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Gymru ('Gweithredu dros Loÿnnod Byw').
- Mae archwiliad mawr o gynefinoedd/cytrefi brith y gors yn cael ei gynnal yn ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae pob safle lle cafodd brith y gors eu cofnodi yn Sir Benfro yn cael eu harolygu bob blwyddyn.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru newydd gwblhau arolwg llawn o frith y gors yng Nghymru, ac mae'r canlyniadau ar gael gan y Cyngor yn MapInfo. Mae Nodiadau cyfarwyddo ar gyfer diffinio a mapio ansawdd cynefinoedd brith y gors hefyd ar gael gan y Cyngor.

## Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- canfod pob ardal sydd â'r potensial i fod yn gynefin addas ar gyfer brith y gors ar yr ystâd feddal neu gerllaw iddi;
- cynnal gwaith cynnal ar adegau mwyaf priodol y flwyddyn lle ceir bod cynefinoedd yn addas;
- canfod cyfleon ar gyfer gwella yn ystod gwaith dylunio, adeiladu a chynnal.
- Ystyried rheoli ardaloedd o'r ystâd feddal er mwyn cysylltu parseli cynefin darniog; a
- gwella cynefin sydd â'r potensial i fod yn addas o fewn y rhwydwaith gerllaw safleoedd lle mae brith y gors wedi ei ganfod.

**Gweithredu bwriedig**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Canllawiau polisi a chyngor** | |
| Gweithio gydag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol y DU i adolygu'r angen am nodyn cynghori yn y DMRB ar frith y gors. | Dyddiad i'w drefnu |
| Diweddaru WTRMM i gynnwys gwybodaeth ar reoli'r ystâd feddal er mwyn hyrwyddo cadwraeth brith y gors. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Canfod ardaloedd o laswelltir corsog mewn perthynas â chynlluniau ffyrdd presennol a bwriedig gan ddefnyddio mapiau Cam 1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru a gwybodaeth gyfredol. | 2005 |
| Arolygu'r ardaloedd hynny sy'n gynefinoedd addas ar yr ystâd feddal sy'n agos at boblogaethau hysbys o frith y gors gan edrych ar eu haddasrwydd ac ar bresenoldeb gweoedd larfaol. | 2008 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Nodi cynlluniau ffyrdd allai ddarnio ymhellach fetaboblogaethau hysbys o loÿnnod byw brith y gors. Ymchwilio mecanweithiau ar gyfer lleihau effeithiau darnio lle nad oes modd osgoi hynny. | |
| Osgoi effeithiau anuniongyrchol llygredd dŵr ffo o ffyrdd ar gynefinoedd addas drwy ddylunio hydrolegol addas: yn ystod y cyfnod dylunio ac wrth i achosion o lygredd ddigwydd. | Cyfredol |
| Ystyried opsiynau ar gyfer lliniaru a gwella mewn gweithgareddau adeiladu a gwella ffyrdd, yn enwedig lle gallai newidiadau bach mewn rheoli (o fewn yr ystâd feddal) arwain at gynefin allai gysylltu parseli o ddarnau tir y tu allan i'r ystâd feddal. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle mae brith y gors i'w canfod ar ymylon ffyrdd, ystyried a ddylid diwygio rheolaeth gyfredol. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Creu a chynnal cronfa ddata o bob safle o fewn neu gerllaw'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd sydd naill ai'n feysydd magu hysbys neu sydd â'r potensial i fod yn addas ar gyfer brith y gors. | Cyfredol |
| Ystyried gwneud ymchwil i bennu a yw priffyrdd yn achosi rhwystr i wasgariad gydag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol y DU. | 2008 |

**Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill**

Mae Cadwraeth Gloÿnnod Byw wedi paratoi Cynllun Gweithredu Rhywogaeth UKBAP.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn, Bannau Brycheiniog, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Abertawe, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-Nedd Port Talbot, Powys, Rhondda Cynon Taf a Pharc Cenedlaethol Eryri.


Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Glaswelltir Calchaidd, Glaswellt y Bwla a Phorfa Frwyn.

**Sefydliad blaen neu bartner**

Nodir yn yr UKBAP mai'r Partner Blaen ar gyfer y rhywogaeth hwn yw Cadwraeth Gloÿnnod Byw.



*Dyfrgi*



# Dyfrgi (*Lutra lutra*)

**Mae dyfrgwn yn gigysgyddion nosol, lled-ddyfrol yn perthyn i deulu'r Mustelidae, sydd i'w canfod yn gyffredinol mewn afonydd, nentydd, corsydd a llynnoedd.**

Mae dyfrgwn yn anifeiliaid eithaf mawr; gall gwrywod llawn dwf dyfu hyd at 1.2m o hyd, yn cynnwys y gynffon. O fewn cyrraedd eu cartref, mae ar ddyfrgwn angen cyflenwad amrywiol o fwyd a hefyd dewis o fannau gorffwys neu waliau diarffordd, a'r rheiny'n gymharol ddigyffro. O ganlyniad, gall cylch cartref y dyfrgi gynnwys cymaint â 40 cilomedr o gynefin afon i'r gwrywod, er mai cylch llai a ddefnyddir gan y benywod. Maent yn symudol dros ben ac fel arfer i'w cael mewn dwyseddau isel dros ben. Mae poblogaethau felly yn fregus ar draws y rhan fwyaf o Ynysoedd Prydain.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Bu'r dyfrgi unwaith yn gyffredin ledled y DU, ond gwelwyd lleihad cyflym yn ei niferoedd o'r 1950au i'r 1970au a chafodd ei golli fwy neu lai'n llwyr o siroedd canol a de-ddwyrain Lloegr a rhannau o Gymru erbyn y 1980au. Erbyn hyn mae rhifau a dosbarthiad dyfrgwn yn cynyddu drwy'r DU, gan ymestyn o'r cadarnleoedd traddodiadol yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Lloegr, Dwyrain Anglia a De Orllewin Lloegr.

Yn hanesyddol mae Cymru wedi bod yn gadarnle i boblogaethau dyfrgwn yn y DU. Er y gellir canfod dyfrgwn ar y rhan fwyaf o systemau afonydd Cymru, nid yw maint a chryfder y boblogaeth yn gyson. Mae'r dyfrgi erbyn hyn yn gyffredin yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru; serch hynny, nid yw dyfrgwn i'w canfod mor fynych yn y de ddwyrain a rhannau o dde Cymru.

- Mae dyfrgwn wedi eu rhestru ar Atodiad II Confensiwn Bern ac Atodlenni II a IV Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992. Mae Atodlen II y Cyfarwyddeb hwn yn caniatáu dynodi ACAoedd ar sail eu presenoldeb. Mae cyfanswm o 71 ACA wedi eu cynnig ar gyfer dyfrgwn, 12 ohonynt yn rhannol neu'n gyfangwbl yng Nghymru. Mae ACAoedd Cymru yn cynnwys Afonydd Gwy, Dyfrdwy, Gwyrfai, Wysg, Tywi, Teifi a Gorllewin Cleddau.
- Mae dyfrgwn yn cael eu gwarchod dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 ac Atodlen 2 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol a.y.y.b.) 1994.
- Maent wedi eu cynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Mae Dyfrgwn wedi eu rhestru fel Rhywogaeth Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

*Statws ar y rhwydwaith*

Mae dyfrgwn yn bresennol yn y rhan fwyaf o ardaloedd o gwmpas y rhwydwaith, serch hynny maent wedi eu cyfyngu gan fwyaf i goridorau dyfrffosydd, ac felly byddant yn dod ar draws ystâd feddal y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth dim ond pan fydd ffyrdd yn croesi neu'n rhedeg yn gyfochrog â dyfrffosydd neu gorsydd, neu'n croesi dros y ffin rhwng dalgylchoedd afonydd.

Mae marwolaethau ar y ffordd wedi eu cofnodi ar y rhwydwaith presennol, ac mae mesurau lliniaru yn cael eu gosod mewn nifer o leoliadau.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Achosion o ddyfrgwn yn cael eu lladd ar y ffyrdd*

Mae achosion o ddyfrgwn yn cael eu lladd ar y ffyrdd wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru. Yn 2000 cafodd tua 50 o ddyfrgwn eu lladd ar ffyrdd yng Nghymru, ac ystyrir marwolaeth ar ffyrdd yn achos arwyddocaol o farwolaeth yn eu plith. Y duedd oedd eu bod yn digwydd mewn lleoliadau lle roedd dyfrgwn yn methu pasio drwy bontydd a chylfatiau ar adeg llif uchel, lle roedd dyfrgwn wedi cymryd 'llwybr tarw' ar draws ffyrdd, a lle roedd cefn deuddwr yn cael ei dorri yn ei hanner gan ffordd.

*Colli a dirywio cynefin a ffynonellau bwyd*

Gall datblygiadau ffordd newydd a chynllunio gwella ffyrdd arwain at golli cynefin glannau afon sy'n darparu safleoedd magu a gorffwys, ac at ddarnio cynefin y dyfrgi drwy rwystro mynediad ar hyd nodweddion dŵr llinol. Gall ffyrdd hefyd achosi llygredd i ddyfrffosydd yn arwain at leihad mewn rhywogaethau ysglyfaeth neu at adeiladu tocsinau yn y ddolen fwyd, gan achosi salwch a marwolaeth.

## Gweithredu ar hyn o bryd

- Ceir canllawiau arfer gorau ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar ddyfrgwn a mesurau lliniaru addas yn DMRB Cyfrol 10: HA 81/99 Cyngor Cadwraeth Natur mewn perthynas â Dyfrgwn. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys sicrhau bod pontydd a chylfatiau yn cael eu dylunio er mwyn i ddyfrgwn allu teithio drwyddynt adeg llif dŵr uchel drwy ddefnyddio pontydd rhychwant llydan, silffoedd neu dwneli. Yn ogystal â hyn, argymhellir defnyddio ffensio sy'n cadw dyfrgwn allan er mwyn eu rhwystro rhag cyrraedd coridor y ffyrdd.
- Cynhaliwyd astudiaeth o farwolaethau dyfrgwn ar ffyrdd ar draws Cymru er mwyn canfod mannau lle mae damweiniau'n digwydd yn aml (lle mae rhwng dau a saith dyfrgi wedi eu lladd dros gyfnod o amser), er mwyn targedu dulliau lliniaru penodol er mwyn lleihau marwolaethau dyfrgwn ar y ffyrdd.
- Mae Grŵp Llywio Ffyrdd a Dyfrgwn – Cymru, a sefydlwyd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gyda chefnogaeth nifer o sefydliadau sydd â diddordeb, yn gweithio i sicrhau bod cofnodion marwolaethau'n cael eu hasesu'n gyflym a'u dosbarthu i ecolegwyr a pheirianyddion er mwyn hysbysu mesurau lliniaru.
- Yng Nghymru, mae swyddogion Dŵr i Fywyd Gwyllt yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i lunio gwybodaeth gyfredol ar ddosbarthiad lleol dyfrgwn.
- Gosodir mesurau lliniaru yn rheolaidd ar ffyrdd newydd; mae mesurau lliniaru hefyd wedi eu darparu mewn lleoliadau ar y ffyrdd presennol hyn: yr M4, yr A465, yr A40, yr A44 a'r A487.

**Nodau a thargedau'r cynllun**

Nodau'r Cynllun Gweithredu Rhywogaeth hwn yw:

- osgoi effeithiau cynlluniau ffyrdd newydd neu welliannau ar ddyfrgwn;
- lliniaru effeithiau na ellir eu hosgoi ar ddyfrgwn a/neu ar eu cynefinoedd;
- lleihau lefel marwolaeth dyfrgwn ar ffyrdd presennol;
- diogelu a gwella poblogaethau dyfrgwn y gwyddys amdanynt yn agos at y rhwydwaith ffyrdd;
- codi ymwybyddiaeth staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, Asiantau Cefnffyrdd ac ymgynghorwyr parthed arwyddocâd dyfrgwn ar y rhwydwaith;
- diogelu a gwella nodweddion cynefin sydd â'r potensial i fod yn addas ar gyfer dyfrgwn o fewn yr ystâd feddal; a
- datblygu gwell gwybodaeth am ddosbarthiad dyfrgwn ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd.

**Proposed Gweithred**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu'r Nodyn Cyfarwyddo ar Ddyfrgwn cyfredol gydag Awdurdod Priffyrdd Cenedlaethol y DU. | 2004 |
| Adolygu'r WTRMM ar reolaeth yr ystâd feddal er budd dyfrgwn. | 2007 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Lle nad oes modd osgoi effeithiau cynlluniau newydd a gwelliannau ffyrdd ar gynefinoedd dyfrgwn, ystyried yr opsiynau ar gyfer pontydd rhychwant lydan, silffoedd dyfrgwn, twneli ffyrdd, mannau gorffwys i ddyfrgwn, gwelliannau eraill i gynefinoedd, a gwaliau artiffisial, a rhwystro effeithiau ar fannau bwydo drwy reolau llygredd priodol. | Cyfredol |
| Cynyddu maint y cynefin sydd ar gael i ddyfrgwn drwy gael gwared ar rwystrau i wasgariad (er enghraifft, o dan bontydd a thrwy gylfatiau) a thrwy greu cynefinoedd addas lle bynnag y mae hynny'n bosibl. | Cyfredol |
| Parhau i ddarparu mesurau lliniaru a gyfer ffyrdd presennol mewn safleoedd a nodir fel mannau 'du' ar draws y rhwydwaith. Deg safle priodol bob blwyddyn. | 100 safle erbyn 2014 |
| Gwirio gwaliau artiffisial, twneli dyfrgwn a ffensys yn rheolaidd fel rhan o weithgareddau cynnal er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt wedi eu blocio nac mewn cyflwr drwg. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Parhau i gefnogi gwaith i nodi mannau 'du' ar ffyrdd presennol sy'n fygythiad i ddyfrgwn. | Cyfredol |
| Monitro'r defnydd a llwyddiant mesurau lliniaru dyfrgwn sydd wedi eu gosod ar draws y rhwydwaith er mwyn hysbysu lliniaru yn y dyfodol. | Cyfredol |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Cynnwys gwybodaeth ar faterion dyfrgwn ar gyfer staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ac Asiantau Cefnffyrdd. | Cyfredol |



*Silff dyfrgwn*

**Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill**

Mae Cynllun Gweithredu Rhywogaeth UKBAP ar gyfer Dyfrgwn.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn, Bannau Brycheiniog, Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-Nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Eryri, Torfaen a Wrecsam.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Cynlluniau Gweithredu Rhywogaeth Rhywogaethau Dyfrol a Llygoden bengron y dŵr, a Chynlluniau Gweithredu Cynefin Afonydd a Nentydd a Chyrff Dyfrol.


**Sefydliad blaen neu bartneriaid**

Nodir yn yr UKBAP mai'r Prif Bartneriaid ar gyfer y rhywogaeth hwn yw Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.



*Madfall fenywaidd yn torheulo ar graig*

# Ymlusgiaid (*Reptilia*)



**O'r chwe rhywogaeth o ymlusgiaid sy'n frodorol i Brydain, mae pump ohonynt i'w canfod yng Nghymru. Nadroedd yw dau ohonynt: y neidr lwyd a'r wiber. Madfallod yw'r tri arall: madfall gyffredin (neu fudrchwilen); madfall y twyni; a'r neidr ddefaid (madfall ddigoesau).**

Y neidr lwyd (*Natrix natrix*) yw'r neidr fwyaf, a gall dyfu i dros fetr o hyd. Fe'i cysylltir â dŵr yn aml, ac amffibiaid a physgod yw ei phrif ysglyfaeth. Mae'r neidr lwyd yn dodwy wyau ac nid yw'n wenwynig. Y wiber (*Vipera berus*) yw'r unig neidr wenwynig, er mai anaml y bydd brathiadau'n lladd. Mae'n well gan y neidr hon safleoedd agored, ac fe'i ceir mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd o'r fath, yn cynnwys rhostir, gweundir, coetir agored, ymylon caeau a gwrychoedd, corsydd ac ardaloedd corsog.

Mae'r fadfall gyffredin (*Lacerta vivipara*) hefyd i'w chanfod mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd. Fe'i ceir amlaf mewn cynefinoedd mwy sych megis tir comin, rhostir, gweundir, waliau cerrig sych, argloddiau a chreigiau, ond gellir hefyd eu canfod ar rostir gwlyb. Yn wahanol i'r ddwy fadfall hyn, sy'n rhoi genedigaeth i epil byw, mae ar y trydydd rhywogaeth, madfall y twyni (*Lacerta agilis*), angen swbstrad tywyodllyd er mwyn dodwy ei wyau, ac felly mae wedi ei gyfyngu i rostiroedd tywodllyd a thwyni tywod arfordirol gyda rhywfaint o gysgod.

Y neidr ddefaid (*Anguis fragilis*) yw'r rhywogaeth madfall mwyaf cyffredin ym Mhrydain. Fe'i gwelir ledled Cymru yn y rhan fwyaf o gynefinoedd agored a lled-agored, yn cynnwys porfeydd, llennyrch coediog, prysg a rhostir. Fe'i ceir hefyd mewn argloddiau a gwrychoedd, ac yn gyffredin mewn gerddi (yn enwedig mewn twmpathau compost). Yn wahanol i fadfallod erall, sy'n torheulo mewn mannau agored, mae'r neidr ddefaid yn amsugno gwres drwy gysgodi dan adeileddau sy'n agored i'r haul.

Y cynefinoedd UKBAP sy'n neilltuol berthnasol i ymlusgiaid, ac sydd i'w cael o fewn yr ystâd feddal yw gwrychoedd hynafol a/neu rywogaeth-gyfoethog, rhostir yr iseldir, glaswelltir calchaidd, creigiau mewndirol a phob math o goetiroedd.



*Gwiber gwrywaidd yn torheulo ar graig*

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae gwiberod, nadroedd llwyd, nadroedd defaid a madfallod cyffredin i'w cael ym mhobman ac maent yn gyffredin yn lleol ledled Cymru.

Yn y DU, mae madfall y twyni i'w cael yn naturiol mewn nifer fach iawn o safleoedd yn ne a gogledd orllewin Lloegr. Fodd bynnag, mae'n cael ei hailgyflwyno i safleoedd fu unwaith yn rhan o'i thiriogaeth, yn cynnwys safleoedd yng Ngogledd Cymru.

- Mae madfallod y twyni a'u cynefinoedd wedi eu gwarchod yn llawn dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, a.y.y.b.) 1994. Mae nadroedd defaid, gwiberod, nadroedd llwyd a madfallod cyffredin wedi eu gwarchod rhag cael eu lladd, eu niweidio na'u gwerthu dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Mae madfallod y twyni wedi eu rhestru fel Rhywogaeth Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae wedi ei gynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Cyfyng iawn yw dosbarthiad chweched ymlusgiad brodorol y DU – y neidr lefn (*Coronella austrica*) – ac nid yw i'w chanfod yng Nghymru.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Mae pob rhywogaeth yn debyg o fodoli o fewn yr ystâd feddal, ar wahân, mae'n debyg, i fadfall y twyni, er nad oes cofnodion manwl ar gael. Mewn sawl achos, gellir casglu bod presenoldeb rhywogaeth penodol yn debygol oherwydd nodweddion y cynefinoedd sydd ar gael. Gall ardaloedd 'diffaith', lle mae gwastraff adeiladu wedi ei adael heb ei gyffwrdd, hefyd fod yn gynefin gwerthfawr.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Colli cynefin a darnio*

Mae adeiladu ffyrdd newydd a gweithredu cynlluniau gwella yn debyg o gael effaith sylweddol ar boblogaethau ymlusgiaid drwy golli a darnio cynefinoedd. Mae ffyrdd yn debyg o achosi rhwystrau sylweddol i wasgariad.

### *Lladd ar y ffyrdd*

Mae'n debygol bod achosion o ladd ar y ffyrdd yn cael eu tan-adrodd, ac ni wyddys beth yw graddfa nac arwyddocâd marwolaeth ar y ffyrdd. Gall marwolaeth sy'n digwydd yn sgîl adeiladu ffyrdd a gweithgaredd cynnal hefyd fod yn arwyddocaol.

*Rheoli cynefinoedd yn amhriodol*

O fewn yr ystâd feddal, gall rheolaeth ymylon ffyrdd gael effaith sylweddol ar boblogaethau ymlusgiaid. Y rhywogaethau y mae'n fwyaf tebygol yr effeithir arnynt yng Nghymru yw nadroedd defaid, gwiberod a madfallod cyffredin. Y gweithgareddau rheoli sy'n debyg o gael effaith niweidiol ar ymlusgiaid yw strimio a thorri gwair. Mae olyniaeth naturiol llystyfiant ar safle i goetir aeddfed yn naturiol yn achosi i gynefinoedd droi'n anaddas ar gyfer ymlusgiad dros gyfnod o amser, felly gallai cael gwared ar brysg fod o fudd.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae gwaith ymchwil ar arfer gorau gyda golwg ar lunio canllawiau newydd (i ffurfio rhan o'r DMRB) yn cael ei wneud gan yr Asiantaeth Briffyrdd ynghyd ag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol eraill y DU.
- Mae cyhoeddiad JNCC 'Herpetofauna Workers' Manual' a 'Species Conservation Handbook' English Nature ill dau yn cynnwys gwybodaeth ar reoli cynefinoedd ar gyfer ymlusgiaid, yn ogystal â chyngor ar arolygu a lliniaru.
- Mae arolygon a mesurau lliniaru megis mannau gaeafgysgu newydd wedi bod yn cael eu defnyddio, ac yn cael eu defnyddio, gyda chynlluniau newydd yn cynnwys yr A40 Ffordd Osgoi Dwyrain Caerfyrddin a'r A470 Gwelliant Dolwyddelan i Bont yr Afanc.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- nodi ardaloedd o gynefin sy'n addas ar gyfer ymlusgiaid o fewn yr ystâd feddal;
- cadw at gyngor arfer gorau newydd wrth iddo gael ei ddatblygu (parthed adeiladu a chynnal ffyrdd); a
- nodi cyfleon ar gyfer gwelliannau yn ystod y gwaith o ddylunio ac adeiladu ffyrdd.

# Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau



*Pâr o wiberod yn perfformio 'dawns' garwriaeth*

## Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu cyngor presennol yn yr WTRMM er mwyn sicrhau ei fod yn ymgorffori arfer da. | 2007 |
| Cynhyrchu cyngor ar gyfer DMRB gyda'r Asiantaeth Priffyrdd ac Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol y DU. | 2004 |
| **Arolygu** | |
| Cynnal arolygon o gynefinoedd addas er mwyn llunio darlun llawnach o ddefnydd yr ystâd feddal gan ymlusgiaid. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Canfod presenoldeb tebygol ymlusgiaid yn gynnar, yn enwedig gyda chynlluniau lle nad oes dewis ond effeithio ar ymlusgiaid, a lle byddai angen traws-leoli fel dewis olaf. | Cyfredol |
| Creu cynefinoedd ymlusgiaid ar bum safle newydd y flwyddyn mewn lleoliadau addas. | 50 safle erbyn 2014 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Sicrhau bod Asiantau Cefnffyrdd yn ymwybodol o'r arfer gorau cyfredol parthed ymlusgiaid, yn enwedig ychwanegiadau newydd i'r DMRB ac WTRMM. | 2004/8 |

## Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae UKBAP ar gyfer madfall y twyni. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Caerffili, Conwy, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Nodweddion Ffiniol, Arfordirol ac Aberol, Glaswelltir Calchaidd, Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir, Dolydd yr Iseldir a Glaswellt y Bwla a Phorfa Frwyn.

## Sefydliad blaen neu bartner

Nodir yn yr UKBAP mai'r cyd brif bartneriaid ar gyfer madfall y twyni yw English Nature a'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Herpetolegol.



*Llygoden bengron y dŵr*



# Llygoden Bengron y Dŵr (*Arvicola terrestris*)

**Roedd llygod pengrwn y dŵr unwaith yn gyffredin ac i'w cael yn eang ar hyd afonydd, camlesi a phyllau, ond maent erbyn hyn yn dirywio'n gyflym iawn. Dros y ganrif ddiwethaf mae dros 95% o boblogaeth llygoden bengron y dŵr yn y DU wedi ei cholli.**

Mamaliaid tiriogaethol yw llygod pengrwn y dŵr, gydag 'ardaloedd cartref' sefydledig yn ystod y tymor magu (rhwng Chwefror a Thachwedd). Gallant gael hyd at bum torllwyth y flwyddyn gyda rhwng tri ac wyth o rai bach. Mae llygod pengrwn y dŵr yn byw mewn tyrchfeydd, ar hyd cynefinoedd y glannau pridd naturiol, sy'n aml yn llawn llystyfiant. Anifeiliaid llysieuol ydynt yn bennaf, yn bwyta glaswelltau, hesg, brwyn a llystyfiant ymylol arall. Mae llygod pengrwn y dŵr yn byw mewn systemau tyrchfeydd helaeth sydd â mynedfeydd uwch lefel y dŵr ac oddi tano, ac ar ben glannau. Defnyddir tyrchfeydd hefyd ar gyfer storio bwyd, nythu ac fel dihangfeydd. Er eu bod yn aml yn cael eu galw'n 'llygod mawr y dŵr', ni ddylid eu drysu gyda'r llygoden fawr.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Tra bod llygod pengrwn y dŵr ar hyn o bryd i'w cael ledled y DU, rhagwelir y byddant yn marw allan mewn ardaloedd o fewn y deng mlynedd nesaf os na chaiff eu dirywiad ei atal. Yng Nghymru, mae'r dirywiad wedi bod yn amlwg iawn: cofnododd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn ddiweddar ddirywiad o bron 18% ym meddiannaeth safleoedd addas dros gyfnod o ryw ddeng mlynedd.

- Mae llygoden bengron y dŵr wedi ei rhestru dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ond ar hyn o bryd dim ond mewn perthynas ag Adran 9 (4) sy'n gwarchod cynefin llygoden bengron y dŵr (h.y. glannau nodweddion dŵr).
- Mae wedi ei chynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.
- Mae llygoden bengron y dŵr yn Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Er nad yw llygod pengrwn y dŵr yn gyffredin yng Nghymru, nid ydynt wedi eu cyfyngu i unrhyw ardal yn benodol. Maent yn debygol o gael eu canfod mewn nifer o ardaloedd lle mae ffyrdd yn rhedeg yn gyfochrog neu'n croesi cwterydd, ffosydd, camlesi neu gyrff dyfrol eraill. Mae'n hysbys bod llygod pengrwn y dŵr i'w cael ar yr A487 gwelliant Llanwnda i'r de o Lanllyfni ac ar yr A55 ar draws Ynys Môn, lle rhoddwyd sylw arbennig i gadwraeth y rhywogaeth hon yn ystod y gwaith adeiladu. Ar yr A55, maent wedi cytrefu nifer o byllau cydbwyso.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Dirywiad yn ardal y cynefin; darnio*

Gall adeiladu ffyrdd newydd arwain at golli'r llystyfiant ar y glannau sydd ei angen ar lygod pengrwn y dŵr ar gyfer bwydo a magu. Gall colli'r cynefin addas hwn, er enghraifft drwy adeiladu ffyrdd newydd, arwain at boblogaethau darniog o lygod pengrwn y dŵr, all fod yn fwy agored i gael eu hysglyfaethu lle nad yw cysylltiadau addas at gynefinoedd amgen yn cael eu cynnal.

### *Dirywiad yn ansawdd y cynefinoedd*

Gall adeiladu ffyrdd achosi llygredd mewn afonydd. Mae ymchwil yn awgrymu bod llygredd dŵr yn brif ffactor yn y cynnydd diweddar mewn clefydau a marwolaeth ymysg llygod pengron y dŵr, gan eu bod yn sensitif i ddirywiad mewn ansawdd dŵr. Mae arferion rheoli glannau hefyd wedi cyfrannu tuag at ddirywiad mewn ansawdd cynefinoedd drwy reoli llystyfiant y glannau a thrwy golli stribedi ffiniol y glannau. Mae'r cynnydd yn y defnydd o wenwyn llygod yn y DU wedi cyfrannu at ddirywiad yn ansawdd y dŵr ar gyfer llygod pengrwn y dŵr. Yn rhyfeddol, mae llygod pengrwn y dŵr wedi eu canfod mewn ardaloedd lle mae llawer o weithgaredd dynol.

### *Ysglyfaethu gan y minc*

Mae'r lleihad yn niferoedd llygod pengrwn y dŵr a'r newidiadau mewn cynefinoedd wedi golygu eu bod yn fwy agored i farw allan yn lleol, yn enwedig o ganlyniad i ysglyfaethu gan y minc Americanaidd (*Mustela vison*), sydd wedi bod yn ymledu ac yn dod yn fwy niferus ledled Prydain dros y 50 mlynedd diwethaf. Serch hynny, dylai unrhyw fesurau rheoli minc gael eu gwneud fel rhan o ddull cydlynol cyffredinol gyda thirfeddianwyr eraill, mewn cyfuniad gyda darparu neu gynnal cynefinoedd o ansawdd da.

## Gweithredu ar hyn o bryd

- Cafodd arolwg diweddar o boblogaethau llygod pengrwn y dŵr ei gwblhau yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent. Bydd yr wybodaeth gafodd ei choladu o'r arolwg hwn yn galluogi gwneud penderfyniadau cynllunio wedi eu hysbysu'n well.
- Mae ymchwil dan law ar hyn o bryd parthed y berthynas rhwng llygod pengrwn y dŵr a'r minc, ac ar ddeall symudiadau ac ymddygiad llygoden bengron y dŵr yn well.
- Mae canllawiau manwl ar liniaru a rheoli ar gael yn 'Llawlyfr Cadwraeth Llygoden Bengron y Dŵr' (2001).
- Mae arolygon ar lygod pengrwn y dŵr yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer cynlluniau newydd.

## Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r cynllun hwn yw osgoi unrhyw golli neu ddarnio pellach ar gynefin llygoden bengron y dŵr, lliniaru unrhyw effeithiau na ellir eu hosgoi, a lleihau effeithiau llygredd i ansawdd dŵr a achosir gan ffyrdd.
Yn benodol:

- osgoi a lleihau holl effeithiau adeiladu ffyrdd newydd neu wella ffyrdd ar lygod pengrwn y dŵr oni bai eu bod yn gwbl angenrheidiol.
- gwella ansawdd y cynefin oddi amgylch a chreu cynefinoedd newydd pan na ellir osgoi effeithiau;
- gwella'r cynefin yn yr ystâd feddal lle gwyddys bod poblogaethau llygod pengrwn y dŵr i'w cael ar neu yn agos at gynlluniau ffyrdd presennol, a gwella ardaloedd sydd â'r potensial i fod yn addas ar gyfer llygod pengrwn y dŵr, ond lle nad ydynt yn byw ar hyn o bryd;
- codi ymwybyddiaeth y rhai sydd â rhan yn y gwaith o ddylunio, adeiladu a chynnal y rhwydwaith i arwyddocâd a breuder poblogaethau llygoden bengron y dŵr; a
- gwella'r wybodaeth am ddosbarthiad llygod pengrwn y dŵr a phwysigrwydd cynefinoedd o fewn yr ystâd feddal.

## Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu, gydag Awdurdod Priffyrdd Cenedlaethol y DU, yr angen am nodyn cyfarwyddo ar lygod pengrwn y dŵr o fewn y DMRB. | 2005 |
| Adolygu a diweddaru'r WTRMM yn ôl y galw i gynnwys gwybodaeth ar reoli'r ystâd feddal er mwyn hyrwyddo cadwraeth llygoden bengron y dŵr. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Sefydlu system i fonitro poblogaethau llygoden bengron y dŵr a chynefinoedd addas mewn ardaloedd o'r ystâd feddal lle y mae'n hysbys bod poblogaethau llygoden bengrwn y dŵr yno eisoes. | 2009 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Ar gyfer pob cynllun adeiladu a gwella ffyrdd, cynnwys astudiaeth ddesg gychwynnol ac arolwg ar lygoden bengron y dŵr gan y gall nodi pethau o fewn cyfnod cwmpasu'r datblygiad ganiatáu osgoi effeithiau. | Wrth i gynlluniau godi |
| Gwneud iawn am unrhyw effeithiau na ellir eu hosgoi yn sgîl datblygiadau ffyrdd drwy ddarparu cynefinoedd newydd, drwy wella cynefinoedd presennol, drwy gymryd camau rheoli cadarnahol (er enghraifft, darparu ffensys, rheoli prysg) a rheoli llygredd o ddŵr ffo oddi ar ffyrdd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Cael gwared ar y rhwystrau i wasgariad llygod pengrwn y dŵr drwy ddarparu cwteri a nodweddion dŵr wedi eu dylunio yn benodol i'r pwrpas. | Wrth i gynlluniau godi |
| Darparu cynefinoedd newydd i lygoden bengron y dŵr, naill ai drwy greu cynefinoedd neu drwy newidiadau mewn rheolaeth, mewn lleoliadau addas: dau safle y flwyddyn. | 20 safle erbyn 2014 |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Monitro poblogaethau llygoden bengron y dŵr ar yr ystâd feddal neu'n agos ati fel rhan o unrhyw gynllun lliniaru; canfod llwyddiant mesurau lliniaru o'r fath er mwyn hysbysu gweithredu yn y dyfodol. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Darparu gwybodaeth ar lygod pengrwn y dŵr yn yr hyfforddiant amgylcheddol a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth a gan Asiantaethau Rheoli. | 2008 |

## Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae llygod pengrwn y dŵr wedi eu cynnwys yn yr UKBAP a'r HABAP.

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Ynys Môn, Bannau Brycheiniog, Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Bwrdeistref Sirol Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd, Sir Fynwy, Castell-Nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Parc Cenedlaethol Eryri, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg.


Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Cynlluniau Gweithredu Cynefin Afonydd a Nentydd a Chyrff Dyfrol, a'r Cynlluniau Gweithredu Rhywogaeth ar gyfer Dyfrgwn a Rhywogaethau Dyfrol.

## Sefydliad blaen neu bartner

Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r prif bartner ar gyfer cadwraeth llygoden bengron y dŵr.



*Gwyfyn cliradain Gymreig*



# Gwyfyn Gliradain Gymreig (*Synanthedon scoliaeformis*)

**Credir bod y rhywogaeth macro-wyfyn prin hwn wedi ei gyfyngu i glystyrau coed bedw aeddfed.**

Mae'r gwyfyn hwn yn dodwy ei wyau mewn cilfachau yn y rhisgl neu mewn tyllau fu gynt yn dyllau cyfodol. Ymddengys mai eu hoff gynefin yw grwpiau gwasgaredig o goed bedw hŷn o fewn porfa asidig gwlyb sydd heb ei gysgodi.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Cafodd y gliradain Gymreig ei hailddarganfod ym 1988 ar ôl credu ei bod wedi marw allan yng Nghymru ers 100 mlynedd. Hyd yn ddiweddar, dim ond tri safle oedd yn hysbys yng Ngwynedd (Meirionydd) a Phowys (Sir Drefaldwyn). Dangosodd arolygon gynhaliwyd yn 2002, fodd bynnag, bod y rhywogaeth i'w gael mewn 37 sgwâr 1-cilomedr yn yr ardal hon, ac mae'n debygol fod y rhywogaeth (gafodd ei gofnodi ledled Cymru yn y gorffennol ond sydd erbyn hyn bron yn bendant wedi ei gyfyngu i ardaloedd lleol) wedi cael ei fethu yn gyffredinol.

Mae wedi ei gynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Yn ddiweddar cafodd y gliradain Gymreig ei chofnodi mewn hen goed bedw ar hyd yr A470 ger Dolgellau.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Colli cynefin*

Mae'r gliradain Gymreig yn dibynnu ar goed bedw. Mewn rhai ardaloedd, lle mae clystyrau coed bedw i gyd yr un oed, gall hyn arwain at golli dilyniant cynefinoedd addas yn y dyfodol. Daw coed bedw yn aeddfed yn 40 mlwydd oed, a gallant fyw nes eu bod yn 60-80 mlwydd oed. Ar yr ystâd feddal, gall coed hŷn neu or-aeddfed gael eu symud am resymau diogelwch.

Gall gor-bori gan ddefaid atal adfywiad coed bedw mewn mannau: mae hyn yn llai tebygol o fod yn broblem ar yr ystâd feddal, lle mai anaml y bydd pori yn briodol.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae'r tri safle gwreiddiol lle cafodd y gwyfyn ei gofnodi wedi cael eu harolygu'n rheolaidd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Cynhaliwyd arolwg ehangach yn 2002.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw canfod clystyrau o goed bedw aeddfed ar yr ystâd feddal, a chanfod a yw'r gliradain Gymreig yn bresennol.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Cyfarwyddo Polisi** | |
| Diweddaru WTRMM i gynnwys gwybodaeth ar reolaeth yr ystâd feddal i hyrwyddo cadwraeth y gliradain Gymreig mewn lleoliadau addas. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Canfod clystyrau addas o goed bedw aeddfed ar yr ystâd feddal, a chynnal arolygon i ganfod y gliradain Gymreig. Rhoi blaenoriaeth i glystyrau coed bedw yn y lleoliadau lle cafodd y gliradain Gymreig ei chanfod mewn arolygon blaenorol. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Sicrhau bod presenoldeb potensial y gliradain Gymreig yn cael ei ystyried cyn unrhyw waith cynnal coed bedw a chyn adeiladu cynlluniau newydd. | Cyfredol/Wrth i gynlluniau godi |
| Annog adfywio coed bedw drwy ddefnyddio ffensys, a phlannu coed bedw newydd lle mae hynny'n briodol. | Cyfredol |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Nid yw'r gliradain Gymreig wedi ei chynnwys yn yr UKBAP nac mewn unrhyw LBAP yng Nghymru.

Mae wedi ei chynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Cadwraeth Gloÿnnod Byw i Gymru fel Macro-wyfyn Blaenoriaeth Uchel.

Y Cynllun Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori ag ef hefyd yw Coetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig.


### Sefydliad blaen neu bartner

Nid yw hwn yn rhywogaeth UKBAP ac felly nid oes Partner Blaen.



Poplysen ddu frodorol

# Poplysen Ddu (Frodorol)
## (*Populus nigra* subsp. *betulifolia*)



**Mae gan sbesimenau aeddfed o'r goeden frodorol lydan-ddeiliog hon gorun eang, boncyff garw a changhennau mawr ysgubol, ac o'r herwydd ni ddylid ei drysu gyda'r nifer o groesiadau anfrodorol sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n cael eu plannu yn aml ledled Prydain.**

Mae'r boplysen ddu frodorol wedi ei chyfyngu gan fwyaf i orlifdiroedd afonydd yr iseldir, yn tyfu mewn pridd llaith ger dyfrffosydd, pyllau ac o fewn gwrychoedd. Ar un adeg roedd y goeden yn tyfu mewn coedwigoedd afonol fyddai'n dioddef llifogydd yn y gaeaf. Erbyn hyn, nid yw'r cynefin hwn i'w weld ym Mhrydain bron o gwbl, ond ystyrir ei bod yn amhosibl gwahaniaethu rhwng coed sy'n cynrychioli olion y cynefin coetir hwn a'r rhai sydd wedi cael eu plannu flynyddoedd yn ôl.

Mae golwg nodweddiadol y goeden hon yn golygu ei bod yn cael ei phlannu yn aml fel coeden dornod/ffiniol, yn nodweddiadol mewn tir pori isel sy'n cael llifogydd yn aml.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae coed poplys du brodorol wedi eu cofnodi yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru a Lloegr (nid yw'r rhywogaeth hwn wedi ei gofnodi yn yr Alban). Amcangyfrifir mai rhwng dwy a thair mil o goed yw'r boblogaeth gyfredol (gall y ffigwr hwn fod yn uwch gan fod y rhywogaeth yn cael ei fethu'n aml neu'n cael ei adnabod yn anghywir fel poplysen ddu hybrid). Credir bod y mwyafrif o'r coed sy'n goroesi wedi eu lluosogi fel toriadau gafodd eu cymryd gan gyn lleied â chwe chant o goed unigol.

Yng Nghymru, mae'r goeden yn fwy cyffredin yn y siroedd ar y ffin â Lloegr, ond mae hefyd wedi cael ei chofnodi'n agos at yr arfordir yn Sir Benfro, Sir Aberteifi, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, a Chonwy.

Mae'r Cynefinoedd Blaenoriaeth UKBAP canlynol yn neilltuol bwysig ar gyfer y coed hyn: gwrychoedd hynafol a/neu rywogaeth-gyfoethog, cors bori arfordirol a gorlifdir, dŵr llonydd ewtroffaidd a dolydd yr iseldir.

*Statws ar y rhwydwaith*

Gwyddys bod coed poplys du brodorol i'w cael ar yr ystâd feddal ar yr A5 yn Nyffryn Dyfrdwy.

### Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Anallu i atgynhyrchu'n naturiol*

Er mwyn atgynhyrchu'n llwyddiannus o eginblanhigion, mae angen presenoldeb coed gwryw a benyw yn agos at ei gilydd ar y planhigyn hwn, a swbstrad mwd llaith addas sydd ar gael ym mis Mehefin. Mae mwyafrif y coed yn wrywaidd, gan i nifer o goed benywaidd gael eu torri i lawr yn y gorffennol gan fod y manblu gwyn sy'n amgylchynu'r hadau yn cael eu hystyried yn niwsans. O ganlyniad, mae draenio tir amaethyddol a phrinder coed benywaidd fwy neu lai wedi ei ddileu rhag bod yn rhywogaeth sy'n atgynhyrchu'n naturiol.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth a sefydliadau eraill wedi cymryd toriadau o'r stoc brodorol er mwyn atgynhyrchu o'r rhywogaeth hwn, yn barod i'w hail-blannu yn agos at eu ffynhonnell hysbys. Dyma'r dull mwyaf cyffredin o atgynhyrchu.

*Colli cynefin drwy fynd â thir, llygredd neu ddarnio*

Mae'r cynefinoedd y mae'r boplysen ddu frodorol yn dibynnu arnynt wedi eu colli drwy newidiadau hydrolegol yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth, datblygiadau a chynlluniau ffyrdd.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae'r Comisiwn Coedwigaeth, ynghyd â nifer o awdurdodau lleol, yn lluosogi coed o darddiad hysbys i'w defnyddio mewn cynlluniau plannu.
- Mae grwpiau rhanbarthol wedi eu sefydlu mewn lleoliadau amrywiol er mwyn cadw, cynnal a hyrwyddo coed yn eu rhanbarth eu hunain.
- Caiff poplys du aeddfed eu disgrifio mewn cronfa ddata ganolog sy'n cael ei chadw gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg yn Monkswood, Caergrawnt.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- canfod y coed unigol ar yr ystâd feddal; a
- chynnal y coed hynny mewn cyflwr diogel ac iach.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Arolygu** | |
| Nodi unrhyw goed poplys du sy'n bodoli ar yr ystâd feddal. | 2007 |
| Monitro cyflwr y coed poplys du brodorol ar yr ystâd feddal. | Bob 5 mlynedd/ 2008 a 2013 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Canfod cyfleon newydd i gynnwys coed poplys du brodorol mewn unrhyw gynlluniau plannu newydd. Plannu mewn deg safle erbyn 2014. | 10 safle erbyn 2014 |
| Gyda phob cynllun ffordd newydd a gwelliannau ffyrdd, osgoi effeithiau uniongyrchol ar goed poplys du brodorol, yn enwedig coed benywaidd. Lle nad oes modd osgoi hyn, plannu coed newydd o darddiad lleol mewn lleoliadau addas. | Wrth i gynlluniau godi |
| Gwneud unrhyw waith trin coed sydd ei angen i gynnal unrhyw goed aeddfed mewn cyflwr diogel er mwyn gallu eu cadw. | Yn ôl yr angen |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Ystyried cynnal profion DNA ar y coed ar yr ystâd feddal a thir cyfagos i gymharu canlyniadau gydag astudiaethau tebyg wnaethpwyd ar yr Hafren Uchaf. | – |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Dim ond gydag un LBAP yr ymgynghorwyd yn ystod datblygiad y TREBAP (Sir Fflint).

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae'r Cynlluniau Cynefin ar gyfer Coetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig, Afonydd a Nentydd, Cyrff Dyfrol, Nodweddion Ffiniol a Dolydd yr Iseldir; a'r Cynllun Gweithredu Rhywogaeth ar gyfer Ystlumod.

### Sefydliad blaen neu bartner

Nid yw hwn yn rhywogaeth UKBAP ac felly nid oes Partner Blaen.



*Clychau'r gog brodorol*

# Clychau'r Gog (*Hyacinthoides non-scripta*)



**Mae clychau'r gog yn arwedd nodweddiadol o goetiroedd llydan-ddeiliog y DU yn y gwanwyn.**

Yn ogystal â choetiroedd, mae clychau'r gog hefyd yn tyfu ar lethrau rhedyn ac wrth ochr gwrychoedd hynafol a/neu rywogaeth gyfoethog. Yng Nghaerffili, mae clychau'r gog hefyd yn tyfu ar ysbail gweithfeydd glo, wedi eu cysgodi o dan redyn ac ar rostir. Yn ne orllewin Cymru fe geir digonedd o'r planhigion hyn ar laswelltir arfordirol ar ben clogwyni, ar ymylon ffyrdd ac ar ynysoedd bychan. Mewn rhai rhannau o Ogledd Cymru mae ardaloedd o glychau'r gog i'w gweld ar ochr bryniau fel "ysbrydion" coetiroedd sydd wedi cael eu clirio.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Mae hinsawdd laith gefnforol y DU yn darparu amodau delfrydol ar gyfer clychau'r gog. Mae gan y DU 25-49% o boblogaeth fyd-eang clychau'r gog. Fe'u ceir ledled Cymru ac maent yn niferus yn lleol mewn coetiroedd collddail a gwrychoedd hynafol neu rywogaeth-gyfoethog.

- Mae clychau'r gog wedi eu rhestru fel Rhywogaeth o Bryder Cadwraethol gan Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU.
- Caiff clychau'r gog eu gwarchod dan Atodlen 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 parthed gwerthiant yn unig.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Mae mwyafrif y coetiroedd o fewn yr ystâd feddal yn deillio o gynlluniau plannu diweddar ac nid ydynt o anghenraid yn addas ar gyfer clychau'r gog. Serch hynny, lle mae'r rhwydwaith yn agos at goetiroedd derw yr ucheldir neu ynn cymysg, mae'n debygol y bydd clychau'r gog i'w cael o fewn yr ystâd feddal.

Lle mae dwy lôn cefnffyrdd wedi eu lledu, a gwrychoedd hynafol a/neu rywogaeth-gyfoethog wedi cael eu symud, mae'n debygol y bydd clychau'r gog wedi eu colli. Os mai dim ond un ochr o'r ffordd sydd wedi gorfod cael ei symud neu ei newid, gall clychau'r gog oroesi. Fe welir clychau'r gog yn gyffredin ar ymyl ffyrdd ar lethrau rhedyn.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Colli cynefin*

Er eu bod yn ymddangos yn lluosog iawn mewn rhai lleoliadau, mae clychau'r gog yn dirywio oherwydd colli cynefinoedd (yn enwedig coetir a gwrychoedd aeddfed). Gall adeiladu ffyrdd newydd a chynlluniau gwella arwain at golli cynefinoedd coetir a gwrychoedd aeddfed lle mae clychau'r gog yn tyfu.

*Rheolaeth*

Gall dirywiad yn rheolaeth traddodiadol coetiroedd arwain at glychau'r gog yn cael eu 'cysgodi allan'. Mae ffactorau eraill yn cynnwys codi clychau'r gog i'w gwerthu a phlannu clychau'r gog Sbaen, yn arwain at traws-beillio a chroesi ein rhywogaeth brodorol.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae llawer o safleoedd coetir hynafol sy'n cynnwys clychau'r gog wedi eu dynodi'n SoDdGA neu yn meddu ar ddynodiadau anstatudol.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw cadw a gwella poblogaeth bresennol clychau'r gog ar hyd yr ystâd feddal drwy reoli coetiroedd a gwrychoedd yn gadarnhaol.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu WTRMM a darparu gwybodaeth fanwl ar reolaeth briodol fflora daear coetiroedd a gwrychoedd sy'n cynnwys clychau'r gog. | 2007 |
| Adolygu, gydag Awdurdodau Priffyrdd Cenedlaethol eraill y DU, cyngor i'w gynnwys yn y DMRB ar wella ardaloedd planedig presennol, yn cynnwys bylbiau. | 2005 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Adeg dylunio cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd, sicrhau bod coetiroedd a gwrychoedd hynafol gwerthfawr gyda chlychau'r gog yn cael eu hystyried. Osgoi colli'r cynefin hwn yn uniongyrchol lle bynnag y mae hynny'n bosibl. | Wrth i gynlluniau godi |
| Rheoli safleoedd coetir a gwrychoedd yn sympathetig, a lleoliadau eraill sy'n cynnwys clychau'r gog ac sydd o fewn yr ystâd feddal. | Cyfredol |
| Ystyried cadw, storio ac ail-leoli bylbiau ac uwchbridd lle bynnag y mae cynlluniau ffyrdd yn effeithio ar ardaloedd o glychau'r gog brodorol. | Wrth i gynlluniau godi |
| Plannu deugain safle newydd i glychau'r gog o fewn yr ystâd feddal erbyn 2014. Sicrhau bod bylbiau brodorol lleol yn cael eu defnyddio ac nid rhywogaethau anfrodorol megis clychau'r gog Sbaen. | 40 safle erbyn 2014 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Codi ymwybyddiaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ac Asiantau Cefnffyrdd ynghylch amddiffyn clychau'r gog a'u rheoli yn briodol. | Cyfredol |
| Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch gwerth clychau'r gog ar ymylon ffyrdd. | Cyfredol a 2006 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae clychau'r gog hefyd yn gysylltiedig â Chynefinoedd Blaenoriaeth yr UKBAP fel a ganlyn:


Coetiroedd Derw yr Ucheldir; Parciau a Phorfeydd Coediog yr Iseldir; a Gwrychoedd Hynafol a/neu rywogaeth-gyfoethog. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Caerffili, Gwynedd a Rhondda Cynon Taf.
Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Cynlluniau Gweithredu Cynefin Nodweddion Ffiniol a Choetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig.

### Sefydliad blaen neu bartneriaid

Nid yw hwn yn rhywogaeth UKBAP ac felly nid oes Partner Blaen.



*Penigan y porfeydd*



# Penigan y Porfeydd (*Dianthus armeria*)

**Planhigyn sy'n gysylltiedig â phorfeydd sych, tir wedi ei aflonyddu, ymylon caeau, gwrychoedd ac ymylon ffyrdd yw penigan y porfeydd.**

Mae arno angen pridd ysgafn, tywodlyd gyda pH cymharol uchel (hynny yw pridd alcalinaidd), ac amodau agored, er unwaith y bydd wedi ei sefydlu, gall gystadlu gyda llystyfiant talach.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Er nad yw penigan y porfeydd dan fygythiad yn Ewrop, gwelwyd dirywiad llym yn y DU dros y 60 mlynedd diwethaf.

- Mae penigan y porfeydd wedi ei restru fel Rhywogaeth Blaenoriaeth yn yr UKBAP, ac mae wedi ei ddosbarthu fel planhigyn 'Bregus'.
- Mae penigan y porfeydd wedi ei warchod dan Adran 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Mae penigan y porfeydd wedi ei gynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Dim ond pedwar cofnod sydd ar gael yng Nghymru ar ôl 1970, wedi eu lleoli yng Nghonwy, Sir Fflint, Abertawe a Chastell-Nedd Port Talbot.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Er bod penigan y porfeydd yn bresennol ar hyn o bryd gerllaw'r 'Pwll Triongl' (Cronfa Baglan) ger yr M4 yng Nghastell-Nedd Port Talbot, nid oes unrhyw gofnodion hysbys am y rhywogaeth ar ystâd feddal y cefnffyrdd. Mae'r Asiantaeth Briffyrdd wedi nodi poblogaethau ar ei ffyrdd yn Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Colli cynefin a darnio*

Gall adeiladu a gwella ffyrdd effeithio ar benigan y porfeydd drwy golli'r rhywogaeth ei hun a'i gynefin yn uniongyrchol; er enghraifft drwy ddinistro porfa a gwrychoedd ac ehangu ymylon ffyrdd.

### *Rheoli'r cynefin yn amhriodol*

Gall trefniadau torri amhriodol, pori yn peidio ar ymylon tir comin, neu ddiffyg rheolaeth yn gyffredinol fod yn niweidiol i'r rhywogaeth hwn drwy ganiatáu newidiadau olyniaethol megis datblygu strwythur llystyfiant tal a thrwchus nad yw'n ffafriol i benigan y porfeydd.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae'r safle sy'n gyfagos â'r pwll yng Nghastell-Nedd Port Talbot wedi cael ei warchod rhag ei ddatblygu. Mae contractwyr sy'n gweithio yn yr ardal yn ymwybodol o leoliad a phwysigrwydd y rhywogaeth.
- Mae Plantlife yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar fenter ar y cyd i hyrwyddo pwysigrwydd penigan y porfeydd.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw arolygu ardaloedd o'r rhwydwaith sy'n agos at gytrefi hysbys o benigan y porfeydd, a lle y deuir o hyd iddynt, gweithredu mesurau lliniaru addas ar gyfer cynlluniau newydd a rheolaeth i gynnal ac i hybu poblogaethau newydd o benigan y porfeydd ar y rhwydwaith.
Yn benodol:

- osgoi effeithiau datblygiadau ffyrdd newydd neu welliannau ar benigan y porfeydd a'i gynefin;
- arolygu safleoedd potensial i benigan y porfeydd ar y rhwydwaith, yn enwedig cyn i waith adeiladu neu wella ffyrdd ddigwydd;
- lle mae effeithiau na ellir eu hosgoi ar benigan y porfeydd a'i gynefin am ddigwydd, sicrhau bod lliniaru digonol wedi ei drefnu; a
- lle deuir o hyd iddynt, ystyried rheolaeth briodol i gadw a gwella'r cytrefi.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Darparu canllawiau ar reoli ymylon y ffordd er lles penigan y porfeydd os deuir o hyd i boblogaethau. | 2006 |
| **Arolygu** | |
| Arolygu ardaloedd o'r rhwydwaith all fod yn addas. | 2006/2008 |
| Sefydlu system i adrodd am ardaloedd sydd â'r potensial i fod yn gynefinoedd addas. | 2008 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Lle deuir o hyd i gytrefi ar yr ystâd feddal, osgoi effeithio ar y rhywogaeth drwy waith adeiladu ffyrdd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle na ellir osgoi effeithiau ar y rhywogaeth, darparu mesurau lliniaru priodol ac ystyried ailgreu/traws-leoli cynefinoedd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Rheoli ymylon rhwydwaith i fod yn ffafriol i benigan y porfeydd mewn ardaloedd lle mae cytrefi presennol neu sydd â'r potensial i gael rhai yn agos at safleoedd hysbys. | Yn ôl yr angen |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Monitro cytrefi hysbys o benigan y porfeydd ar yr ystâd feddal | Os yn berthnasol |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Sir Gaerfyrddin, Sir Fflint, Sir Fynwy, Castell-Nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Glaswelltir Calchaidd, Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir a Nodweddion Ffiniol. Mae penigan y porfeydd hefyd yn rhywogaeth BAP yr Asiantaeth Priffyrdd.


### Sefydliad blaen neu bartneriaid

Nodir yn yr UKBAP mai'r Partner Blaen ar gyfer y rhywogaeth hwn yw Plantlife.



*Briwlys y calch*

# Briwlys y Calch (*Stachys alpina*)



**Cysylltir y planhigyn hwn yn gyffredinol gyda choetiroedd agored, llennyrch, ymylon coedwigoedd a gwrychoedd. Mae'n well ganddo safleoedd heulog a chysgodol ar bridd tenau calchaidd.**

Perlysieuyn lluosflwydd ydyw, sy'n tyfu hyd at fetr o daldra, ac mae ei hadau wedi addasu i gyfnodau hir o hunedd, fel bod planhigion yn gallu ymddangos ar ôl bod yn absennol am gyfnodau maith ar safleoedd hanesyddol yn dilyn aflonyddu neu glirio prysg neu goetir.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Er nad yw'r rhywogaeth wedi ei bygwth yn Ewrop, mae mewn perygl yn y DU ac mae cofnodion diweddar yn awgrymu mai dim ond mewn tair poblogaeth yn Swydd Gaerloyw a Gogledd Cymru y mae'r rhywogaeth yn goroesi. Yng Nghymru, mae'r poblogaethau naturiol yn Sir Ddinbych yn ymddangos fel petaent yn dirywio'n araf, er gyda pheth recriwtio. Nid yw hi'n eglur a yw poblogaeth Sir Gaerloyw yn dal mewn bodolaeth. Mae peth trafodaeth ynghylch a yw briwlys y calch mewn gwirionedd yn blanhigyn brodorol, neu a yw mewn gwirionedd wedi dod yn frodoredig yn dilyn ei gyflwyno fel planhigyn gardd.

- Wedi ei warchod dan Atodlen 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981.
- Wedi ei restru yn Llyfr Data Coch Prydain fel planhigyn 'Mewn perygl'.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Ceir nifer fechan o blanhigion ar hyd yr A5 wrth Droeon y Glyn. Olion o boblogaeth wedi ei hailgyflwyno yw'r rhain.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Rheolaeth amhriodol*

Gallai cytrefi presennol gael eu colli drwy atal rheoli, a allai ganiatáu i rywogaethau eraill ddominyddu goleuni a gofod, neu drwy ddifrod damweiniol gan chwynladdwyr heb ei dargedu, neu dorri ar yr adeg anghywir o'r flwyddyn.

*Colli cynefin a darnio*

Lle gall adeiladu neu wella ffyrdd effeithio ar goetir agored neu wrychoedd hynafol neu rywogaeth gyfoethog, mae posibilrwydd y bydd hyn yn cael effaith ar friwlys y calch. Er y gall peth aflonyddu esgor ar hadau cwsg yn egino, mae hefyd yn bosibl y gallai cytrefi presennol gael eu dinistrio: er enghraifft, credir bod un o'r safleoedd yn Sir Ddinbych wedi cael ei golli oherwydd lledu ffordd.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae gan Erddi Botanig Ness fanc hadau ar gyfer briwlys y calch.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, ynghyd â Menter Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi arolygu safle'r A5, ac yn ymchwilio i gyfleon potensial rheoli a gwella.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi paratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer y rhywogaeth hwn.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw: diogelu briwlys y calch ar y rhwydwaith; ac edrych ar gyfleon i'w ailgyflwyno ar yr ystâd feddal.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Arolygu cynefinoedd addas ar gyfer briwlys y calch mewn ardaloedd sy'n agos at boblogaethau hysbys cyn i unrhyw waith adeiladu neu wella ffyrdd ddigwydd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle mae amodau'n briodol, ystyried cyflwyno cynlluniau ar yr ystâd feddal. | Wrth i gynlluniau godi |
| Pob parti (y Gyfarwyddiaeth a'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Ddwyrain Cymru/ Menter Coedwigaeth) i drafod gyda phartion cyfredol sydd â diddordeb (Cyngor Cefn Gwlad Cymry; Gerddi Botanig Ness; ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Gaerloyw) er mwyn cael cyngor ar reoli, epiliaeth ac ailgyflwyno. Defnyddio canlyniadau'r trafodaethau gyda'r boblogaeth bresennol. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Monitro'r holl gytrefi presennol (a rhai'r dyfodol) ar y rhwydwaith. | Bob dwy flynedd |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill


Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Nodweddion Ffiniol, Glaswelltir Calchaidd a Choetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig.

### Sefydliad blaen neu bartner

Nid yw hwn yn rhywogaeth UKBAP ac felly nid oes Partner Blaen.



*Tegeirianau'r wenynen*



# Tegeirian (*Orchidaceae*)

**Disgrifir aelodau o deulu'r Orchidaceae fel perlysiau lluosflwydd gyda gwreiddgyffion, neu wreiddiau cnapiog gyda choesynnau sydd wedi chwyddo yn y bôn.**

Mae gan fwyafrif y rhywogaethau Prydeinig gysylltiadau ffwngaidd microhisaidd. Mae croesiadau o fewn y teulu yn digwydd yn aml, yn enwedig o fewn y genws /'llwyth' *Dactylorhiza*: mae tri ar hugain o 'lwythi' gwahanol i'w cael ym Mhrydain.

Mae'r tegeirian yn gysylltiedig â chynefinoedd sefydlog megis coetiroedd hynafol a hen gaeau yn ogystal â phriddoedd ar ymylon ffyrdd a safleoedd caeau brown sydd yn ddiweddar wedi profi rhyw raddau o aflonyddu. Ac eithrio cynefinoedd cwbl ddyfrol, mae gan y rhan fwyaf o Gynefinoedd Blaenoriaeth UKBAP y potensial i gynnal y tegeirian: y rhai mwyaf perthnasol i ffyrdd yw cynefinoedd glaswelltir, rhostir a choetir.

### Statws ar hyn o bryd

*Statws yn y DU ac yng Nghymru*

- Mae'r grŵp mawr hwn o blanhigion yn cynnwys dau rywogaeth prin dros ben yr ystyrir eu bod mewn perygl ac felly sydd wedi eu gwarchod yn gyfreithiol dan Atodlen 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981: tegeirian y corryn cynnar (*Ophrys sphegodes*) a thegeirian y fign galchog (*Liparis loeselii*). Dim ond tegeirian y fign galchog sy'n tyfu yng Nghymru, ond nid oes tystiolaeth ei fod yn tyfu ar y rhwydwaith. Mae Tegeirian y fign galchog hefyd yn rhywogaeth UKBAP, ac mae wedi ei restru dan Atodiad II a IV Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' y GE1992, ac Atodlen 4 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) 1994.
- Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys rhywogaethau prin sy'n cael eu hystyried yn brin yn genedlaethol megis y galdrist ruddgoch (*Epipactis atrorubens*).
- Mae nifer o deigeirianau prin eraill wedi eu rhestru mewn LBAPau yng Nghymru, yn eu plith tegeirian y waun (*Orchis morio*), tegeirian bera (*Anacamptis pyramidalis*); tegeirian y broga (*Coeloglossum viride*); a thegeirian brych y rhos (*Dactylorhiza maculata*).

*Statws ar y rhwydwaith*

Mae nifer o'r rhywogaethau tegeirian mwy cyffredin wedi eu cofnodi ar ymylon ffyrdd a chylchfannau ar y rhwydwaith yn cynnwys: tegeirian brych (*Dactylorhiza fuchsii*); tegeirian-y-gors deheuol (*Dactylorhiza praetermissa*); tegeirian-y-gors gogleddol (*Dactylorhiza purpurella*); tegeirian y wenynen (*Ophrys apifera*); caineirian (*Listera cordata*); a thegeirian bera (*Anacamptis pyramidalis*). Mae'r ffyrdd dan sylw yn cynnwys yr M4, yr A4042, yr A470 a'r A55.



*Tegeirianau ar ochr ffordd yr A55*

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

*Colli cynefin drwy fynd â thir, llygredd neu ddarnio*

Mae'r colli cynefinoedd lled-naturiol a'r dirywiad cyffredinol mewn amrywiaeth ymysg rhywogaethau planhigion sydd wedi digwydd yn y cefn gwlad ehangach wedi effeithio ar nifer a dosbarthiad rhywogaethau tegeirian drwy'r DU gyfan, yn cynnwys Cymru. Er bod llawer o'r colli cynefin hwn yn ganlyniad i newidiadau mewn arferion ffermio, mae canran fechan yn ganlyniad i gynigion datblygu, yn cynnwys cynlluniau ffyrdd.

Mae ewyn lluwch, o'r tir amaethyddol cyfagos (chwynladdwyr a phlaladdwyr) ac o'r ffordd gerbydau (o'r halen sy'n cael ei roi ar y ffyrdd pan fo'r tywydd yn wael), hefyd yn ffactor yn nirywiad cynefinoedd, yn arwain at golli rhagor o rywogaethau planhigion bregus yn cynnwys tegeirianau.

Mae'r cynefinoedd sy'n fwyaf tebygol o gynnal nifer fawr o rywogaethau tegeirian yn tueddu i fod yn isel mewn maetholion, a bydd unrhyw gynnydd yn lefelau maetholion y pridd (er enghraifft drwy arferion ffermio ar dir cyfagos) hefyd yn niweidiol i unrhyw degeirianau ar ymylon ffyrdd.

*Rheolaeth amhriodol*

Mae pori (neu dorri) yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod tegeirianau yn gallu blodeuo a gosod had, ac i sicrhau nad yw'r glaswelltau a'r llwyni mwy bywiog yn eu goruchafu. Felly bydd tan-bori neu or-bori, neu drefn dorri amhriodol, yn arwain at leihad mewn amrywiaeth rhywogaethau, ac yn y diwedd yn arwain at newid yn adeiledd y cynefin, gan arwain at golli tegeirianau o laswelltir.

Gall rhywogaethau estron a chwyn amaethyddol oruchafu tegeirianau; yn yr un modd, gall mesurau sy'n cael eu cymryd i reoli'r rhywogaethau annymunol hyn hefyd fod yn niweidiol i degeirianau.

Gall cynlluniau plannu amhriodol gael effaith niweidiol ar gynefinoedd glaswelltir a rhostir sydd â'r potensial i gynnal tegeirianau. Gall hyn gynnwys ychwanegu coed a llwyni, ymgorffori rhywogaethau addurnol megis cennin Pedr, neu ddefnyddio cymysgedd hadau anfrodorol neu amhriodol.

## Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae'n hysbys bod tegeirian y fign galchog i'w weld mewn dwy Warchodfa Natur Genedlaethol yng Nghymru, ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi sefydlu gweithgor i warchod ac i astudio'r rhywogaeth hwn. Mae wedi ei gynnwys mewn tri LBAP yng Nghymru (Sir Gaerfyrddin, Pen-y-Bont ar Ogwr a Chastell-Nedd Port Talbot). Mae arolygon o safleoedd cyfredol a hanesyddol teigeirian y fign galchog wedi eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin.
- Mae tegeirian brych y rhos wedi ei gynnwys yn LBAP Rhondda Cynon Taf fel rhywogaeth cyfeirio ar gyfer porfa glaswelltir asid, rhostir neu frwyn o ansawdd da.
- Mae tegeirian y waun hefyd wedi ei gynnwys yn LBAP Rhondda Cynon Taf a bwriedir cynnal arolygon caeau gwair ar gyfer y rhywogaeth hwn yn ystod y cyfnod blodeuo. Maent hefyd yn bwriadu defnyddio mynwent sy'n cynnal y rhywogaeth hwn fel ffynhonnell hadau ar gyfer ymylon ffyrdd, plannu tirwedd a gwarchodfeydd natur mewn ysgolion yn y Bwrdeistref Sirol.
- Mae gwaith rheoli i gael gwared ar brysg o safleoedd tegeirian yn cael ei wneud ar yr A55.

**Nodau a thargedau'r cynllun**

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw:

- osgoi colli safleoedd sy'n cynnal tegeirianau yn ystod cynlluniau adeiladu a lledu ffyrdd;
- cynnal gweithgareddau rheoli ar adegau mwyaf priodol y flwyddyn, ac osgoi'r rhai sy'n gwrthdaro â chyfnodau blodeuo a chynhyrchu hadau cylch bywyd y tegeirian; a
- nodi cyfleon ar gyfer gwella cynefinoedd yn ystod dylunio, adeiladu a chynnal.

**Gweithredu bwriedig**

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Adolygu argymhellion presennol yn WTRMM ar gyfer rheoli cynefinoedd lle ceir tegeirianau ar hyn o bryd neu a allai eu cefnogi. | 2007 |
| **Arolygu** | |
| Canfod ardaloedd sy'n cynnal tegeirianau drwy gyfuniad o arolygon maes ac astudiaethau desg. | Cyfredol |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Sicrhau bod unrhyw ardaloedd o'r ystâd feddal y gwyddys eu bod yn cynnal tegeirianau yn cael eu rheoli er lles y planhigion hyn; mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, torri ardaloedd glaswelltir ar adegau priodol yn y flwyddyn a symud y toriadau. Osgoi defnyddio chwynladdwyr i reoli rhywogaethau chwyn estron ac ymledol. | Cyfredol |
| Ceisio osgoi unrhyw effeithiau uniongyrchol ar gynefinoedd cyfoethog mewn tegeirianau yn sgîl unrhyw gynllun ffordd newydd neu wella ffyrdd. Sicrhau nad yw plannu addurnol/tirlun yn llechfeddiannu ardaloedd cyfoethog mewn tegeirianau. | Wrth i gynlluniau godi |
| Creu neu adfer ardaloedd newydd cyfoethog mewn tegeirianau, naill ai drwy ddefnyddio hadau o darddiad lleol mewn lleoliadau addas, neu drwy reolaeth adferol mewn deg safle. | 10 safle erbyn 2010 |
| Osgoi cyflwyno rhywogaethau amhriodol (coed, llwyni a chymysgedd hadau) fel rhan o weithgareddau cynnal mewn ardaloedd sy'n cynnal neu sydd â'r potensial i gynnal tegeirianau. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Sefydlu system i adolygu llwyddiant rheoli ardaloedd er lles tegeirianau. | 2007 |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Datblygu deunydd hyfforddi ar arferion rheoli gorau ar gyfer tegeirianau. | 2008 |
| Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth cadwraethol cynefinoedd lle ceir tegeirianau. | 2006 |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Castell-Nedd Port Talbot, Sir Benfro a Rhondda Cynon Taf.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae: Rhostir; Arfordirol ac Aberol; Coetiroedd a Choed a Llwyni Brodorol Planedig; Afonydd a Nentydd; Cyrff Dyfrol; Nodweddion Ffiniol; Glaswelltir Calchaidd; Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir; Dolydd yr Iseldir; a Glaswellt y Bwla a Phorfa Frwyn.


### Sefydliad blaen neu bartner

Mae'r UKBAP yn nodi mai'r partneriaid blaen ar gyfer y rhywogaethau hyn yw English Nature, Yr Ymddiriedolaethau Natur, Pwyllgor Cypridedium, y Gerddi Botanegol Brenhinol, Kew.



*Clychlys ymledol*

# Clychlys Ymledol (*Gweithred panula patula*)



**Planhigyn lluosflwydd sy'n gysylltiedig â choetir agored, cynefinoedd ymyl coetiroedd, ymylon caeau, gwrychoedd ac ymylon ffyrdd yw'r clychlys ymledol.**

Mae'n well ganddo safleoedd sych, heulog wedi eu draenio'n dda ar bridd cymharol anffrwythlon, tywodllyd neu raeanog. Mae'n bosibl bod ei ddirywiad yn gysylltiedig â'r lleihad mewn aflonyddu safleoedd coetir, a'r cynnydd yn y defnydd o chwynladdwyr ar ymylon ffyrdd a rheilffyrdd. Mae angen tir wedi ei aflonyddu ar ei hadau, ond gallant oroesi ynghwsg am gyfnodau hir; felly gall y planhigyn ailymddangos ar ôl absenoldeb hir.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Er nad yw'r clychlys ymledol wedi ei fygwth yn Ewrop, mae wedi gweld dirywiad cyson yn y DU. Nid yw'n rhywogaeth wedi ei warchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (diwygiad) 1981 ac nid yw wedi ei gynnwys yn yr UKBAP, ond mae wedi ei gynnwys yn y rhestr rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Fioamrywiaeth Cymru dan Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Mae prif boblogaethau'r rhywogaeth hwn i'w cael ym Mhowys (Sir Frycheiniog, Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn) a Sir Fynwy yng Nghymru; ac yn Swydd Amwythig, Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon yn Lloegr, gyda phoblogaethau llai yn Swydd Gaerlŷr ac ar draws de Lloegr. Cofnodir enghraifft anfrodorol brodoredig wedi dianc o erddi o'r rhywogaeth hwn mewn rhannau o Loegr ac yn hanesyddol yng Ngwynedd.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Nid oes unrhyw gofnodion hysbys o'r rhywogaeth hwn ar y rhwydwaith cefnffyrdd, ond mae'r rhywogaeth wedi ei ganfod ar ymylon ffyrdd mewn mannau eraill yng Nghymru.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Colli cynefin a darnio*

Gall adeiladu a gwella ffyrdd effeithio ar y clychlys ymledol drwy golli'r rhywogaeth ei hun a'i gynefin yn uniongyrchol; er enghraifft, drwy ddinistrio coetir a gwrychoedd a thrwy ledu ymylon ffyrdd.

### *Rheolaeth amhriodol o'r cynefin*

Gallai trefniadau torri amhriodol, atal pori ar ymylon tir comin neu ddiffyg rheolaeth yn gyffredinol fod yn niweidiol i'r rhywogaeth hwn drwy ganiatáu newidiadau olyniaethol nad ydynt yn ffafriol i'r clychlys ymledol.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Mae Plantlife yn ddiweddar (2003) wedi ail-ymweld â lleoliadau yr oeddynt yn gwybod amdanynt ynghynt ynghylch y rhywogaeth yma

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw arolygu ardaloedd o'r rhwydwaith sy'n agos at gytrefi hysbys o glychlys ymledol ac os canfyddir poblogaethau newydd ar y rhwydwaith, gweithredu camau rheoli priodol i'w cynnal a'u hyrwyddo. Yn ogystal:

- arolygu safleoedd potensial i glychlys ymledol ar y rhwydwaith, yn enwedig cyn i waith adeiladu neu wella ffyrdd ddigwydd;
- osgoi effeithiau datblygiadau ffyrdd newydd neu welliannau ar y clychlys ymledol a'i gynefin;
- lle bydd effeithiau ar y clychlys ymledol a'i gynefin na ellir eu hosgoi am ddigwydd, sicrhau bod mesurau lliniaru digonol wedi eu trefnu; a
- lle mae'r rhywogaeth yn bresennol, ystyried rheolaeth briodol i'w cadw a'u gwella.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Darparu cyfarwyddyd ar reoli ymylon ffyrdd er lles y clychlys ymledol, os deuir o hyd i boblogaethau. | 2006 |
| **Arolygu** | |
| Arolygu ardaloedd ar y rhwydwaith all fod yn addas. | 2006/2008 |
| Sefydlu system i adrodd am ardaloedd sydd â'r potensial i fod yn gynefin addas. | 2008 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Lle deuir o hyd i gytrefi ar yr ystâd feddal, osgoi effeithio ar y rhywogaeth wrth adeiladu ffyrdd. | Wrth i gynlluniau godi |
| Lle na ellir osgoi effeithio ar y rhywogaeth, darparu mesurau lliniaru priodol ac ystyried ailgreu/trawsleoli'r cynefin. | Wrth i gynlluniau godi |
| Rheoli ymylon rhwydwaith i fod yn ffafriol i glychlys ymledol, mewn ardaloedd cytrefu presennol a photensial yn agos at safleoedd hysbys. | Yn ôl yr angen |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Monitro cytrefi presennol hysbys o glychlys ymledol ar yr ystâd feddal | Os yn berthnasol |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Nid oedd gan unrhyw LBAP gamau gweithredu ar gyfer y clychlys ymledol.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Glaswelltir Calchaidd, Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir a Nodweddion Ffiniol.


### Sefydliad blaen neu bartneriaid

Nid oes Sefydliad Blaen ar gyfer y rhywogaeth hwn, gan nad yw'r rhywogaeth yn Rhywogaeth Blaenoriaeth yn yr UKBAP.



*Ffacbysen chwerw*

# Pysen y Coed (*Vicia orobus*)



**Mae pysen y coed yn rhywogaeth sy'n nodweddu glaswelltir wedi ei ddraenio'n dda, rhywogaeth-gyfoethog, hen laswelltir mewn pridd ffrwythlon, alcalaidd. Nid yw'n goddef pori na chystadleuaeth gan brysg, ac mae'n bodoli'n bennaf ar lannau ac ymysg clogfeini a llwyni pigog, sy'n cynnig nawdd iddo oddi wrth stoc pori.**

Mae hefyd wedi dod yn gyffredin ar ymylon glaswelltog ffyrdd a thraciau lle mae diffyg pori a rheolaeth prysg yn achlysurol yn darparu'r amodau delfrydol ar ei gyfer. Rhywogaeth yr ucheldir yw yn bennaf, ond mae hefyd i'w ganfod ar lefel y môr.

## Statws ar hyn o bryd

### *Statws yn y DU ac yng Nghymru*

Nid ystyrir pysen y coed yn brin o fewn y DU, sy'n golygu ei fod wedi ei gyfrif mewn mwy na chant o sgwariau 10 cilomedr yn y DU ers y 1970au. Mae wedi dirywio'n amlwg ym Mhrydain ac Iwerddon ers tua 1900, ac ystyrir ei fod yn brin, ar wahân i Gymru a Gorllewin yr Alban sy'n ddau o'r unig gadarnleoedd sydd ar ôl yn Ewrop.

- Mae wedi ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cynefinoedd Dolydd yr Iseldir.
- Nid oes gan bysen y coed unrhyw warchodaeth statudol arbennig ar hyn o bryd; serch hynny, mae nifer o'i safleoedd hysbys wedi eu dynodi yn SoDdGA.

### *Statws ar y rhwydwaith*

Yn wyneb natur heb ei bori, rhydd o brysg ymylon ffyrdd, a hoffter y rhywogaeth hwn am y math yma o gynefin, mae'n debyg o gael ei ganfod mewn cynefin briodol ledled yr ystâd feddal. Gwyddys ei fod yn tyfu ar yr A470 a'r A44.

## Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth

### *Colli cynefin*

Mae aredig ac ailhadu glaswelltiroedd hynafol, a thranc y defnydd o dechnegau rheoli traddodiadol ar gaeau gwair, wedi arwain at golli cynefinoedd addas.

*Rheolaeth amhriodol*

Mae'r defnydd o chwynladdwyr a rheolaeth amhriodol cloddiau (er enghraifft strimio neu dorri yn rhy aml) mewn ardaloedd ucheldir wedi arwain at leihad yn rhychwant blaenorol y rhywogaeth.

*Llygredd o ffyrdd*

Gall dŵr ffo o ffyrdd wneud pridd yr ystâd feddal yn anaddas ar gyfer pysen y coed.

### Gweithredu ar hyn o bryd

- Dim.

### Nodau a thargedau'r cynllun

Nodau'r Cynllun Gweithredu hwn yw codi ymwybyddiaeth o bysen y coed a sicrhau bod yr ystâd feddal yn cael ei rheoli mewn modd sy'n ffafrio ei gadwraeth. Yn benodol:

- arolygu, monitro a chynnal pob poblogaeth hysbys o fewn yr ystâd feddal; a
- gan ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, ystyried sefydlu poblogaethau o blanhigion wedi eu tyfu o had ar ardaloedd addas o fewn yr ystâd feddal.

### Gweithredu bwriedig

| GWEITHRED | TARGED |
|---|---|
| **Polisi, canllawiau a chyngor** | |
| Cyhoeddi cyngor yn WTRMM ar reoli ardaloedd o'r ystâd feddal y gwyddys eu bod yn cynnwys pysen y coed. | Erbyn 2007 |
| **Dylunio, adeiladu a chynnal ffyrdd** | |
| Os oes gwaith adeiladu ffyrdd newydd neu wella ffyrdd yn effeithio ar ardaloedd o laswelltir sy'n cynnwys pysen y coed, sicrhau bod ymylon ffyrdd yn cael eu plannu wedi hynny gyda chymysgedd addas o rywogaethau, yn cynnwys pysen y coed. Ystyried trawsleoli fel y dewis olaf. | Wrth i gynlluniau godi |
| Rheoli ymylon priffyrdd mewn modd sy'n rheoli datblygiad prysg ac yn hyrwyddo tyfiant y rhywogaeth hwn. | Cyfredol |
| **Ymchwil a monitro yn y dyfodol** | |
| Monitro llwyddiant ardaloedd hadu gyda physen y coed i ganfod y ffactorau angenrheidiol ar gyfer ei dyfu'n llwyddiannus ar yr ystâd feddal. | Wrth i gynlluniau godi |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | |
| Cynnwys manylion ar reoli tirlun yn briodol ar gyfer cadwraeth pysen y coed o fewn hyfforddiant Asiantau Rheoli a staff y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth. | Cyfredol |

### Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill

Mae pysen y coed wedi ei ymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Cynefin Dolydd yr Iseldir yn yr UKBAP. Ymgynghorwyd â'r LBAPau canlynol yn ystod datblygiad y TREBAP: Castell-Nedd Port Talbot a Phowys.

Ymysg y Cynlluniau Gweithredu TREBAP y dylid ymgynghori â hwy hefyd mae Dolydd yr Iseldir a Glaswellt y Bwla a Phorfa Frwyn.

### Sefydliad blaen neu bartner

Nid yw hwn yn rhywogaeth UKBAP ac felly nid oes Partner Blaen.

# 10 Rhestr Termau

Mae'r Rhestr Termau yn rhoi esboniad o'r termau ac o swyddogaeth rhai o'r sefydliadau y cyfeirir atynt yn y prif destun; a chysylltiadau gwe'r sefydliadau y soniwyd amdanynt yn nhestun y cynlluniau gweithredu lle mae gwefannau ar gael.

| Byrfodd | Eitem yn y Rhestr | Disgrifiad a chysylltiad gwe (os yn berthnasol) |
|---|---|---|
| ACAau | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig | Safle o bwysigrwydd Ewropeaidd i fywyd gwyllt ar wahân i adar, wedi eu dynodi gan Lywodraeth y DU fel gofyniad yng Nghyfarwyddiaeth Cynefinoedd y GE. Gweler hefyd Natura 2000. |
| AGAau | Ardaloedd Gwarchod Arbennig. | Safle o bwysigrwydd Ewropeaidd i adar, wedi eu dynodi gan Lywodraeth y DU fel gofyniad o Gyfarwyddiaeth Adar y GE. Gweler hefyd Natura 2000. |
| BCT | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod | *http://www.bats.org.uk* |
| | Bioamrywiaeth | Amrywiaeth bywyd ar y ddaear. Mae hwn yn cynnwys niferoedd ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau, a'r prosesau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu cynnal. |
| BTO | Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain | *http://www.bto.org* |
| | Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain | *http://www.britishwaterways.co.uk* |
| | Cadwraeth Gloÿnnod Byw | *http://www.butterfly-conservation.org*<br>*http://www.butterfly-conservation.org/bcuk/wales/* |
| CEH | Canolfan Ecoleg a Hydroleg | *http://www.ceh.ac.uk* |
| | Coed Cadw | *http://www.coed-cadw.org.uk* |
| | Cydlynydd Amgylcheddol. | Person a benodir yn ystod datblygiad cynllun newydd er mwyn cydlynu agweddau amgylcheddol y broses ddylunio. |
| | Cydlynydd Safle Amgylcheddol neu Glerc y Gwaith | Person a benodir i oruchwylio agweddau amgylcheddol y broses adeiladu. |

# Rhestr termau

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth | Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd yng Nghymru. http://www.cymru.gov.uk/subitransport/index.htm |
| | Cymdeithas Herpetolegol Prydain | http://www.thebhs.org |
| CCGC | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Ymgynghorwyr statudol ar faterion bywyd gwyllt a thirwedd yng Nghymru. http://www.ccw.gov.uk |
| | Cynefin blaenoriaethol | Cynefin sydd wedi cael Cynllun Gweithredu wedi ei brisio yn yr UKBAP. Gellir defnyddio'r term hefyd ar gyfer cynlluniau neilltuol bwysig mewn unrhyw Gynllun Gweithredu. |
| | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | http://www.cymru.gov.uk/index.htm |
| | Darllenydd Adobe Acrobat | Y rhaglen feddalwedd gyfrifiadurol y mae modd ei defnyddio i ddarllen fersiynau Adobe Acrobat y TREBAP. http://www.adobe.co.uk/products/acrobat |
| | Darnio | Effaith ffyrdd neu ddatblygiadau eraill lle mae cynefinoedd yn cael eu rhannu'n ardaloedd llai, gyda'r ffyrdd yn gweithredu fel rhwystrau i'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt. Mewn rhai achosion, gall darnio arwain at gynefinoedd yn methu â chynnal eu gwerth bioamrywiaeth. |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig | Mewn perthynas â bioamrywiaeth, yr hyn sy'n cyfateb yn Lloegr i Adran Cefn Gwlad, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad. Mae hefyd yn gyfrifol am nifer o faterion eraill. http://www.defra.gov.uk |
| | Dŵr i Fywyd Gwyllt | http://www.waterpolicyteam.org |
| EA | Adran yr Amgylchedd Cymru | Y rhan o Adran yr Amgylchedd sy'n delio gyda materion yn ymwneud â dŵr, aer a phridd yng Nghymru. http://www.environment-agency.gov.uk/?lang=_w |
| EAP/EMP | Cynlluniau Gweithredu'r Amgylchedd/ Cynlluniau Rheoli'r Amgylchedd | Caiff EAPau eu paratoi ar gyfer cynlluniau mawr o gyfnod yr Ymchwiliad Cyhoeddus er mwyn cofnodi ymrwymiadau amgylcheddol. Caiff y cynlluniau hyn eu cario ymlaen i'r cyfnod adeiladu gan eu diweddaru yn ystod y gwaith adeiladu. Caiff EMPau eu paratoi i gyfarwyddo rheolaeth amgylcheddol y cynllun, ar ôl i'r adeiladu a'r cynnal a chadw sy'n ymwneud â'r adeiladu ddod i ben. Cânt eu datblygu o fersiwn adeiladu'r EAP. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ecoleoli | Techneg yn seiliedig ar ddefnyddio sain gan rai rhywogaethau (e.e. ystlumod) i chwilio'u ffordd, i ddal ysglyfaeth ac i gyfathrebu rhwng y naill a'r llall. |
| EN | English Nature | Y sefydliad yn Lloegr sy'n gyfrifol am faterion bywyd gwyllt, yn cyfateb i Gyngor Cefn Gwlad Cymru. *http://www.english-nature.org.uk* |
| FE | Menter Coedwigaeth | *http://www.forestry.gov.uk/forestry/WCAS-4W4H72* |
| | Froglife | *http://www.froglife.org* |
| GAP | Cynllun Gweithredu Generig | Cynllun gweithredu sy'n trafod materion nad ydynt yn benodol berthnasol i gynefin neu rywogaeth. |
| | Gerddi Kew | *http://www.rbgkew.org.uk* |
| | Grŵp Llywio Ffyrdd a Dyfrgwn – Cymru | Grŵp, yn cynnwys y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, sy'n gweithredu mentrau i leihau effaith negyddol ffyrdd ar ddyfrgwn, ac sy'n annog mesurau cadarnhaol dros ddyfrgwn. |
| | Grŵp Twnel Conwy | *http://www.traffic-wales.com/* *http://www.nwales-traffic.co.uk* |
| | Gweithrediaeth yr Alban | Yn cyfateb i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn yr Alban. *http://www.scotland.gov.uk* |
| HAP | Cynllun Gweithredu Cynefinoedd | Cynllun gweithredu yn cynnwys gwybodaeth a chyfres o gamau gweithredu gyda dyddiad targed i bob un ar gyfer cynefin penodol neu grŵp o gynefinoedd. |
| HCT | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Herpetolegol | *http://www.hcontrst.f9.co.uk/* |
| HA | Asiantaeth Priffyrdd | Yn cyfateb i Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Cymru; yn gyfrifol am y rhwydwaith traffyrdd a phriffyrdd yn Lloegr. *http://www.highways.gov.uk* |
| LBAP | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | Cynllun sydd fel arfer yn cynnwys ardal Awdurdod Lleol neu Barc Cenedlaethol ac sy'n cael ei baratoi gan Bartneriaeth o sefydliadau. Mae'r Cynllun yn rhoi gwybodaeth ar fioamrywiaeth yn yr ardal honno, ac fel arfer yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd dethol. *http://www.ukbap.org.uk* |

# Rhestr termau

| | | |
|---|---|---|
| LBRC | Canolfannau Cofnodion Biolegol Lleol | Sefydliad sy'n casglu, yn cadw ac yn prosesu cofnodion bioamrywiaeth ar gyfer ardal benodol. |
| | Llywodraeth Cynulliad Cymru | Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| LNR | Gwarchodfa Natur Leol | Safleoedd o bwysigrwydd lleol i fywyd gwyllt wedi eu dynodi gan Awdurdodau Lleol dan y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. |
| | Metaboblogaethau | Grŵp o gytrefi neu boblogaethau llai o rywogaethau sy'n rhyngweithio â'i gilydd, er eu bod wedi eu gwahanu yn ddaearyddol. |
| | Natura 2000 | Rhwydwaith ar draws Ewrop o safleoedd wedi'u gwarchod, a sefydlwyd dan y Gyfarwyddiaeth Cynefinoedd, yn cynnwys ACAau ac AGAau (gweler isod). |
| NNR | Gwarchodfa Natur Genedlaethol | Safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, sy'n enghreifftiau da iawn o'r cynefin hwnnw a ddynodir dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. |
| NRA | Awdurdod Afonydd Cenedlaethol | Gweler Asiantaeth yr Amgylchedd |
| | Parthau Ffynonellau Hadau | Planhigion neu hadau o ffynhonnell o fewn yr un ardal fioranbarthol (fel y nodir gan y Comisiwn Coedwigaeth) â'r safle lle byddant yn cael eu defnyddio. |
| | Partner Blaen | Sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio ac adrodd ar weithredoedd ar gyfer cynefin neu rywogaeth penodol yn yr UKBAP. |
| | Plantlife | *http://www.plantlife.org.uk* |
| | Prosiect Bywyd yn Afonydd y DU yr Undeb Ewropeaidd | Prosiect sy'n cael ei gyllido gan yr Undeb Ewropeaidd i ymchwilio gofynion cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael eu cynnwys yng Nghyfarwyddeb Cynefinoedd y GE yn y DU. *http://www.english-nature.org.uk/LIFEinUKRivers/index.html* |
| | Prosiect Priffyrdd Byw | Prosiect sy'n cael ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog a Chyngor Sir Powys i nodi a rheoli gwarchodfeydd natur ymylon ffordd ym Mhowys. |
| | Pryfysol | Disgrifio rhywogaeth sy'n dibynnu'n llwyr neu'n rhannol ar bryfed am ei fwyd (e.e. ystlumod) |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhywogaeth blaenoriaethol | Rhywogaeth sydd wedi cael Cynllun Gweithredu wedi ei brisio yn yr UKBAP. Gellir defnyddio'r term hefyd ar gyfer cynlluniau neilltuol bwysig mewn unrhyw Gynllun Gweithredu. |
| | Rhywogaethau o Bryder Cadwraethol | Rhywogaethau sydd wedi eu rhestru yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU fel rhai o bwysigrwydd i'r DU, ond heb gynllun gweithredu wedi ei brisio (gweler hefyd Rhywogaethau Blaenoriaethol). |
| RSPB | Y Gymdeithas Frenhinol dros Amddiffyn Adar | *http://www.rspb.org.uk* |
| | Safle Ramsar | Safleoedd gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol, a ddynodwyd gan lofnodwyr 'Confenswin Ramsar' |
| SINC | Safleoedd o Bwysigrwydd dros Gadwraeth Natur. | Gweler Safleoedd Bywyd Gwyllt. |
| SNCI | Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur | Gweler Safleoedd Bywyd Gwyllt. |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Ardal o dir wedi ei ddynodi dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel ardal o ddiddordeb cenedlaethol i gadwraeth natur. |
| SAP | Cynllun Gweithredu Rhywogaeth. | Cynllun gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth a chyfres o gamau gweithredu pob un â dyddiad targed ar gyfer rhywogaeth benodol neu grŵp o rywogaethau. |
| | Tarddiad Lleol | Planhigion neu hadau o ffynhonnell sy'n lleol i'r safle lle byddant yn cael eu defnyddio. |
| VWT | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent | *http://www.vwt.org.uk* |
| | Safle Bywyd Gwyllt | Safle ar gyfer bywyd gwyllt yr ystyrir eu bod yn bwysig yn lleol. Nid oes ganddynt ddynodiad cyfreithiol. Efallai y bydd awdurdodau lleol gwahanol yn defnyddio terminoleg wahanol. |
| | Y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru | *http://www.forestry.gov.uk* |
| | Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt | *http://www.wildlifetrusts.org* |
| | Ymddiriedolaeth Hebogiad a Thylluanod | *http://www.hawkandowl.org/* |
| | Ymddiriedolaeth Tylluanod Gwyn | *http://www.barnowltrust.org.uk* |
| | Ymyl ffordd | Y llain o dir rhwng y ffordd gerbydau a ffens ffin y briffordd. |
| | Ystâd feddal | Holl ardal ymylon ffyrdd ar y rhwydwaith gefnffyrdd a thraffyrdd. |

# 11 Llyfryddiaeth a chyfeiriadau defnyddiol

**Prif Deddfwriaeth Cadwraeth Natur a Phriffyrdd.**

| Byrfodd cyffredin | Disgrifiad (yn cynnwys enw llawn); Cysylltiadau gwe a rhif ISBN |
|---|---|
| Confensiwn Bern | Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewropeaidd (agorwyd i'w lofnodi 1979; daeth i rym 1982). *http://www.ecnc.nl/doc/europe/legislat/bernconv.html* ISBN 92-871-0020-9 |
| Cyfarwyddiaeth Adar | CYFARWYDDIAETH Y CYNGOR 79/409/EEC 2 Ebrill 1979 ar gadwraeth adar gwyllt. *http://www.ecnc.nl/doc/europe/legislat/birdsdir.html* ISBN 0119749424 |
| Confensiwn Bonn | Confensiwn ar Gadwraeth Rhywogaethau Anifeiliaid Gwyllt Ymfudol Mae dogfennau ar gael arlein, neu gan:UNEP / CMS Secretariat, Martin-Luther-King-Str. 8, D-53175 Bonn, Germany. *http://www.wcmc.org.uk/cms/* |
| Deddf CRoW | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 *http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000037.htm* ISBN 0-10- 543700-X *http://www.cymru.gov.uk/subienvironment/content/guidance/species-statement-w.htm* |
| Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd | CYFARWYDDIAETH Y CYNGOR 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ffawna a fflora gwyllt. *http://europa.eu.int/comm/environment/nature/habdir.htm* |
| Rheoliadau Cynefinoedd | Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol a.y.y.b.) 1994. Mae'r offeryn statudol hwn yn trosi'r 'Gyfarwyddiaeth Cynefinoedd' i ddeddfwriaeth y DU. Gelwir y Rheoliadau yn anffurfiol yn 'Reoliadau Cynefinoedd'. *http://www.hmso.gov.uk/si/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm* ISBN 0110457161 |
| Rheoliadau Perthi | Rheoliadau Perthi 1997 *http://www.hmso.gov.uk/si/si1997/97116001.htm* ISBN 0 11 064458 1 |
| Deddf Priffyrdd | Deddf Priffyrdd 1980 yw'r prif ddeddfwriaeth sy'n darparu'r pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud gwaith mewn perthynas â'r rhwydwaith traffyrdd a phriffyrdd. |

| | |
|---|---|
| WCA (crynodeb)<br>WCA (anffurfiol) | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (a diwygiadau wedi hynny) yw'r cyfrwng i weithredu Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt Ewropeaidd a Chynefinoedd Naturiol ('Confensiwn Bern') a Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwyllt (79/409/EEC) a Chynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt (92/43/FFC) ym Mhrydain.<br>*http://www.jncc.gov.uk/species/Legislation/protect/default.htm (crynodeb)*<br>*http://www.naturenet.net/law/wca.html (anfurfiol)*<br>ISBN 0 10 546981 5 |

**Prif ddogfennau Polisi a Chynghori**

| Byrfodd cyffredin | Disgrifiad (yn cynnwys enw llawn); Cysylltiadau gwe a rhif ISBN |
|---|---|
| Coetiroedd i Gymru | Strategaeth Coetiroedd Cymru yw strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer coetiroedd Cymru yn ystod y 50 mlynedd nesaf. Mae Coetiroedd i Gymru yn rhoi crynodeb o'r strategaeth 2001.<br>*http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-52VJ* |
| Cynllun Datblygiad Cynaliadwy | Dysgu byw'n wahanol – y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000.<br>*http://www.cymru.gov.uk/themessustainabledev/content/newsite/scheme-w.htm* |
| DMRB | Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd – Canllaw Ffyrdd Da a Nodiadau Cynghori Cadwaraeth Natur cysylltiol.<br>*http://www.official-documents.co.uk/document/deps/ha/dmrb/index.htm*<br>Amryw ISBNau. |
| Fframwaith Drafnidiaeth i Gymru | Y Fframwaith Drafnidiaeth i Gymru<br>*http://www.cymru.gov.uk/subitransport/content/framework/main.htm*<br>ISBN 0750427779 |
| Rhaglen Cefnffyrdd Ymlaen | Y Rhaglen Cefnffyrdd Ymlaen<br>*http://www.wales.gov.uk/subitransport/content/trunk/forwardprog/newpublication-e.htm#top*<br>ISBN 0750428856 |
| TAN5 | Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cadwraeth Natur – 1996<br>Ar gael o'r Llyfrfa.<br>ISBN 0750421738 |
| TPOs (taflen i'r cyhoedd)<br>TPOs (canllaw arfer da) | Awdurdod cynllunio lleol sy'n gwneud Gorchmynion Cadw Coed (Bwrdeistrefi Llundain, cynghorau dosbarth neu unedol ac weithiau cynghorau sir). Mae'r gorchmynion yn ei gwneud yn drosedd i dorri coeden i lawr, ei thopio, ei thocio, ei dadwreiddio, ei difrodi'n fwriadol neu ei dinistrio yn fwriadol heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio.<br>*http://www.odpm.gov.uk/stellent/groups/odpm_urbanpolicy/documents/page/odpm_urbpol_607978.hcsp* (technegol) |

# Llyfryddiaeth a chyfeiriadau defnddiol

| | |
|---|---|
| UKBAP | Ceir nifer o ddogfennau sy'n ymwneud â Chynllun Bioamrywiaeth y DU ac mae manylion ohonynt ar wefan UKBAP. Maent ar gael o'r Llyfrfa hefyd. *http://www.ukbap.org.uk/default.htm* |
| | Bioamrywiaeth – Cynllun Gweithredu'r DU 1994. Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 0 10 124282-4 |
| | Grŵp Bioamrywiaeth y DU – Biodiversity Meeting the Challenge – Cyfrol 1 a Chyfrol 2 1995. Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 0117532185. ISBN 0117532282 |
| | Grŵp Bioamrywiaeth y DU Cynlluniau Gweithredu Cyfran 2 – Cyfrol I: Vertebrates and vascular plants 1998. Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 1 85716 406 7 |
| | Grŵp Bioamrywiaeth y DU Cynlluniau Gweithredu Cyfran 2 – Cyfrol II: Terrestrial and freshwater habitats 1998. Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 1 85716 422 9 |
| | Grŵp Bioamrywiaeth y DU Cynlluniau Gweithredu Cyfran 2 – Cyfrol III: Plants and fungi 1998. Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 1 85716 445 8 |
| | Grŵp Bioamrywiaeth y DU Cynlluniau Gweithredu Cyfran 2 – Cyfrol IV: Invertebrates 1998. Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 1 85716 448 2 |
| | Grŵp Bioamrywiaeth y DU Cynlluniau Gweithredu Cyfran 2 – Cyfrol V: Maritime species and habitats 1999. Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 1 85716 467 9 |
| | Grŵp Bioamrywiaeth y DU Cynlluniau Gweithredu Cyfran 2 – Cyfrol VI: Terrestrial and freshwater species and habitats 1999 Ar gael o wefan UKBAP. ISBN 1 85716 467 9 |
| WTRMM | Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Cymru 1999. Dogfen heb ei chyhoeddi; ar gael gan Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. |

**Cynlluniau Gweithredu Lleol ac Eraill yr edrychwyd arnynt ar gyfer yr Archwiliad ym mis Awst 2002:**

| | |
|---|---|
| Abertawe | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ar gyfer Abertawe.<br>Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Asiantaeth Priffyrdd | Cysylltiad gwe yn y Rhestr Termau. |
| Blaenau Gwent | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ar gyfer Blaenau Gwent. |
| Bro Morgannwg | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ar gyfer Bro Morgannwg.<br>Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain | Cysylltiad gwe yn y Rhestr Termau. |
| Caerdydd | Gwyllt am Gaerdydd |
| Caerffili | LBAP Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Cadwraeth Gloÿnnod Byw | Cynllun Gweithredu gloÿnnod byw a gwyfynnod i Gymru.<br>Cysylltiad gwe yn y Rhestr Termau |
| Casnewydd | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ar gyfer Casnewydd.<br>Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Castell-Nedd Port Talbot | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ar gyfer Castell-Nedd Port Talbot 2001-2006. |
| Ceredigion | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Ceredigion. |
| Conwy | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol i Gonwy. |
| Sir Ddinbych | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol Sir Ddinbych. |
| Eryri | Bioamrywiaeth yn Eryri. Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Gwynedd | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd. |
| Merthyr Tudful | Gweithredu dros Fywyd Gwyllt ym Merthyr Tudful – Cynllun Gweithredu<br>Bioamrywiaeth Merthyr Tudful. Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Parc Cenedlaethol<br>Bannau Brycheiniog | Ein Byd Naturiol – cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol ar gyfer Parc<br>Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Powys | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol Powys. Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Rhondda Cynon Taff | Gweithredu dros Natur: Cynllun Gweithredu Bioarmrywiaeth Heol ar gyfer Rhondda<br>Cynon Taff. |
| Sir Benfro | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ar gyfer Sir Benfro. Crynodeb yn unig<br>ar wefan UKBAP. |
| Sir Fflint | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol Sir Fflint (Creu Gofod i Fywyd Gwyllt). |
| Sir Fôn | Gweithio dros Gyfoeth Bywyd Gwyllt – Cynllun Gweithredu Lleol Sir Fôn |
| Sir Fynwy | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Fynwy. Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Sir Gaerfyrddin | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol Sir Gaerfyrddin. Crynodeb yn unig<br>ar wefan UKBAP. |
| Torfaen | LBAP Torfaen. Crynodeb yn unig ar wefan UKBAP. |
| Wrecsam | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Wrecsam. |

# 12 Cyfeiriadau eraill

Arnold H, **Atlas of Amphibians and Reptiles in Britain**, JNCC, 1995

Asher J et al, **Millennium Atlas of Butterflies in Britain and Ireland**, Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2001

Asiantaeth Priffyrdd, **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth**, Asiantaeth Priffyrdd, 2002

Asiantaeth yr Amgylchedd, **Otters and river management**, EA, 1999

Asiantaeth yr Amgylchedd, **Water Vole Conservation Handbook**, EA, 1999

Bright P, Morris P a Mitchell-Jones A, **Dormouse Conservation Handbook**, English Nature, 1996

De Feu C, **Nest Boxes**, Ymddiriedolaeth Onitholeg Prydain, 1993

Dewar M and Shawyer C, **Boxes, Platforms and Baskets – Artificial nest sites for owls and other birds of prey**, Ymddiriedolaeth Hebogiaid a Thylluanod, 1999

Gent T a Gibson P, **Herptefauna Workers handbook**, JNCC, 1998 (diwygiad 2002)

Jermyn D L et al, **The distribution of the hazel dormouse in Wales**, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, 2001

Jones, P S et al, **Priority Habitats of Wales – a technical guide**, CCW, 2003

Mitchell-Jones A a McLeish A, **Bat Workers' Manual**, JNCC, 1999

Preston C et al., **New Atlas of the British and Irish Flora**, Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2003

Richardson P, **Distribution atlas of bats in Britain and Ireland**, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, 2000

RSPB, **List of Birds of Conservation Concern, 2002 – 2007**, RSPB, 2002.

Stace C, **New Flora of the British Isles**, Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1997

Stebbings and Walsh, **Bat boxes**, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, 1997

Ward et al, **New Rivers and wildlife handbook**, RSPB, 1994

Wigginton, **Red data book for vascular plants**, JNCC, 1999

# Diolchiadau

**Hoffai'r Gyfarwyddiath Drafnidiaeth ddiolch i'r canlynol am eu cymorth a'u cyfranogiad:**

Y sefydliadau a'r unigolion sy'n rhan o bartneriaeth TREBAP.

Pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriadau yn 2001 a 2003.

Y Grwpiau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r sefydliadau eraill oedd wedi gallu anfon eu cynlluniau ar gyfer y gwaith Archwilio.

Y rhai a ddarparodd wybodaeth ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd.

Cresswell Associates – *http://www.cresswell-associates.com/*

Celf Creative – *http://www.celfcreative.com/*

Cwmni Cyfieithu White Drift Cyf – *http://www.whitedrift-translations.com/*

**Ac i'r sefydliadau/unigolion canlynol am y lluniau:**

Keith Alexander – *Rhoi wyneb newydd ar ffordd yr A40.*

C Duigan – *Llyn mesotroffig, Llyn Tegid.*

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – *Glaswelltir calchaidd yr ucheldir;*
*gwrychoedd hynafol a rhywogaeth-gyfoethog.*

Adrian Fowles – *Morfa pori arfordirol a gorlifdir.*

Nick Greensill – *Tegeirianau ar ochr ffordd yr A55; llethr o friallu mair; coetir a reolir ar ymyl y ffordd.*

Cyngor Gwynedd /Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Orllewin Cymru – *Sgri ger yr A487;*
*clogwyni ar yr A470.*

Mark Hamblin – *Tylluan wen; madfall fenywaidd yn torheulo; gwiber gwrywaidd yn torheulo.*

Mike Hamnett – *Dyfrgi; pili pala brith y gors; gwyfyn cliradain gymreig; ystlumod.*

Pat Hayes, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru – *Gwangen.*

Peter Jones – *Glaswelltir asid sych yr iseldir; rhostir yr iseldir.*

Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru/Cyngor Sir Powys – *Traffig mewn pentref yng nghanolbarth*
*Cymru; yr A470 a a dyffryn gwy.*

J Latham – *Coetiroedd ynn cymysg yr ucheldir; coetiroedd ffawydd ac yw yr iseldir; coetiroedd gwlyb.*

Chris Nelson/Asiantaeth Cefnffyrdd Gorllewin Cymru – *Silff dyfrgwn.*

Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Ddwyrain Cymru – *Yr A494/A55 o'r awyr.*

John Ostley – *Briwlys y calch.*

P Rhind – *Rhostir yr ucheldir; morfa heli; coed derw'r ucheldir.*

# Diolchiadau

Tim Rich a'r Arkive Project (www.arkive.org) – *Pelenllys gronynnog.*

John Robinson – *Pathew; pâr o wiberod yn perfformio 'dawns' garwriaeth.*

S Smith – *Glaswelltir asid sych yr iseldir.*

D Stevens – *Glaswellt y gweunydd a phorfa frwyn.*

Symonds – *Storfa lifogydd Afon Ganol ar yr A55.*

Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth – *Yr A465 a Cheunant Clydach Gorge (clawr blaen).*

Adran Drydan y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth/W S Atkins – *Nos ar yr M4; Ail Bont Hafren; Gwybodaeth am y rhwydwaith ar gyfrifiadur.*

Alwyn Williams – *Clawdd.*

Julian Whitehouse – *Madfall ddŵr gribog.*

Ray Woods – *Clychlys ymledol.*

David Woodfall – *Poplysen ddu frodorol; nentydd a choetiroedd yr ucheldir; Afon Gwy, Powys; coedwig o glychau'r gog; cimwch afon crafanc wen.*

Woodfall Wild Images – *Penigan y porfeydd; tegeirianau'r wenynen; clychau'r gog; llygoden bengron y dŵr; dôl yr iseldir.*

Len Wyatt – *Ffens madfallod ar yr A55; ffacbysen chwerw; bwrned mawr; arolygu'r rhwydwaith; llygaid-llo mawr ar hyd yr A55; clawdd.*